Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
11/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
3 MAWRTH 2016

# Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi



OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-5987-8

Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi

Amgueddfa Cymru - Llywodraeth Cymru.

Safbwyntiau Barn yr ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai barn Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Rebecca Sarasin
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 4NQ
Ffôn: 0300 025 1481
E-bost: rebecca.sarasin@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-5987-8
© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Tabl cynnwys**

1. Cyflwyniad....................................................................................................2
2. Dulliau gwerthuso a llinell amser………………………………………………....5
3. Adolygiad o lenyddiaeth a thystiolaeth..........................................................8
4. Canfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Broses......................................................29
5. Canfyddiadau'r Gwerthusiad o Ganlyniadau...............................................56
6. Casgliadau ac Argymhellion.........................................................................83
Llyfryddiaeth.....................................................................................................93
Atodiad 1........................................................................................................101
Atodiad 2........................................................................................................107
Atodiad 3........................................................................................................110

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trechu tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymysg rhai o'r bobl a'r cymunedau tlotaf yng Nghymru, wrth galon ei hagenda ar gyfer tymor presennol y Cynulliad, fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi[1] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 yw'r prif ffocws ar gyfer cydgysylltu camau a rhaglenni gwrthdladi ledled Cymru. Mae'n dwyn ynghyd holl feysydd polisi'r llywodraeth a phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar bob lefel i helpu cymunedau ac unigolion allan o dlodi. Mae Cymunedau yn Gyntaf - rhaglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar y gymuned - yn fecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gweithredu. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda chymunedau, mewn cymunedau, gan greu seilwaith lleol sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ei nod yw gwneud y cymunedau hyn yn fwy ffyniannus, yn iachach, yn fwy medrus ac yn fwy gwybodus, ac mae ganddi dri amcan strategol:

- cymunedau iachach
- cymunedau sy'n dysgu
- cymunedau ffyniannus

1.2 Mae Cymunedau yn Gyntaf yn seiliedig ar grwpiau bach o gymunedau a elwir yn Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Ceir cyfanswm o 52 Clystyrau ar hyd a lled Cymru. Mae rhagor o fanylion am y rhaglen ar gael ar wefan Cymunedau yn Gyntaf.[2]

1.3 Yn y Cynllun Gweithredu, mae rôl diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau o ran helpu i drechu tlodi a chefnogi adfywio cymunedol wedi cael ei chydnabod yn benodol (t. 15) ac ers ei gyhoeddi cynhaliwyd archwiliad manwl o'r cysylltiadau rhwng mynediad i ddiwylliant a chyfiawnder cymdeithasol, o dan arweiniad y Farwnes Kay Andrews OBE. Arweiniodd yr adolygiad hwn at gyhoeddi adroddiad ym mis Mawrth 2014, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, sefydliadau diwylliannol, cyrff cymunedol ac ysgolion ledled Cymru i gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn cynyddu i'r eithaf fanteision

---

[1] Llywodraeth Cymru (2015) *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. [Ar-lein). Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/130703takeforpovactplancy.pdf

[2] Gellir cael rhagor o wybodaeth ar dudalen we Cymunedau yn Gyntaf ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy

cyfranogiad diwylliannol i unigolion sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru[3]. Mae'r adroddiad yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y sector diwylliannol at yr agenda trechu tlodi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond yn tynnu sylw at gyfleoedd newydd a llwybrau ar gyfer cynyddu mynediad i weithgareddau diwylliannol a chymryd rhan ynddynt. Mae'r adroddiad yn ategu ac yn adeiladu ar adroddiad annibynnol ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru[4] a gynhyrchwyd gan yr Athro Dai Smith ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2013.

1.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i Adroddiad y Farwnes Andrews ym mis Tachwedd 2014, sy'n nodi'n fanwl raglen waith sy'n ymateb yn uniongyrchol i argymhellion yr adroddiad ac yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyrraedd targedau allweddol yr adroddiad.[5] Fel rhan o'r rhaglen waith hon, lansiwyd menter polisi newydd ym mis Mai 2015 o dan y teitl 'Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant'. Cynhaliwyd cyfnod peilot cychwynnol o flwyddyn ar gyfer y fenter gan ddechrau ym mis Ebrill 2015 ac roedd yn cynnwys sefydlu chwe Ardal Arloesi ar hyd a lled Cymru[6]. Ym mhob Ardal Arloesi, mae cyrff diwylliannol a threftadaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn gweithio, mewn cydweithrediad â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol, i ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar lefel y gymuned leol, yn enwedig

---

[3] Llywodraeth Cymru (2014) *Diwylliant a Thlodi. Defnyddio’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf

[4] Smith, D. (2013) *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-en.pdf

[5] Llywodraeth Cymru (2014) *Adroddiad Diwylliant a Thlodi Gan y Farwnes Andrews - Ymateb Gan Lywodraeth Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/det/publications/141111responsecy.pdf

[6] Mae'r Ardaloedd Arloesi sy'n cymryd rhan yn y flwyddyn beilot yn cynnwys Abertawe, Wrecsam, Gwynedd, Caerdydd, Casnewydd a Thorfaen. Caiff pob Ardal Arloesi ei chydgysylltu gan bartneriaeth leol wedi'i harwain gan Gorff Cyflawni Arweiniol; yn y rhan fwyaf o achosion yr awdurdod lleol yw hwn, ac eithrio Ardal Arloesi Caerdydd sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Caerdydd. Caiff aelodaeth y bartneriaeth ei phennu’n lleol, ond bydd fel arfer yn cynnwys cyrff diwylliannol cenedlaethol a lleol, swyddogion arweiniol awdurdodau lleol ar ddiwylliant, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, cyrff celfyddydol a threftadaeth lleol, rheolwyr clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion, sefydliadau Addysg Uwch a Phellach a chyrff cymunedol eraill megis cymdeithasau tai. [Llywodraeth Cymru (2015) *Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant. Rhaglen Ardaloedd Arloesi: Blwyddyn beilot*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd]

ymysg yr unigolion a'r cymunedau hynny na fyddent fel arfer yn cymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau.

Y prif amcanion ar gyfer pob Ardal Arloesi oedd:

- ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Farwnes Kay Andrews OBE a, lle y bo'n briodol, nodi camau gweithredu sy'n cyfrannu at yr agenda a'u rhoi ar waith;
- cymryd rhan ym mlwyddyn beilot y rhaglen Ardaloedd Arloesi yn 2015-16; cyfrannu at y gwerthusiad o'r rhaglen gyfan a darparu data perthnasol;
- darparu cyfnewidfa cyd-ddysgu a gwybodaeth;
- nodi a rhannu arferion da yn yr Ardal Arloesi ac yn ehangach;
- nodi cyfleoedd newydd ar gyfer prosiectau, rhaglenni a chyllid ar gyfer gweithio mewn partneriaeth; a
- gwerthuso a chyhoeddi arferion gwaith da[7].

1.5 Un o elfennau hanfodol y Rhaglen Beilot Ardaloedd Arloesi yw dangos gwerth y dull o sefydlu Ardaloedd Arloesi ac, yn benodol, canfod eu heffaith debygol ar feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sef gwella cyrhaeddiad addysgol, trechu tlodi a chefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Roedd dau nod trosfwaol i'r gwerthusiad o'r flwyddyn beilot:

(i) Dadansoddi effeithiolrwydd prosesau'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, o ran y ffordd y cafodd ei dylunio a'i chyflawni ('Gwerthusiad o'r Broses'). Er mwyn cyflawni hyn, yr amcanion penodol oedd:

  - deall y cyd-destun y mae'r Ardaloedd Arloesi yn gweithio ynddo ac i ba raddau y mae'n cyd-fynd â mentrau eraill i drechu tlodi yng Nghymru;
  - darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar ddiwylliant i drechu tlodi ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol;
  - ymchwilio i'r ffordd y cafodd y rhaglen Ardaloedd Arloesi ei dylunio, ei gweithredu a'i chyflawni ar lefel leol;

[7] Llywodraeth Cymru (2015) *Pioneer Areas Programme - Pilot Year 2015-16. Programme Initiation Document*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd.

- nodi pa agweddau ar ddylunio a gweithredu'r rhaglen a fu'n llwyddiannus a pham, a pha agweddau ar y rhaglen sydd angen eu gwella a pham;
- nodi sut y mae cynllunio ar y cyd a defnyddio adnoddau ar y cyd ar lefel leol wedi cael effaith ar ffyrdd sefydliadol o weithio.

(ii) Ymchwilio i ba raddau y mae'r rhaglen beilot Ardaloedd Arloesi wedi llwyddo i gynyddu nifer y bobl ifanc, oedolion a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ac mewn ffyrdd sy'n eu helpu i ddysgu a meithrin sgiliau a hyder ('Gwerthusiad o Ganlyniadau'). Islaw hyn, yr amcanion penodol oedd:

- ymchwilio i ba raddau y mae partneriaid allweddol a grwpiau targed wedi cael eu cynnwys yn effeithiol;
- darparu asesiad o effaith debygol ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol ar gynulleidfaoedd targed yn yr Ardaloedd Arloesi;
- nodi pa weithgareddau sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus a darparu enghreifftiau o arferion da;
- amlygu achosion lle nad yw gweithgareddau wedi gweithio cystal a sut y llwyddwyd i oresgyn unrhyw anawsterau / rhwystrau.

## 2. Dulliau gwerthuso a llinell amser

2.1 Yn ystod ei blwyddyn beilot, sefydlodd y rhaglen Ardaloedd Arloesi ddulliau i fonitro, gwerthuso a rhannu'r hyn a ddysgwyd oddi wrth ei model cydweithio i gynhyrchu tystiolaeth ynghylch effaith ymyriadau sy'n seiliedig ar ddiwylliant ar drechu tlodi, yn benodol felly ar ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, a sefydlu corff cenedlaethol o dystiolaeth.

2.2 Arweiniwyd y gwaith o werthuso'r rhaglen beilot gan Amgueddfa Cymru, gyda chymorth gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Roedd uwch ymchwilydd, a ariannwyd ar y cyd gan Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am gydgysylltu cam ymchwil a gwerthuso'r rhaglen gan weithio ochr yn ochr ag ymchwilydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi i ymgymryd â gwaith maes, dadansoddi data ac adrodd ar y canfyddiadau.

2.3 Defnyddiwyd trefniant aml-ddull, yn cynnwys dulliau, dulliau sylfaenol, eilaidd ac ansoddol, i fodloni'r amcanion gwerthuso a amlinellir uchod o fewn yr amserlen. Rhoddir manylion allweddol pob cam o'r gwerthusiad a'r llinell amser ymchwil isod:

**Gweithgaredd 1: Adolygiad o lenyddiaeth a thystiolaeth (mis Gorffennaf i fis Hydref 2015)**

2.4 Roedd y cam hwn yn cynnwys dwy dasg allweddol. Yn gyntaf, archwiliad trylwyr o'r fframwaith deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi ehangach ar gyfer gweithredu'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, ac i ba raddau y mae'n cyd-fynd â mentrau eraill yng Nghymru a'r DU. Yn ail, adolygiad o'r dystiolaeth bresennol ar rôl diwylliant o ran trechu tlodi er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y llenyddiaeth ac amlygu enghreifftiau o arfer gorau. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio mewn perthynas â defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar ddiwylliant i drechu tlodi ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Gweithgaredd 2: Asesu darpariaeth a pherfformiad y rhaglen drwy ymgynghori â rhanddeiliaid (mis Awst i fis Rhagfyr 2015)**

2.5 Cynhaliwyd cyfweliadau manwl gydag aelodau pob partneriaeth Ardal Arloesi, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Corff Cyflawni Arweiniol, a rheolwyr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn ymwneud â datblygu a rheoli'r rhaglen Ardaloedd Arloesi. Yn ogystal, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr arweiniol o bob un o'r ardaloedd peilot enwebu hyd at chwe phartner diwylliannol allweddol a oedd yn ymwneud â phob partneriaeth leol i gymryd rhan mewn rhagor o gyfweliadau manwl. Er mwyn cael rhycwant eang o wybodaeth yn ogystal â gwybodaeth ddofn, awgrymwyd y dylai'r cyfweliadau gynnwys amrywiaeth o sefydliadau partner, megis cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff diwylliannol a threftadaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, grwpiau cymunedol lleol, darparwyr diwylliannol ac ysgolion. Ar draws y chwe ardal beilot cynhaliwyd cyfanswm o 30 o gyfweliadau rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2015.

2.6 Cysylltodd cynrychiolwyr arweiniol ar gyfer pob ardal â'r partneriaid allweddol ar ran yr ymchwilwyr i'w hysbysu am y gwerthusiad a'u gwahodd i gymryd rhan ynddo. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau wyneb-yn-wyneb, ac eithrio tri a gynhaliwyd dros y ffôn, ac roeddent yn amrywio o ran hyd o tua 45 munud i ddwy awr. Cynigiwyd cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a chafodd wyth cyfweliad eu cynnal yn Gymraeg.

Ar ôl cael caniatâd pob cyfranogwr, cafodd y cyfweliadau eu recordio a'u trawsgrifio at ddibenion dadansoddi.

2.7 Diben y cyfweliadau oedd deall:

- y rhesymeg sy'n sail i'r ffordd y dyluniwyd y rhaglen yn eu hardal;
- nodweddion yr ardal (lleoliad a maint, amodau lleol - demograffeg, economi, cyflogaeth ac incwm, sgiliau, tai, iechyd, addysg, twristiaeth, troseddau ac ati, cyfleoedd a heriau allweddol);
- sut y cyflawnwyd y rhaglen ar lefel leol (strwythurau rheoli a llywodraethu, asiantau a dylanwadau allweddol, dulliau ymgysylltu / cysylltu â darparwyr diwylliannol, sgiliau a galluoedd y bobl a'r sefydliadau allweddol, unrhyw heriau allweddol h.y. effaith prosesau ailstrwythuro awdurdodau lleol);
- y math o weithgareddau diwylliannol a oedd yn cael eu datblygu / rhoi ar waith (themâu allweddol, cysoni â rhaglenni a gwasanaethau lleol eraill, cwmpas gofodol, grwpiau targed ac ati);
- sut y cafodd allbynnau eu mesur a'u cofnodi;
- canlyniadau disgwyliedig (tymor byr) ac effeithiau tymor hwy (gwaith ym mhob Ardal Arloesi i nodi rhwng 3 a 5 fesul prosiect).

**Gweithgaredd 3: Astudiaethau achos manwl o ardaloedd lleol (mis Hydref i fis Rhagfyr 2015)**

2.8 Gwnaed rhagor o waith astudiaethau achos manwl ym mhob ardal i greu darlun mwy manwl o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni neu sy'n debygol o gael ei gyflawni ym mhob Ardal Arloesi ac i ddarparu dealltwriaeth ansoddol o'r hyn sy'n gweithio o ran defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar ddiwylliant i drechu tlodi. Roedd y gweithgareddau allweddol yn ystod y cam hwn o'r broses werthuso yn cynnwys:

- cynnal deialog barhaus gyda Chyrff Cyflawni Arweiniol yr Ardaloedd Arloesi i nodi a diffinio canlyniadau mesuradwy ar gyfer eu cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso terfynol;
- cynnal rhagor o drafodaethau / cyfweliadau anffurfiol manwl gyda chynrychiolwyr Ardaloedd Arloesi i gasglu rhagor o wybodaeth a thystiolaeth am ganlyniadau / effeithiau;

- cynnal dadansoddiad eilaidd o ddata Cymunedau yn Gyntaf / Ardaloedd Arloesi yn deillio o ffynonellau allweddol, gan gynnwys y gronfa ddata CEMP, AspireView[8], ac allbynnau monitro eraill (os ydynt ar gael).

**Gweithgaredd 4: Synthesis o dystiolaeth werthuso**

2.9 Roedd cam olaf y gwerthusiad yn cynnwys dwyn ynghyd holl feysydd tystiolaeth y gwerthusiad i ddarparu asesiad cyffredinol o weithrediad y Rhaglen ac arwydd cynnar o'i heffaith. Roedd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- dadansoddiad thematig o ddeunydd cyfweliadau ac astudiaethau achos;
- dadansoddiad ystadegol o ddata economaidd-gymdeithasol eilaidd a data monitro Cymunedau yn Gyntaf (lle roeddent ar gael).

## 3. Adolygiad o lenyddiaeth a thystiolaeth

### Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

3.1 Mae'r rhaglen Ardaloedd Arloesi yn rhan o'r agenda trechu tlodi yng Nghymru. Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru. Yn ganolog i'r agenda hon mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru - menter polisi trawsbynciol a throsfwaol, a chanolbwynt y camau gweithredu a'r rhaglenni gwrthdlodi ledled Cymru.

3.2 Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru yn fecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar 52 o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda phwyslais ar gefnogi unigolion, teuluoedd a grwpiau sydd fwyaf agored i niwed yn y cymunedau hyn.

3.3 Mae gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf dri amcan strategol: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach a Chymunedau sy'n Dysgu. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn cydnabod y bydd Cymunedau yn Gyntaf

[8] Rhoddwyd swm cyfyngedig o ddata monitro perfformiad i'r tîm gwerthuso gan Gyrff Cyflenwi Arweiniol o'r systemau meddalwedd CEMP ac AspireView. Nid oedd hyn yn cynnwys mynediad i'r feddalwedd ei hun. Defnyddir y CEMP gan nifer o Gyrff Cyflenwi Arweiniol ac mae AspireView yn system feddalwedd a reolir yn ganolog a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r systemau meddalwedd wedi'u cynllunio i alluogi clystyrau, Cyrff Cyflawni Arweiniol a Llywodraeth Cymru i fonitro data yn erbyn pob Mesur Perfformiad Cymunedau yn Gyntaf.

yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo dulliau gweithredu cydgysylltiedig a galluogi rhaglenni prif ffrwd i weithio gan sicrhau'r effaith fwyaf yn y cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.

3.4 Un egwyddor bwysig wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yw defnyddio diwylliant i drechu tlodi drwy ddatblygu: “action and targets to help children from low-income families benefit from the arts and culture more generally, including the historic environment” (Llywodraeth Cymru, 2015, t. 16). Er mwyn mynd ar drywydd hyn, lansiwyd y fenter polisi Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant ym mis Mai 2015. Yn ei blwyddyn beilot, sef 2015-16, lansiwyd chwe Ardal Arloesi mewn 15 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol Caerdydd a Merthyr, Gwynedd, Casnewydd, Abertawe, Torfaen a Wrecsam. Ceir mapiau sy'n amlinellu'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ym mhob Ardal Arloesi yn **Atodiad Un**.

3.5 Mae'r rhaglen Ardaloedd Arloesi yn ceisio sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i'r celfyddydau, diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol chwarae eu rhan yn ymdrechion Cymunedau yn Gyntaf i drechu tlodi. Mae'n cysylltu grwpiau diwylliannol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn yr Ardaloedd Arloesi, gan ddarparu ystod o gyfleoedd i bobl ymgysylltu â diwylliant.

3.6 Drwy sefydliadau diwylliannol yn cydweithio â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol, y bwriad yw ysgogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar lefel y gymuned leol, yn enwedig ymysg unigolion a chymunedau na fyddent fel arfer yn cymryd rhan. Mae'r rhaglen beilot Ardaloedd Arloesi yn canolbwyntio ar ymgorffori diwylliant yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac ehangu mynediad i weithgareddau diwylliannol sy'n cynorthwyo clystyrau yn uniongyrchol i gyflawni eu canlyniadau mewn perthynas â Chymunedau Iach, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Ffyniannus.

3.7 Caiff y rhaglen Ardaloedd Arloesi ei chydgysylltu gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o gyrff eraill.

## Cefndir y Rhaglen Ardaloedd Arloesi

3.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod diwylliant yn ffactor sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at helpu unigolion a chymunedau allan o dlodi. Lansiwyd Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i adroddiad y Farwnes Kay Andrews (Llywodraeth Cymru, 2014). Wedi'i gomisiynu gan y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon ym mis Gorffennaf 2013, roedd yr archwiliad hwn o'r cysylltiadau rhwng mynediad i ddiwylliant a chyfiawnder cymdeithasol yn galw ar y llywodraeth yng Nghymru, sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, cyrff cymunedol ac ysgolion i gydweithio i gynyddu i'r eithaf y manteision i bobl sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yn sgil cyfranogiad diwylliannol.

3.9 Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn: “culture [is] taken to mean not just the arts, but also heritage and the historic environment, including the contribution of museums, libraries and the media” (2014, t. 3). Y diffiniad hwn sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y fenter polisi Cyfuno. Mae'r adroddiad yn crynhoi sut mae amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, henebion hanesyddol a sefydliadau celfyddydol yn adnoddau allweddol sy'n gallu ysbrydoli pobl i ddysgu a meithrin sgiliau newydd; ac sy'n gallu helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu hyder ac ymdeimlad o hunaniaeth.

3.10 Yr egwyddor sy'n sail i adroddiad y Farwnes Kay Andrews yw y dylai'r manteision yn sgil mynediad i bob math o ddiwylliant a chyfranogi yn y diwylliannau hynny fod ar gael i bawb, a bod angen ymdrech arbennig i sicrhau y gall y rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig fwynhau'r cyfleoedd hyn. Er bod yr adroddiad yn cydnabod bod llawer iawn o waith da yn cael ei wneud o ran cyflwyno diwylliant yng Nghymru, dywed fod llawer o'r gwaith yn wasgaredig a bod diffyg ffocws ledled Cymru er budd cyfartal ei phobl, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n galw am feddwl yn fwy strategol a chydweithio agosach er mwyn i fwy o bobl o gefndiroedd a chymunedau difreintiedig allu gwireddu'r manteision.

3.11 Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn eang ac yn canolbwyntio ar brif ffrydio mynediad i ddiwylliant mewn sawl maes allweddol. Yn gyntaf, ceir argymhellion ar ymgorffori diwylliant mewn cymunedau yng Nghymru drwy, er enghraifft, y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn ail, ceir argymhellion ynghylch sicrhau bod y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn cael eu prif ffrydio mewn ysgolion, ac yn ehangach drwy ddysgu cymunedol a gwirfoddoli. Mae'r

argymhelliad hwn yn adeiladu ar adroddiad cynharach annibynnol yr Athro Dai Smith i Lywodraeth Cymru, Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (Smith, 2013), a oedd yn ystyried rôl y celfyddydau mewn cyd-destunau addysgol ffurfiol ac yn dadlau y gall y celfyddydau chwarae rhan ganolog yn y broses o wella cyrhaeddiad addysgol, ac y dylent wneud hynny. Mae'r ddau adroddiad yn nodi'r rôl bwysig y gall diwylliant ei chwarae o ran ysbrydoli pobl i ddysgu a meithrin sgiliau ac yn pwysleisio pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol i wella dyheadau, uchelgeisiau a rhagolygon pobl. Yn drydydd, mae adroddiad y Farwnes Kay Andrews yn argymell nifer o fecanweithiau i arwain cynnydd yn lleol ac yn genedlaethol.

3.12 Yn ôl Llywodraeth Cymru, sail yr argymhellion hyn yw prif ffrydio mynediad i ddiwylliant mewn dwy ffordd allweddol: yn gyntaf, drwy ganolbwyntio ar gymunedau difreintiedig fel rhan annatod o ddull sefydliadau diwylliannol, cyfleusterau a gwasanaethau o ymgysylltu â dinasyddion; ac yn ail, sicrhau bod cyfleoedd celfyddydol diwylliannol a threftadaeth yn rhan annatod o'r arlwy mewn meysydd polisi eraill.

3.13 Darn allweddol o ddeddfwriaeth sydd â goblygiadau i agenda'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) Llywodraeth Cymru.[9] Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy osod dyletswydd gyfreithiol ar nifer o gyrff cyhoeddus allweddol - gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r Amgueddfa Genedlaethol i fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig a thymor hwy o gyflawni'r saith nod llesiant a restrir yn y ddeddfwriaeth. Mae'r nodau wedi'u cynllunio i weithio gyda'i gilydd ac maent oll yr un mor bwysig â'i gilydd. Er enghraifft, disgrifir un o'r nodau, sef: 'A Wales of vibrant culture and thriving Welsh', fel: "A society that promotes and protects culture, heritage, and the Welsh Language, and which encourages people to participate in the arts, and sports and recreation" (t. 6). Mae hyn yn amlwg yn berthnasol i'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r cynllun peilot Ardaloedd Arloesi, yn enwedig pan gaiff ei ddehongli yn erbyn fframwaith ehangach y Ddeddf. Er enghraifft, ceir nod i sicrhau: 'A more equal Wales'. Disgrifir y nod hwn fel: "A society that enables people to fulfil their potential no matter what their background or

[9] Gwefan Llywodraeth Cymru, *Lles (Cymru) 2015 Cenedlaethau'r Dyfodol*. Diweddarwyd ar 28 Ebrill 2015. Ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en [Fel ar: 4 Ionawr 2016].

circumstances (including their socio economic background and circumstances)" (t. 6) a fydd, yn enwedig pan gaiff ei ddarllen ar y cyd â'r nodau llesiant eraill, yn cyd-fynd yn gryf â'r gwerthoedd sy'n sail i'r fenter polisi Cyfuno. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y set o ddangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru y bwriedir iddynt fesur cynnydd wrth gyflawni'r saith nod lles wedi dod i ben yn ddiweddar. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar yr ymgynghoriad yn gynnar yn 2016.

**Prif ffrydio diwylliant fel mater o gyfiawnder cymdeithasol**

3.14 Yn hanesyddol, mae cyfranogiad diwylliannol a'i effeithiau wedi cael ei nodi fel mater economaidd allweddol. Ar gyfer y rhan helaethaf o dri degawd, mae mesurau polisi diwylliannol yn y DU wedi eu trafod yn bennaf o ran yr angen am weithlu mwy dyfeisgar ac addasadwy. Er enghraifft, yn sgil penderfyniad Llywodraeth Lafur Prydain i sefydlu Tasglu ar gyfer y Diwydiannau Creadigol fel un o weithgaredd allweddol yr Adran newydd dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cyflwynwyd y cysyniad o ddiwydiannau creadigol i bolisïau prif ffrwd. Er 1998, pan nododd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod y diwydiannau creadigol yn elfen fawr a chynyddol o economi'r DU (DCMS, 1998)[10], cyflwynwyd mesurau polisi sy'n cydnabod arwyddocâd creadigrwydd a chyfraniad diwylliannol i'r DU, gyda ffocws cryfach ar gynhyrchu cyfoeth economaidd.

3.15 Cafodd agendâu gwleidyddol ar gynhwysiant cymdeithasol eu hehangu yn ystod y 1990au hwyr hefyd a'u hyrwyddo drwy'r sector diwylliannol. Gwnaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (1999)[11] ddatganiad polisi ar rôl creadigrwydd a chyfraniad diwylliannol fel mater o gyfiawnder cymdeithasol gan ehangu'r diffiniad o ddiwylliant, a honni bod gan wasanaethau diwylliannol werth anghynhenid o ran: "tackling social exclusion, contributing to regeneration, promoting safer communities, encouraging healthier lifestyles, providing opportunities for voluntary and community activity, and stimulating lifelong learning" (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 1999, t. 2).

---

[10] Gwefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. *Creative Industries Mapping Documents 1998*. Diweddarwyd ar 9 Ebrill 1998. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/creative-industries-mapping-documents-1998 [Fel ar: 5 Ionawr 2016].

[11] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (1999) *Creating Opportunities Guidance for Local Authorities in England on Local Cultural Strategie*s. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

3.16 Yng Nghymru, mae'r diddordeb mewn cyfranogiad diwylliannol a'i effeithiau wedi cael ei fynegi'n bennaf fel mater o gyfiawnder cymdeithasol, lle mae mynediad i weithgareddau diwylliannol a chyfranogi ynddynt wedi cael ei nodi fel agwedd bwysig ar yr agenda trechu tlodi. Y cwestiwn allweddol sy'n sail i adroddiad y Farwnes Kay Andrews oedd sut y gallai cyrff diwylliannol a threftadaeth ledled Cymru gyfrannu'n fwy effeithiol at leihau tlodi a chodi uchelgais. Yn ôl y Farwnes Kay Andrews, drwy Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant, mae Llywodraeth Cymru wedi anelu at arwain y gwaith o gyfleu'r rhan hollbwysig y gall y sector diwylliannol ei chwarae wrth drechu tlodi (2014, p.1).

3.17 Fodd bynnag, mae heriau sylweddol. Mae'r ymdrechion i ehangu cyfranogiad diwylliannol yn cyd-daro â chyfnod pan fo cyllidebau'n crebachu mewn Awdurdodau Lleol, adrannau Llywodraeth Cymru megis Cadw, a sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Er enghraifft, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2014) wedi mynegi pryderon bod toriadau yn y gyllideb yn peryglu gallu Awdurdodau Lleol i ddefnyddio diwylliant a threftadaeth fel dulliau o drechu tlodi oherwydd toriadau pellach posibl i wasanaethau[12]; ac yn ôl Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015)[13] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru: “many local museums are facing the most significant pressure on funding they have ever experienced”, o ganlyniad i newidiadau yng nghyllid y sector cyhoeddus (t. 31). Er bod y gyllideb ar gyfer y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei diogelu ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod (mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017)[14], ar gyfer sefydliadau diwylliannol cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol, mae ansicrwydd ynghylch adnoddau.

[12] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2014) *Culture Group Meeting: The impact of reduced support by local authorities for cultural and art service provisions*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.wlga.gov.uk/download.php?id=5987&l=1

[13] Llywodraeth Cymru (2015) *Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/drah/publications/150825-museums-review-cy.pdf

[14] Ar 8fed Rhagfyr 2015 cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Gyllid a Busnes y Llywodraeth fod cyllideb Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer y cyfnod Ebrill 2015 i Fawrth 2017 yn cael ei diogelu (*Datganiad Cyllideb, adran 14.48*). [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3492&language=en&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=08/12/2015&endDt=08/12/2015&keyword=protect

### Trosolwg o'r Dystiolaeth

3.18 Mae'r sector diwylliannol yn amrywiol, ac yn sgil hyn mae agenda ymchwil gymhleth yn datblygu o'i amgylch. Tybiwyd ers tro bod gwerth cyffredinol i ddiwylliant, ond cyfeirir yn aml at ei werth i gymdeithas fel gwerth cynhenid, sy'n cael ei ystyried yn beth preifat a phersonol: “how arts and culture illuminate our inner lives and enrich our emotional world” (Arts Council England, 2014, t. 4).[15] Fodd bynnag, deellir bod diwylliant hefyd yn cael effeithiau allweddol ehangach ar unigolion, cymunedau a chymdeithas y tu hwnt i'r profiad cynhenid uniongyrchol (ibid). Mae'r adolygiad byr o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adran hon yn canolbwyntio ar ymchwil sy'n dangos effaith allweddol. Mae'r pwyslais ar enghreifftiau o'r dystiolaeth lle mae ymchwil ar effaith diwylliant wedi'i ddatblygu fwyaf. Roedd hyn yn rhoi'r cefndir hanfodol i'r gwerthusiad.

*Iechyd a lles*

3.19 Ceir gwaith ymchwil sy'n dangos effaith diwylliant o ran hyrwyddo nodau cymdeithasol ac economaidd yn y maes iechyd a lles. Mae'r dystiolaeth o effeithiau llesol y celfyddydau yn ymestyn i boblogaethau clinigol ac anghlinigol, ac i iechyd corfforol a meddyliol (Taylor et al., 2015, t. 67).[16]

3.20 Amlygodd adolygiad systematig a gynhaliwyd gan y rhaglen Tystiolaeth o Ddiwylliant a Chwaraeon (rhaglen ymchwil strategol ar y cyd wedi' harwain gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn cydweithrediad ag Arts Council England, English Heritage a Sport England) dystiolaeth sy'n awgrymu y gall ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol mewn modd strwythuredig wella galluoedd gwybyddol plant a phobl ifanc (Newman et al., 2010).[17]

---

[15] Arts Council England (2014) *The Value of Arts and Culture to People and Society. An Evidence Review*. [Ar-lein]. Ar gael yn: *http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/The-value-of-arts-and-culture-to-people-and-society-An-evidence-review-TWO.pdf*

[16] Taylor, P., Davies, L., Wells, P., Gilbertson, J., a Tayleur, W. (2015) *A review of the Social Impacts of Culture and Sport. The culture and sport evidence programme*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/416279/A_review_of_the_Social_Impacts_of_Culture_and_Sport.pdf

[17] Newman, M., Bird, K., Tripney, J., Kalra, N., Kwan, I., Bangpan, M. and Vigurs, C. (2010). *Understanding the impact of engagement in culture and sport. A systematic review of the research on the learning outcomes for young people participating in the arts* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/case_systematic_review_arts_participation.pdf

3.21 Mae adolygiad o dystiolaeth gan Arts Council England ar werth diwylliant yn tynnu sylw at nifer o astudiaethau a oedd yn dangos sut y gall gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar symptomau cyflyrau iechyd penodol, megis dementia ac iselder (Arts Council England, 2014).

3.22 Hefyd, ceir ymchwil sy'n dangos manteision corfforol a seicolegol ymyriadau sy'n seiliedig ar ddiwylliant gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Canfu adolygiad o dystiolaeth ac astudiaeth mapio gweithgaredd a gomisiynwyd ar y cyd gan Sgiliau Gofal, Sgiliau Gofal a Datblygu a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol pan gânt eu cyflwyno'n effeithiol, bod y gweithgareddau wedi helpu i alluogi rhyngweithio cymdeithasol ac wedi helpu cyfranogwyr i fynd ar drywydd diddordebau creadigol (Sgiliau Gofal, 2013). Canfu'r adolygiad hefyd fanteision i staff gofal cymdeithasol drwy herio rhagdybiaethau ynglŷn â galluoedd a thalentau'r cyfranogwyr (t. 3).[18]

3.23 Gall diwylliant hefyd gael effaith ar les goddrychol. Yn yr Alban, gan ddefnyddio data o Arolwg Cartrefi yr Alban 2011, mae dadansoddiad trawstoriadol wedi dangos bod pobl sy'n cymryd rhan mewn diwylliant ac yn mynychu lleoedd neu ddigwyddiadau diwylliannol yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn dda a'u bod yn cael boddhad mawr mewn bywyd o gymharu â'r rhai nad oeddent yn gwneud hynny. Mae hyn hyd yn oed ar ôl ystyried ffactorau perthnasol hysbys eraill, megis ffactorau economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth yr Alban, 2013)[19]. Yn yr un modd, gan ddefnyddio data o'r arolwg Taking Part, canfu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2014) fod pobl sydd wedi mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ystod y 12 mis diwethaf yn sylweddol hapusach na'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny, hyd yn oed ar ôl ystyried ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar hapusrwydd.[20] Mae'r

[18] Sgiliau Gofal (2013) *What do we know about the role of arts in the delivery of social care?* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.skillsforcare.org.uk/Document-library/NMDS-SC,-workforce-intelligence-and-innovation/Research/Arts-and-social-care/Briefing-Paper-FINAL-010713.pdf

[19] Llywodraeth yr Alban (2013) *Healthy Attendance: The Impact of Cultural Engagement and Sports Participation on Health and Satisfaction with Life in Scotland.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.gov.scot/Resource/0043/00430649.pdf

[20] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2014) *Culture, Sport and Wellbeing: An Analysis of the Taking Part Survey*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476322/Culture_Sport_and_Wellbeing_-_An__analysis_of_the__Taking_Part__Survey.pdf

canfyddiadau hyn yn gyson â chorff cynyddol o dystiolaeth ar effaith ymgysylltu diwylliannol cyffredinol ar foddhad gyda bywyd ac iechyd ar lefel y boblogaeth, ac mae llawer o'r rhain wedi deillio o astudiaethau yn Sgandinafia yn seiliedig ar ddadansoddiad eilaidd o arolygon poblogaeth (er enghraifft Cuypers et al., 2011).[21] Fodd bynnag, ni allai astudiaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon nac astudiaeth Llywodraeth yr Alban ganfod cysylltiadau achosol; ac amlygodd y ddau yr angen am ragor o astudiaethau dylunio hydredol ac arbrofol i ymchwilio i achosiaeth a helpu i egluro'r berthynas rhwng cyfranogiad diwylliannol a lles (Llywodraeth yr Alban 2013, t. 17; Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2014, t. 4).

3.24 Mae peth tystiolaeth o waith ymchwil hydredol mewn rhannau eraill o Ewrop yn awgrymu perthynas achosol rhwng ymgysylltu â diwylliant ac iechyd. Er enghraifft, mae ymchwil a gynhaliwyd yn Sweden gan Bygren (2009) yn awgrymu y gallai hyrwyddo presenoldeb mewn digwyddiadau diwylliannol arwain at well iechyd ymysg y boblogaeth drefol.[22] Awgryma astudiaeth arall o Sweden fod effaith ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol yn fyrhoedlog, gan awgrymu bod angen ymgysylltu dro ar ôl tro gyda diwylliant er mwyn creu effeithiau cadarnhaol ar iechyd sy'n cael eu hunangofnodi (Johansson et al., 2001).[23]

3.25 Ym maes iechyd a lles, ers y 1990au mae diwylliant ac iechyd wedi cael eu defnyddio mewn cymunedau fel rhan o raglenni celfyddydau ar bresgripsiwn. Mae hyn wedi cael ei ddisgrifio gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd fel math o 'ragnodi cymdeithasol' (Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, 2013)[24], a ddiffinnir fel: “a mechanism for linking patients with non-medical sources of support within the community” (Partneriaeth Gwella

---

[21] Cuypers, K., Krokstad, S., Holmen, T. L., Bygren, L. O. a Holmen, J. (2011) Patterns of receptive and creative cultural activities and their association with perceived health, anxiety, depression and satisfaction with life among adults: the HUNT study. Norwy, *Journal of Epidemiol Community Health*.

[22] Bygren et al (2009) Attending cultural events and cancer mortality: A Swedish cohort study. *Arts and Health,* Cyfrol 1, Tudalennau 64-73.

[23] Johansson, S., Konlaan, B., and Bygren, L (2001) Sustaining habits of attending cultural events and maintenance of health: a longitudinal study. *Health Promotion International* Cyfrol 16, Tudalennau 229-34. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.gensstudy.org/dati/pag/4.7/doc/140.pdf

[24] Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (2013) *Arts, Health and Wellbeing beyond the Millennium: How far have we come and where do we want to go?* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.rsph.org.uk/en/policy-and-projects/areas-of-work/arts-and-health.cfm

Gwasanaethau Gofal 2009).[25] Yn y DU, mae gwasanaethau Celfyddydau ar Bresgripsiwn wedi dod i'r amlwg fel math o ragnodi cymdeithasol, ac yn cael eu gweld yn gynyddol yn y sector gofal iechyd fel ffordd o wella iechyd a lles meddyliol unigolion drwy wella lefelau o gyswllt cymdeithasol a chymorth cymdeithasol mewn cymunedau, yn enwedig ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau ynysig (Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd 2013, t. 37-38). Mae Adran Iechyd llywodraeth ganolog y DU (2010)[26] er enghraifft, wedi argymell rhagnodi cymdeithasol fel ffordd o wella iechyd a lles meddyliol y boblogaeth gyfan drwy wella cyfalaf cymdeithasol ac adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol. Yn ôl Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, mae gallu'r gwasanaethau celfyddydau ar bresgripsiwn i gysylltu gofal iechyd ag adnoddau'r sectorau cymdeithasol, gwirfoddol a phreifat yn y gymuned yn awgrymu y gall weithredu fel model effeithiol ar gyfer gwaith aml-sectoraidd (Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, 2013, t. 37).

*Cymdeithas*

3.26 Mae tystiolaeth gynyddol hefyd ar fanteision ehangach diwylliant i gymdeithas. Er enghraifft, mae Taylor et al. (2015, t. 67-68, 81-85) yn amlygu tystiolaeth sy'n cyfeirio at gysylltiadau rhwng cyfranogi yn y celfyddydau a chyfalaf cymdeithasol. Yn ôl Taylor et al. (2015), mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn dangos perthynas gadarnhaol sy'n awgrymu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn cyfrannu at: “greater social interaction, enhanced self-esteem and the development of social relationships and networks, which nurture social capital” (t . 81).

3.27 Mae nifer o astudiaethau yn canolbwyntio ar bobl ifanc. Yn ôl Arts Council England (2014), mae tystiolaeth gynyddol bod ymgysylltiad plant a phobl ifanc â diwylliant yn cael sgil-effaith ar eu cyfranogiad cymdeithasol a dinesig ehangach (t. 32). Er enghraifft, gan ddefnyddio data o Wave 2 Understanding Society, mae Bennett a Parameshwaran (2013)[27] yn darparu dadansoddiad

---

[25] Partneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal (2009) *Social Prescribing for Mental Health: A guide to commissioning and delivery*. Manceinion: CSIP North West.

[26] Adran Iechyd y DU (2010) *Confident Communities, Brighter Futures. A framework for developing well-being*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_114774

[27] Bennett, M. and Parameshwaran, M. (2013) *Papur Briffio 102: What factors predict volunteering among youths in the UK?* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.birmingham.ac.uk/generic/tsrc/documents/tsrc/working-papers/briefing-paper-102.pdf

cynhwysfawr o'r ffactorau sy'n rhagfynegi gwirfoddoli ymysg pobl ifanc rhwng 10 a 15 oed yn y DU. Canfuwyd bod adnoddau cyfalaf diwylliannol (megis mynychu neu gymryd rhan mewn celfyddydau a diwylliant) yn cael effaith fawr ar hyn, sy'n awgrymu bod pobl ifanc a chanddynt gyfalaf diwylliannol mawr yn gwirfoddoli'n amlach. Yn ôl y dystiolaeth: “these cultural capital effects render social class differences in youth civic engagement insignificant” (t. 4). O ran gwirfoddoli yn y celfyddydau a chyfalaf cymdeithasol, yn y dadansoddiad o'r set ddata Taking Part a wnaed gan TNS-BMRB (2011)[28] mae tystiolaeth bod gwirfoddolwyr mewn diwylliant: “are more likely than average to be involved and influential in their local communities”, ac yn sylweddol fwy tebygol na'r boblogaeth yn gyffredinol o gredu eu bod yn cael rhyw gymaint o ddylanwad dros eu cyfleusterau diwylliannol lleol, a'u hamgylchedd lleol yn ei gyfanrwydd (t.8).

3.28 Mae ymchwil hefyd wedi dangos gwerth cyfranogiad diwylliannol i bobl hŷn. Gan ddefnyddio dulliau ansoddol, gwelwyd tystiolaeth bod rhaglen gelfyddydol a gynlluniwyd ar gyfer pobl hŷn wedi helpu'r cyfranogwyr i ddatblygu ymdeimlad cryfach o gymuned drwy gydweithio fel grŵp, a hefyd eu gallu i gysylltu â'r gymuned allanol (Moody a Phinney 2012).[29]

3.29 Mae tystiolaeth yn awgrymu perthynas gadarnhaol rhwng cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol wedi'u trefnu ac ymddygiad cymdeithasol a gwrthdroseddol ymysg troseddwyr, cyn-droseddwyr (Johnson *et al*., 2011)[30] neu bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o gyflawni trosedd (Catterall *et al*., 2012).[31] Cynhaliodd Catterall *et al.* (2012) bedair astudiaeth hydredol ar effeithiau diwylliant ar ymddygiad academaidd a dinesig pobl ifanc. Yn benodol, roedd pobl ifanc a oedd yn cael llawer o gysylltiad â diwylliant neu'n rhyngweithio'n sylweddol â diwylliant yn sylweddol lai tebygol o fod yn

---

[28] TNS UK (2011) *Encouraging involvement in Big Society. Cultural and sporting perspective*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/77434/Taking_Part_Big_Society_Report_NOV2011_update.pdf

[29] Moody, E. a Phinney, A. (2012) A community-engaged art program for older people: fostering social inclusion. *Canadian Journal on Aging*. Cyfrol 31, Rhifyn 1, t. 55-64.

[30] Johnson, H., Keen, S., Pritchard, D. (2011). *Unlocking value. The economic benefit of the arts in criminal justice*. New Philanthropy Capital. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artsalliance.org.uk/sites/default/files/UnlockingValue_0.pdf

[31] Catterall, J., Dumals, S.A. a Hampden-Thompson, G. (2012). *The arts and achievement in at-risk youth: Findings from four longitudinal studies.* Research Report #55. National Endowment for the Arts. Washington. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.arts.gov/sites/default/files/Arts-At-Risk-Youth.pdf

ymddwyn yn wrthgymdeithasol na'r rhai nad ydynt wedi cael fawr o gysylltiad â diwylliant; ac ymysg pobl ifanc o statws economaidd-gymdeithasol isel sydd â hanes o gyfranogiad diwylliannol dwfn, gwelwyd tystiolaeth o ganlyniadau academaidd gwell na phobl ifanc o statws economaidd-gymdeithasol isel a oedd yn ymwneud llai â diwylliant (t. 24).

3.30 Mae dadansoddiad gan Johnson *et al.* (2011) yn edrych ar dair astudiaeth achos yn ymwneud ag elusennau, i ymchwilio i gostau a manteision defnyddio'r celfyddydau i helpu i adsefydlu pobl sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu. Awgryma'r dystiolaeth fod y tair elusen yn cyflawni arbedion i bwrs y wlad ac yn gwella cyfleoedd bywyd troseddwyr, gan arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth yn amlygu ymhlith y cyfyngiadau bod diffyg sefyllfa gwrthffeithiol a data monitro anghyflawn (t. 39); ac mae'n argymell y dylai elusennau ddatblygu theori clir o newid a chasglu data monitro a gwerthuso o ansawdd uchel fel y camau cyntaf tuag at wella'r dull o fesur effaith (t. 37).

3.31 Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth yr Alban yw CashBack for Creativity sy'n cymryd arian sydd wedi'i adennill o enillion troseddau ac yn ei fuddsoddi mewn gweithgareddau a rhaglenni am ddim i bobl ifanc. Ymysg ei hamcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mae cynyddu'r cyfleoedd i gyfranogi a nifer y bobl ifanc ledled yr Alban sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n dod o ardaloedd o amddifadedd, neu yr ystyrir eu bod yn agored i niwed neu mewn perygl o droseddu. Nododd gwerthusiad diweddar o'r rhaglen (Arrivo Consulting, 2015) bod prosiectau llwyddiannus yn rhai lle roedd gan y sefydliad a oedd yn eu darparu bartneriaeth gadarn â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r grŵp o gleientiaid a dargedir; a phrosiectau a gyflawnir yn uniongyrchol gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i grwpiau sydd wedi'u heithrio ac sy'n agored i niwed neu gan sefydliadau sydd eisoes wedi ennyn ymddiriedaeth pobl ifanc a waharddwyd a'r gymuned ehangach.[32]

3.32 Fodd bynnag, mae Le Roux *et al.* (2007) yn rhoi un enghraifft sy'n ymddangos fel pe bai'n herio'r syniad y gall ymgysylltu â diwylliant feithrin

[32] Arrivo Consulting (2015) *Cashback for Creativity. Evaluation of Phase 2 of the Programme*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.creativescotland.com/__data/assets/pdf_file/0012/32502/Cashback-Phase-2-EvaluationFINAL-11_09-LB.pdf

cyfalaf cymdeithasol.[33] Gan ddefnyddio data o brosiect Cyfalaf Diwylliannol ac Allgáu Cymdeithasol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, maent yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng dosbarth cymdeithasol a gwahaniaethu diwylliannol, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol gwahanol.

*Addysg*

3.33 Mae Taylor et al. (2015) yn nodi nifer o astudiaethau sy'n cefnogi perthynas gadarnhaol rhwng diwylliant a chanlyniadau canolraddol megis gwelliannau mewn hyder a pherthnasoedd a chanlyniadau terfynol megis cyrhaeddiad addysgol (t. 88); ac mae adroddiad Y Celfyddydau mewn Ysgolion yng Nghymru (Smith, 2013) yn cynnwys adolygiad o dystiolaeth wedi'i anelu at ymchwilio i sut y gellir defnyddio'r celfyddydau yn fwy cynhyrchiol mewn lleoliadau addysgol i wella canlyniadau addysgol tymor hwy (t. 15-22).

3.34 Mae adolygiad systematig a gomisiynwyd gan y rhaglen Newman et al. (2010) yn dyfynnu tystiolaeth sy'n dangos cysylltiad cadarnhaol rhwng cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a gwelliannau mewn galluoedd gwybyddol a sgiliau trosglwyddadwy pobl ifanc (gan gynnwys hunangysyniadau a sgiliau cymdeithasol) (t.13-14). Ymchwiliwyd i'r berthynas rhwng gweithgareddau diwylliannol a chanlyniadau canolraddol wedi cael ei fel rhan o werthusiad o Gronfa Datblygu'r Sector Ieuenctid (nod y gronfa yw helpu sefydliadau sy'n rhoi cyngor i bobl ifanc dan anfantais ar gyfleoedd addysg a gwaith) a gomisiynwyd gan Adran Addysg y DU. Canfu'r gwerthusiad fod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwella cyflawniadau unigol drwy ganlyniadau 'meddal' megis gweithio mewn tîm, datrys problemau, mwy o gymhelliant, hyder a hunan-barch (Pinnock et al., 2011).[34] Cyflwynodd y rhaglen Creative Partnerships (a oedd yn weithredol rhwng 2002 a 2011 yn Lloegr) weithgareddau diwylliannol i ysgolion i helpu gydag addysgu creadigol fel ffordd o ysbrydoli disgyblion a chynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu. Mewn

[33] Le Roux, B., Rouanet, H., Savage, M., Warde, A. (2008). Class and Cultural Division in the UK. *Sociology,* Cyfrol 42, Rhifyn 6*,* Tudalennau 1049-1071.
[34] Pinnock, K., Lloyd, R. a Craig, P. (2011) *Evaluation of the Youth Sector Development Fund: Early Findings*. DFR-RR081. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-the-youth-sector-development-fund-early-findings

gwerthusiad o'r rhaglen gan Bragg a Manchester (2007)[35], nodwyd tystiolaeth o berthynas well rhwng staff a myfyrwyr, mwy o gymhelliant i ddysgu ac enw gwell i'r ysgol yn y gymuned leol.

3.35 Mae adroddiad Dai Smith (Smith, 2013) yn cyfeirio at ymchwil sy'n nodi cysylltiad cadarnhaol rhwng ymgysylltu â diwylliant a chyrhaeddiad academaidd. Cyfeiria'r adroddiad at ganfyddiadau ymchwil sy'n nodi gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd sy'n cyd-fynd â chyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau celfyddydol (t. 15). Er enghraifft, tynnir sylw at ymchwil i'r berthynas rhwng gwersi cerddoriaeth a pherfformiad mewn darllen (Deasy 2002;[36] Butzlaff 2000[37]); tynnir sylw hefyd at nifer o astudiaethau sy'n awgrymu bod ymwneud â'r celfyddydau yn helpu i wella cyflawniad academaidd pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig (Catterall et al., 2012; Fiske 1999[38]). Mae nifer o astudiaethau a gynlluniwyd i werthuso effaith Partneriaethau Creadigol yn dangos cysylltiad cadarnhaol rhwng ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a gwell cyrhaeddiad addysgol (Cooper et al., 2011;[39] Sharp, 2012[40]). Canfuwyd bod cymryd rhan yn Creative Partnerships hefyd yn cael effaith fach, ond arwyddocaol, ar bresenoldeb yn yr ysgol

---

[35] Bragg, S. a Manchester, H. (2011) *Creativity, School Ethos and the Creative Partnerships programme: Final Report of the project: Evaluation of the nature and impact of the Creative Partnerships programme on school ethos, 2009-10*. [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.creativitycultureeducation.org/wp-content/uploads/may-2011-final-report-ou-creativity-school-ethos-and-creative-partnerships-282.pdf

[36] Deasy, R. (Gol.) (2004) *Critical Links: Learning in the Arts and Student Academic and Social Achievement*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://files.eric.ed.gov/fulltext/ED466413.pdf

[37] Butzlaff, R. (2000). Can music be used to teach reading? *Journal of Aesthetic Education*, Cyfrol 34, Rhifyn 4, Tudalennau 167-178. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artsedsearch.org/summaries/can-music-be-used-to-teach-reading#sthash.RFE4IHCv.dpuf

[38] Fiske, E. (1999) *Champions of Change: The Impact of the Arts on Learning*. Washington, DC: Arts Education Partnership / President's Committee on the Arts and the Humanities. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://files.eric.ed.gov/fulltext/ED435581.pdf

[39] Cooper, L., Benton, T. a Sharp, C. (2011) *The Impact of Creative Partnerships on Attainment and Attendance in 2008-9 and 2009-10*. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.nfer.ac.uk/publications/CPAB01/CPAB01.pdf

[40] Sharp, C., Pye, D., Blackmore, J., Brown, E., Eames, A., Easton, C., Filmer-Sankey, C., Tabary. A., Whitby, K., Wilson, R. a Benton, T. (2006) National Evaluation of Creative Partnerships. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.creativitycultureeducation.org/wp-content/uploads/national-evaluation-of-creative-partnerships-nfer-2006-95.pdf

gynradd, ond ni chanfuwyd unrhyw gysylltiad arwyddocaol ar lefel ysgolion uwchradd (Kendell et al., 2008[41]).

*Yr economi*

3.36 Mae tystiolaeth bod manteision ehangach i'r economi yn deillio o weithgareddau diwylliannol, megis pwysigrwydd rhwydweithiau diwylliannol wrth ledaenu arloesedd (Schopen et al., 2008)[42], yr effaith gadarnhaol y gall adfywio sy'n ymwybodol o ddiwylliant ei chael ar ailddatblygiad economaidd cymunedau a esgeuluswyd (Markusen a Gadwa, 2010)[43], ac effeithiau economaidd digwyddiadau diwylliannol mawr (Langen et al., 2009).[44]

*Rhwystrau i gyfranogi*

3.37 Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn dangos bod rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol, sy'n cyflwyno her allweddol wrth geisio deall gwerth ac effaith diwylliant. Cafodd y rhwystrau hyn eu cydnabod gan Gomisiwn Warwick ar Ddyfodol Gwerth Diwylliannol (2015, t. 8) [45]; roedd ei adroddiad terfynol yn nodi: “the government and the cultural and creative industries need to take a united and coherent approach that guarantees equal access for everyone to a rich cultural education and the opportunity to live a creative life. There are barriers and inequalities in Britain today that prevent this from being a universal human right”. Yn ôl y Comisiwn, mae angen mwy o fuddsoddiad, cyfranogiad, addysg a mynediad digidol i ysgogi neu wireddu potensial creadigol pobl. Maent yn dyfynnu tystiolaeth o adroddiad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i awgrymu bod y gweithlu yn y

[41] Kendall, L., Morrison, J., Sharp, C. ac Yeshanew, T. (2008) *The Impact of Creative Partnerships on Pupil Behaviour*. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.nfer.ac.uk/publications/CPW01/CPW01.pdf

[42] Schopen, K., Rammer, C. a Trüby, J., (2008) *The role of creative industries in industrial innovation.* Centre For European Economic Research (ZEW) Discussion Papers No. 08-109.

[43] Markusen, A. a Gadwa, A. (2010) *Creative Placemaking*. Washington DC: National Endowment for the Arts. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.arts.gov/sites/default/files/CreativePlacemaking-Paper.pdf

[44] Langen, F. a Garcia, B. (2009). *Measuring the Impacts of Large Scale Cultural Events: A Literature Review*. Lerpwl: Prifysgol Lerpwl a Phrifysgol John Moores Lerpwl. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.liverpool.ac.uk/media/livacuk/impacts08/pdf/pdf/Impacts08-FLangen_and_BGarcia_May_2009_Events_Review.pdf

[45] Neelands, J., Belfiore, E., Firth, C., Hart, N., Perrin, L., Brock, S., Holdaway, D. a Woddis, J. (2015) *Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth. The 2015 Report by the Warwick Commission on the Future of Cultural Value*. Coventry: Prifysgol Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/finalreport/

sector diwylliannol yn tyfu dros bedair gwaith yn gyflymach na gweithlu'r DU yn ei chyfanrwydd gan ddadlau bod dull gweithredu cydlynol yn y sector yn flaenoriaeth genedlaethol hanfodol (gweler Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2015).[46]

3.38 O ran pobl yn buddsoddi eu hamser rhydd eu hunain yn y celfyddydau a diwylliant, awgryma tystiolaeth o'r arolwg Taking Part (Chwarter 2 2015/16) duedd yn Lloegr tuag at dwf cymedrol ond cyson mewn patrymau cyfranogiad diwylliannol.[47] Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd wedi'u haenu'n sylweddol o safbwynt cymdeithasol, ac mae swydd broffesiynol a meddu ar radd yn parhau i fod yn rhagfynegyddion cywir o ymgysylltiad diwylliannol (Belfiore *et al*., 2014).[48] Mae ymchwil i effaith cysylltiad â diwylliant yn ystod plentyndod ar gyfranogiad oedolion yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng mynychu a chyfranogi mewn digwyddiadau diwylliannol pan fydd rhywun yn blentyn a chyfranogi yn oedolyn (Oskala *et al*., 2009).[49]

3.39 Mae ymchwil ansoddol a gomisiynwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymchwilio i rwystrau i ymgysylltu â threftadaeth ymhlith pobl o dri grŵp nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn cyfranog yn y maes treftadaeth ar hyn o bryd, sef: pobl ag anableddau cyfyngus; pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is (Rahim a

---

[46] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2015) *Creative Industries Economic Estimates, Ionawr 2015, Datganiad Ystadegol*. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/394668/Creative_Industries_Economic_Estimates_-_January_2015.pdf.

[47] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2015). *Taking Part 2015/16 Quarter 2. Statistical Release*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/495586/Taking_Part_2015-16_Quarter_2_Report_2.pdf

[48] Belfiore, E., Hart, N. a Neelands, J. (2014) *The Future of Cultural Value. Education and Training*. Coventry: Prifysgol Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/resources/commission/cd3_education_and_training_brief_final.pdf

[49] Oskala, A., Keaney, E, Chan, T.W. a Bunting, C. (2009). *Encourage children today to build audience for tomorrow: Evidence from the Taking Part survey on how childhood involvement in the arts affects arts engagement in adulthood*. Llundain: Arts Council England. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/publication_archive/encourage-children-today-to-build-audiences-for-tomorrow/

Mavra 2009).[50] Canfu'r ymchwil bum thema gyffredin o'r grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol: diffyg ymwybyddiaeth o dreftadaeth; rhagdybiaethau am gynulleidfaoedd nodweddiadol ym maes treftadaeth; canfyddiad o amherthnasedd diwylliannol treftadaeth; rhwystrau'n ymwneud â chost; a chysylltiadau trafnidiaeth gwael.

3.40 Mae nifer o arolygon a chanddynt fethodoleg gadarn wedi ymchwilio i'r rhesymau dros beidio â chyfranogi mewn diwylliant, ac yn rhestru ystod o rwystrau fel awgrymiadau. Noda dadansoddiad a gynhaliwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Charlton et al., 2010) ystod o arolygon ar rwystrau cyffredin i gyfranogi fel yr adroddwyd yn yr arolygon hyn (t. 16-17). Ymysg y rhwystrau a nodwyd roedd dim lleoliad neu gyfleusterau cyfagos / cyflwr gwael neu hygyrchedd y cyfleusterau (arolwg o ymddygiad ac agwedd Pobl Ifanc 2000), problemau trafnidiaeth (Taking Part), a chost uchel (Taking Part).[51]

### Bylchau yn y dystiolaeth a heriau

3.41 Mae adolygiadau diweddar o dystiolaeth (Taylor et al., 2015; Arts Council England 2014; Tom Fleming Creative Consultancy 2015) wedi nodi swm sylweddol o lenyddiaeth sy'n ymwneud ag effeithiau cymdeithasol diwylliant, ac maent hefyd wedi nodi bylchau sylweddol. Yn ôl Taylor et al. (2015, t. 106), mae treftadaeth ac amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn arbennig wedi'u tangynrychioli o ran swn y llenyddiaeth sy'n ymdrin â'u perthynas ag effeithiau cymdeithasol ac ansawdd y llenyddiaeth honno. Cydnabyddir yn yr arolwg, fodd bynnag, efallai nad oedd y gronfa ddata graidd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad systematig o lenyddiaeth - Tystiolaeth o Ddiwylliant a Chwaraeon - yn addas er mwyn nodi'r holl lenyddiaeth berthnasol (t. 106). Yn wir, mae adolygiad o'r dystiolaeth gan Tom Fleming Creative Consultancy

---

[50] Rahim, N. a Mavra, L., (2009) *Barriers to Engagement in Heritage by Currently Under-Represented Groups. An Inclusion Report to the National Audit Office*. Swyddfa Archwilio Genedlaethol. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2009/07/0809881_barriers.pdf

[51] Charlton. A., Potter, M., McGinigal, S., Romanou, E., Slade, Z. a Hewitson, B. (2010) Barriers to participation. Analysis to inform the development of the 2010/11 Taking Part Survey. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/137997/TP_Barriersrreport.pdf

(2015)[52], a gomisiynwyd gan bartneriaeth ymchwil Ewropeaidd sy'n cynnwys Arts Council England, Cyngor Celfyddydau Iwerddon a Creative England, yn gwrthddweud canfyddiadau Taylor et al. (2015) o ran y dystiolaeth ar effaith amgueddfeydd. Yn ôl adroddiad Tom Fleming Creative Consultancy (2015), mae tystiolaeth glir a datblygedig o effaith diwylliant ar fanteision unigol ymweliad ag amgueddfeydd (t. 10; gweler Fujiwara 2013 er enghraifft)[53]; ac mae adolygiad o dystiolaeth bresennol o sut mae amgueddfeydd yn cael effaith ar iechyd lles drwy Dodd a Jones (2014) yn tynnu sylw at ddiddordeb cynyddol yn y rôl y gall diwylliant a'r celfyddydau ei chwarae wrth gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol (t. 32-42).[54]

3.42 Ymhlith y diffyg tystiolaeth sylweddol a nodwyd gan yr adolygiadau hyn, mae Taylor et al. (2015) yn tynnu sylw at ddiffyg tystiolaeth ar y celfyddydau a chynhwysiant cymdeithasol. Er bod ymchwil yn awgrymu y gallai cyfranogiad yn y celfyddydau amrywio ar draws ffactorau economaidd-gymdeithasol megis dosbarth, cyflogaeth ac incwm, nid oes tystiolaeth sylweddol bod y celfyddydau'n gwella cyfalaf cymdeithasol. Mae'n cyfeirio at un astudiaeth ystadegol (nad yw'n ymwneud yn benodol ag adnoddau celfyddydol) o leoliadau difreintiedig yn Glasgow, a ganfu fod adnoddau weithiau'n agosach at gymdogaethau tlotach ac weithiau'n agosach at gymdogaethau mwy cefnog (McIntyre et al., 2008; dyfynnwyd yn Taylor et al., 2015, t. 85), sy'n amlygu nad yw cymdogaethau tlotach yn cael eu rhoi dan anfantais yn gyson o ran mynediad i adnoddau.

3.43 Ymhlith y diffygion cyffredin yn y dystiolaeth bresennol, mae adolygiad Tystiolaeth o Ddiwylliant a Chwaraeon (2015, t. 106) yn nodi ymchwil annigonol mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg tystiolaeth ar effeithiau negyddol posibl diwylliant, effeithiau gwahaniaethol gwahanol weithgareddau, gan gynnwys ar wahanol is-grwpiau o'r boblogaeth, ac

---

[52] Tom Fleming Creative Consultancy (2015) *Cultural and Creative Spillovers in Europe: Report on a Preliminary Evidence Review*. Tom Fleming Creative Consultancy [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/Cultural_creative_spillovers_in_Europe_full_report.pdf

[53] Fujiwara, D. (2013) *Museums and happiness: The value of participating in museums and the arts.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://happymuseumproject.org/wp-content/uploads/2013/04/Museums_and_happiness_DFujiwara_April2013.pdf

[54] Dodd, J. a Jones, C. (2014) *Mind, body, spirit: How museum impact health and wellbeing*, Caerlŷr: Prifysgol Caerlŷr. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.le.ac.uk/departments/museumstudies/rcmg/publications/mind-body-spirit-report

effeithiau cymharol y gweithgareddau ar unigolion (megis pwy sy'n elwa fwyaf ar weithgareddau gwahanol). Mae'r dybiaeth y byddai gweithgareddau celfyddydol cyfranogol mewn cymunedau a diwylliannau gwahanol yn cael yr un effeithiau cymdeithasol yn union wedi cael ei herio yn y llenyddiaeth (Merli, 2002).[55]

3.44 Mewn adroddiad i Gomisiwn Warwick ar Werth Diwylliannol, mae Belfiore et al. (2014) yn dadlau bod dadleuon methodolegol ar werth diwylliant wedi cael eu nodweddu gan ddiffyg consensws o ran yr hyn y dylid ei fesur a'r ffordd orau i fesur a deall effaith.[56] Mae llenyddiaeth hefyd yn cyfeirio at heriau damcaniaethol. Daw Arts Council England (2014) i'r casgliad yn ei adolygiad o'r dystiolaeth nad yw'r theori sy'n sail i effaith y celfyddydau a diwylliant wedi cael ei mynegi'n glir mewn llawer o waith ymchwil. O ganlyniad, mae'n awgrymu y byddai fframwaith damcaniaethol neu fodel rhesymeg sy'n esbonio'n glir sut y credir bod y celfyddydau a diwylliant yn ychwanegu gwerth at gymdeithas yn ychwanegiad defnyddiol i arwain y gwaith o ddatblygu'r dystiolaeth ymhellach (t. 40).

3.45 Yng nghyd-destun diwylliant a llunio polisïau, mae bylchau sylweddol o ran yr hyn sy'n cael ei werthuso a sut y caiff y gwerthusiadau hyn eu cynnal (Belfiore a Firth 2014).[57] Yn y trosolwg hwn o'r dystiolaeth, ni nodwyd unrhyw ymchwil sy'n benodol i Gymru sy'n dangos effaith polisi cenedlaethol yng nghyd-destun diwylliant.

3.46 Adroddiad sy'n arbennig o berthnasol i'r gwerthusiad hwn o'r cynllun peilot Ardaloedd Arloesi yw adroddiad Ipsos MORI / Wavehill 'Cymunedau yn Gyntaf: Gwerthusiad o'r Broses' (Ipsos MORI / Wavehill, 2015)[58] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi gweithio mewn partneriaeth a

---

[55] Merli, P. (2002) 'Evaluating the social impact of participation in arts activities', *International Journal of Cultural Policy*, Cyfrol 8, Rhifyn 1, Tudalennau 107-118.

[56] Belfiore, E., Firth, C. a Holdaway, D. (2014) *How do we value (and undervalue) culture?* Coventry: Prifysgol Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/resources/research/commissioner_day_2_briefing_document.pdf

[57] Belfiore, E. a Firth, C. (2014) *The Future of Cultural Value*. Coventry: Prifysgol Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/resources/research/commissioner_day_2_briefing_document.pdf

[58] Ipsos MORI / Wavehill Consulting (2015) Cymunedau yn Gyntaf: Canfyddiadau y Gwerthusiad o'r Broses. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf

dysgu ar y cyd fel cryfderau allweddol o Raglen Cymunedau yn Gyntaf (t. 90). Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cynnwys ymhlith ei argymhellion y dylai cyrff cyflenwi'r rhaglen: “place firmer requirements on community and Third Sector delivery partners to prove the alignment of their activities” ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf (t. 89). Yn ôl yr adroddiad, rôl hanfodol i Lywodraeth Cymru yw annog dull mwy cyson o ymgymryd â gweithgareddau monitro, a ddisgrifir fel "amrywiol iawn" ar draws y clystyrau (ibid). Nododd y gwerthusiad fod monitro yn her allweddol a pharhaus ac yn faes i'w wella ar gyfer y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, yn ôl yr adroddiad, mae llawer o glystyrau yn defnyddio astudiaethau achos ar gyfer casglu tystiolaeth o welliant mewn canlyniadau meddal, ond nid yw hyn yn cael ei rannu'n effeithiol â Llywodraeth Cymru (t. 91); ac mae gweithgareddau tebyg a gyflawnir mewn ardaloedd gwahanol yn cael eu monitro'n gwbl wahanol (t. 93). Mae'r adroddiad yn amlygu, o ystyried cymhlethdod y ffordd o fesur rhai o'r canlyniadau a ddymunir - “either due to [the] nature of the outcome, nature of the participant, or the way in which activities are attended (e.g. voluntary, periodical etc.)” - bod angen rhagor o arweiniad a chymorth ar lefel clwstwr er mwyn gallu dangos yn fwy effeithiol beth yw effaith Cymunedau yn Gyntaf (t. 93). Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu y dylai rhagdybiaeth allweddol sy'n sail i'r rhaglen - sef y bydd newid canlyniadau ar lefel unigol yn cael effaith sylweddol ar nodweddion ar lefel ardal - gael ei phrofi fel nod unrhyw werthusiad o ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol (t. 89).

*Heriau methodolegol*

3.47 Dywed Arts Council England fod diwylliant yn ddiarhebol o anodd ei ddiffinio. Cyfeiria at: “the varied, complex and sometimes unpredictable context in which arts and culture exist” (Arts Council England 2014, t. 11). Mae hyn yn golygu bod adolygu'r dystiolaeth yn her, gan fod y gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir mewn astudiaethau yn aml yn golygu nad oes modd cymharu'r data. Yn ogystal, o ran deall 'effaith' diwylliannol, mae llawer o anghytuno yn y llenyddiaeth am yr hyn y mae effaith yn ei olygu, a'r ffyrdd mwyaf priodol o fynd ati i'w mesur a'i gwerthuso. Yn ôl Newman et al. (2010), mae mwy o gytundeb ynghylch y mathau o werth a gynhyrchir drwy fuddsoddi mewn diwylliant na'r ffordd orau o fesur, disgrifio a throsglwyddo dealltwriaeth o'r gwerth hwnnw yn bolisi.

3.48 Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r ddadl fethodolegol wedi cael ei phrif ffrydio. Yn 2012 rhoddodd y Comisiwn Ewropeaidd effeithiau

gorlifiad o'r celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol ar ei agenda wleidyddol (COM(2012) 537). Mewn ymateb i hynny crewyd partneriaeth ymchwil Ewropeaidd i ymchwilio i'r gorlifau diwylliannol a chreadigol hyn, a ddiffinnir fel: “the process by which activity in the arts, culture and creative industries has a subsequent broader impact on places, society or the economy through the overflow of concepts, ideas, skills, knowledge and different types of capital” (Tom Fleming Creative Conslutancy 2015, t. 15). Mae'r bartneriaeth wedi canfod tystiolaeth argyhoeddiadol o orlifiad diwylliannol a chreadigol, ond hefyd wendidau a bylchau yn y dystiolaeth a'r dulliau a ddefnyddir i fesur effaith (Tom Fleming Creative Consultancy 2015).[59] Yn ôl adolygiad o dystiolaeth a gomisiynwyd gan y bartneriaeth (Tom Fleming Creative Consultancy 2015), anaml y profwyd achosiaeth yn erbyn safonau gwyddonol (t. 6). Yn ei ganfyddiadau, mae'r adolygiad yn galw am ymchwil mwy ansoddol i dri dull astudiaethau arbrofol sy'n profi astudiaethau achos ac effaith mewn lleoliad rheoledig, ymchwil weithredu (gan gynnwys technegau ethnograffig), a'r hyn y maent yn ei ddisgrifio fel dull ymchwil drwy ddirprwy - lle y defnyddir technegau a ddatblygwyd mewn ardaloedd y tu allan i'r gwyddorau cymdeithasol (megis ymchwil i Enillion cymdeithasol ar Fuddsoddiad) (t. 6).

3.49 Mae Prosiect Gwerth Diwylliannol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau[60] a Chomisiwn Warwick ar Ddyfodol Gwerth Diwylliannol (Neelands et al., 2015) yn amlygu'r diddordeb diweddar yn y DU mewn sicrhau gwell dealltwriaeth o werth diwylliant i unigolion, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol, a'i effeithiau. Mae Comisiwn Warwick yn pwysleisio bod egluro'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y credir ei fod yn digwydd pan fuddsoddir mewn diwylliant a mesur ac esbonio'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd, yn her benodol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod pa mor anodd y gall fod i ddangos tystiolaeth o'r cyfraniad y gall gweithgareddau diwylliannol

[59] Mae gwefan ar y cyd wedi cael ei chreu sy'n ymroddedig i adolygiadau gan gymheiriaid a thrafodaethau gyda chymheiriaid i helpu i dyfu, llunio a llywio partneriaeth Ewropeaidd sy'n ehangu ar effeithiau gorlifiadau o'r diwydiannau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol. Gweler: http://www.artscouncil.org.uk/what-we-do/research-and-data/cultural-and-creative-spillovers/#sthash.ZTz8WtPb.dpuf

[60] Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau, *Cultural Value Project*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.ahrc.ac.uk/research/fundedthemesandprogrammes/culturalvalueproject/ [Fel ar: 30 Tachwedd, 2015].

ei wneud i ganlyniadau, ond mae'n nodi fel pryder penodol y perygl o leihau gwerth diwylliant i werth economaidd yn unig.

3.50 Mae llawer o'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at yr anhawster o brofi effeithiau personol cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol i safon sy'n dderbyniol yn wyddonol heb ddefnyddio dulliau hydredol sy'n canolbwyntio ar effeithiau tymor hwy (gweler er enghraifft Taylor *et al*., 2015; Arts Council England, 2014; Tom Fleming Creative Consultancy, 2015) . Mae Arts Council England (2014) yn tynnu sylw at y potensial enfawr ("huge untapped potential") sydd heb ei gyffwrdd ar gyfer defnyddio astudiaethau cohort a hydredol sydd eisoes yn bodoli yn y DU, megis Astudiaeth Carfan y Mileniwm a'r arolwg Taking Part, lle mae newidynnau celfyddydol a diwylliannol yn bresennol (t. 41).

# 4. Canfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Broses

### Cyflwyniad

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o sut y cafodd y rhaglen Ardaloedd Arloesi ei dylunio, ei gweithredu a'i chyflawni, gan ganolbwyntio ar y rolau a chwaraeir gan Lywodraeth Cymru, y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, Awdurdodau Lleol, cyrff treftadaeth a diwylliannol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a grwpiau cymunedol lleol. Yna mae'r adran yn dwyn ynghyd wybodaeth a gasglwyd o'r ardaloedd peilot, ynghyd â barn partneriaid diwylliannol, er mwyn cyflwyno trosolwg o'r negeseuon allweddol a'r hyn a ddysgwyd o ran:

- ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer datblygu a chynnal y rhaglen Ardaloedd Arloesi yn eu hardal;
- prosesau gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys yr heriau allweddol a wynebwyd yn ystod y flwyddyn beilot;
- sut y mae cynllunio ar y cyd a defnyddio adnoddau ar y cyd ar lefel leol wedi cael effaith ar ffyrdd sefydliadol o weithio.

### Y ffordd y cafodd y rhaglen Ardaloedd Arloesi ei dylunio, ei gweithredu a'i chyflawni

4.2 Roedd dull Llywodraeth Cymru o gysylltu partneriaid cymunedol a diwylliannol drwy'r rhaglen Ardaloedd Arloesi yn ddull unigryw a radical o fynd i'r afael ag

achosion tlodi ledled Cymru. Yn unol â hynny, nid oedd unrhyw ddulliau neu fframweithiau 'oddi ar y silff' ar gael i lywio'r ffordd y dyluniwyd ac y gweithredwyd y rhaglen. Cynlluniwyd y flwyddyn beilot, felly, i fod yn broses ailadroddus i ganiatáu i gyfranwyr a chyfranogwyr allweddol ddysgu ohoni, ac addasu a gwella eu gweithgareddau yn ystod y rhaglen. Chwaraeodd adrannau allweddol Llywodraeth Cymru, sefydliadau diwylliannol cenedlaethol a noddir gan Lywodraeth Cymru a llawer o sefydliadau diwylliannol a threftadaeth hefyd ran hanfodol yn y gwaith o gysoni eu rhaglenni a'u gweithgareddau presennol i gefnogi'r rhaglen Ardaloedd Arloesi. Dyluniwyd fframwaith sylfaenol y rhaglen gan swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi, drwy ymgynghori â swyddogion polisi Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, a phartneriaid diwylliannol.

4.3 O ran strwythur y rhaglen, roedd pob Ardal Arloesi yn cael ei chydgysylltu a'i rheoli gan bartneriaeth leol wedi'i harwain gan Gorff Cyflawni Arweiniol; yn y rhan fwyaf o achosion yr awdurdod lleol oedd hwn, ac eithrio Ardal Arloesi Caerdydd a gafodd ei harwain gan Brifysgol Caerdydd (gan fod strwythur datganoledig ar gyfer cyflawni Cymunedau yn Gyntaf yng Nghyngor Sir Caerdydd). Penderfynwyd ar aelodaeth y bartneriaeth yn lleol, ond roedd fel arfer yn cynnwys cyrff diwylliannol cenedlaethol a lleol, swyddogion arweiniol awdurdodau lleol ar ddiwylliant, llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd, cyrff celfyddydol a threftadaeth lleol, rheolwyr clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion, sefydliadau Addysg Uwch a Phellach a chyrff cymunedol eraill megis cymdeithasau tai ac elusennau lleol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith gwrthdlodi. Mabwysiadodd pob partneriaeth Gylch Gorchwyl ffurfiol yn amlinellu ei chyfrifoldebau a'i dyletswyddau allweddol fel rhan o'r rhaglen. Roedd eu ffocws yn amrywio ar draws y chwe Ardal Arloesi, ond yn seiliedig yn gyffredinol ar yr amcanion cyffredinol canlynol[61]:

- nodi a gweithredu camau a gytunwyd ar y cyd gan y bartneriaeth o blith argymhellion Llywodraeth Cymru;
- meithrin cydweithredu a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth;
- darparu fforwm ar gyfer nodi, rhannu ac ymgorffori arfer da;

[61] Llywodraeth Cymru (2015) *Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant. Rhaglen Ardaloedd Arloesi: Blwyddyn Beilot*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- monitro a gwerthuso gwaith y bartneriaeth;
- casglu a rhannu data i fwydo i gam ymchwil a gwerthuso'r flwyddyn beilot.

### Gweithredu'r rhaglen beilot Ardaloedd Arloesi

*Myfyrio ar y broses weithredu*

4.4 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid o bob rhan o'r Ardaloedd Arloesi yn hynod gadarnhaol pan gawsant eu holi am lwyddiant gweithredu eu Hardal Arloesi yn ystod y flwyddyn beilot. Er eu bod yn pwysleisio ei bod yn rhy gynnar i ddangos y llwyddiant hwn drwy dystiolaeth helaeth o effaith, roedd yr holl bartneriaid arweiniol yn siarad yn hyderus am effeithiolrwydd strwythurau a dull eu rhaglen o ran dwyn ynghyd 'y bobl iawn yn yr un ystafell' i weithio ar y cyd ar ddulliau o drechu tlodi.

4.5 Gan adleisio canfyddiadau adroddiad y Farwnes Kay Andrews, amlygodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid y gwaith gwerthfawr a oedd eisoes yn cael ei wneud gan sefydliadau diwylliannol a threftadaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd peth o'r gwaith hwnnw yn cael ei wneud drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn cynyddu mynediad i weithgareddau diwylliannol ac annog pobl i gyfranogi ynddynt. Yn benodol, rhoddwyd enghreifftiau o'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan sefydliadau cenedlaethol mawr fel Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a theatrau a chanolfannau celfyddydol lleol a rhanbarthol, yn ogystal â'r adnoddau diwylliannol mwy traddodiadol a gynigir mewn ardaloedd lleol fel llyfrgelloedd cyhoeddus ac amgueddfeydd lleol. Roedd tystiolaeth, fodd bynnag, bod llawer o'r gwaith hwn yn ysbeidiol o ran ei natur, heb fawr o bwyslais ar ddatblygu dull strategol neu gydlynol o gysoni eu hamcanion a'r canlyniadau â blaenoriaethau ehangach ar gyfer trechu tlodi ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r dyfyniadau canlynol gan ddau arweinydd Ardaloedd Arloesi yn pwysleisio'r pwynt hwn:

> *'We have collaborated with a number of cultural bodies and organisations before on other projects, so it's not a new area for us, but this is the first time for us to come together formally to look at the poverty agenda … activities were happening and there was collaboration going on in pockets here and there, but there was no attempt to try to co-ordinate or pull it together.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*'There are all sorts of cultural activities that we are actually delivering as a Council, never mind anyone else on top of that, but until now there's been absolutely no coordination around it. And I think it's just trying to realise just how much is out there.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.6 Cafodd gwerth y rhaglen fel arf ychwanegol i hwyluso dull mwy effeithiol a chydlynol ymhlith y llu o unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â'r agenda trechu tlodi ei bwysleisio'n barhaus gan y partneriaid arweiniol. Yn benodol, roeddent yn gwerthfawrogi ei ffocws ar ddatblygu partneriaethau, gan annog cyfranogiad rhanddeiliaid a hybu ymgysylltu â'r gymuned a chyfraniad y gymuned, gan gyfuno dulliau o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr. Roedd y rhaglen wedi darparu fframwaith ar gyfer dwyn ynghyd bartneriaid o bob maes polisi llywodraeth a rhanddeiliaid ar bob lefel. Roedd hyn yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth a thrafod a gweithredu cynlluniau ar y cyd i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddiwylliant, y celfyddydau a'r amgylchedd hanesyddol chwarae eu rhan mewn ymdrechion i drechu tlodi ac anfantais yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dywedodd rhai o arweinwyr yr Ardaloedd Arloesi bod y rhaglen wedi arwain at newidiadau cadarnhaol yn y ffordd yr ymdriniwyd â threchu tlodi yn eu hardal hwy - ar lefel strategol i ddatblygu dull mwy cyfannol o drechu tlodi ac ar lawr gwlad, i ymgysylltu â chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd:

'*It brings together people who probably should have been talking more previously… It allows for a more on the ground strategic approach and allows the Council to have a strategic approach to tackling poverty that filters down into how we actually do it on the ground*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*'It's like an additional engagement toolkit. At the strategic end on the partnership, it's about how different arts and cultural organisations can help us deliver our plans. And at a grass-roots level, it's another engagement tool to engage with those who are furthest away from the job market, who haven't got any defined career paths, who aren't going to school - all of those things. It's just getting that hook really and showing that there are other ways of doing it and how arts and culture can be used positively. If you introduce these as a potential solution to some of their issues, then they may start viewing them as part of their lives.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*'It's about being able to draw on the arts, culture and heritage, and the power of engagement and participation as a tool in the slightly bigger toolbox for tackling poverty. That is something that we recognise and have recognised for a long time, but there was a trick being missed for cultural organisations to make a major contribution to the work of tackling poverty.' (*Cyfweliad â phartner arweiniol*)*

4.7 Un o'r manteision allweddol a amlygwyd gan bartneriaid diwylliannol ar draws yr Ardaloedd Arloesi oedd bod y rhaglen wedi darparu cysylltiad mwy uniongyrchol ac amlwg â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac wedi dilysu llawer o'r gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud:

'*I think what's interesting is that it sort of helped firm up what we were sort of doing already. But the big difference, of course, is that it's put us in touch directly with Communities First areas as opposed to a slightly tangential connection*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.8 Yn yr un modd, roedd cynrychiolwyr o'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn gwerthfawrogi'r ystod ehangach o sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth yr oeddent bellach yn gweithio â hwy. Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth i awgrymu bod y cynnydd hwn mewn cysylltiad wedi dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau o ddiwylliant, nid yn unig mewn cymunedau difreintiedig, ond ymysg staff Cymunedau yn Gyntaf:

'…*we realised straight away that it was about breaking down the barriers for Communities First staff as much as anything else. We knew that some community members might not feel comfortable coming to a museum, but a lot of the Communities First project workers were also saying things like, "why would I come to a museum with my group, what I am going to do there?"… I've found that once people come in to the museum they actually start to see it in a different way and they think "oh, we could utilise this more*"…' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

'*I always personally thought that galleries and things like that were for snobby people who just went round quietly looking in these galleries, looking at paintings and different things and it's all very boring, until I actually started getting involved in the partnership and going round, seeing and listening to what people do … and yeah,* [culture is] *not just about where you're from, your background, your religion and all that sort of thing, it's a combination of everything ... it's about where you're from*

*and what you're brought up with. Everybody's culture is different…*' (Cyfweliad â phartner arweiniol a swyddog ymgysylltu Cymunedau yn Gyntaf)

4.9 Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth o effaith ar ganfyddiadau a ffyrdd o weithio yn gyfyngedig i staff Cymunedau yn Gyntaf. Nododd un partner diwylliannol sut yr oedd cyfranogi yn y rhaglen Ardaloedd Arloesi wedi meithrin gwell dealltwriaeth o werth adnoddau a gweithgareddau diwylliannol lleol ymysg rhanddeiliaid allweddol ar lefel llywodraeth leol a gwell cefnogaeth i hynny:

'*We've worked hard in recent years to win the argument in terms of developing an arts and cultural hub and by sort of quoting the Fusion programme and saying, "look these are the sort of things that our galleries, museums and libraries are doing in your area", we've been able to garner a much broader cross-section of the council's support than we would've otherwise'*. (Cyfweliad â phartner arweiniol)

## Y prif ffactorau llwyddiant

4.10 Gofynnwyd i'r sefydliadau partner a gymerodd ran mewn cyfweliadau ystyried pa mor dda y rhoddwyd y rhaglen ar waith. Roedd y partneriaid yn teimlo bod y ffactorau canlynol wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y bartneriaeth, a chrybwyllwyd nifer ohonynt yn ddigymell gan unigolion o bob rhan o'r chwe phartneriaeth Ardaloedd Arloesi.

*Rheoli a llywodraethu partneriaethau*

*Strwythur a threfniadaeth*

4.11 Mae dwy haen i bob un o'r Ardaloedd Arloesi lle mae grŵp bach o unigolion yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r rhaglen yn lleol o ddydd i ddydd (a elwir yn grwpiau llywio neu'n fyrddau rheoli) ond sy'n atebol i grŵp ehangach o randdeiliaid, a ffurfiodd y bartneriaeth. Rhoddwyd hyblygrwydd i bob ardal ddatblygu prosesau rheoli a llywodraethu ffurfiol ac anffurfiol o fewn y strwythur sylfaenol hwn. Roedd yr holl bartneriaid arweiniol yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y rhaglen beilot gan ei fod yn galluogi iddynt ddatblygu eu strwythurau partneriaeth mewn nifer o ffyrdd i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau ac i ganiatáu i bartneriaid gyfrannu mewn gwahanol ffyrdd yn unol â'r cyd-destun penodol yr oeddent yn gweithredu ynddo. Mewn sawl

achos, cafodd y bartneriaeth leol ei chynllunio ar sail strwythurau presennol, gyda rhai addasiadau i ystyried yr angen i ddenu ystod ehangach o randdeiliaid o'r sectorau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth. Adroddodd y partneriaid arweiniol fod hyn wedi gweithio'n dda.

4.12 Er enghraifft, mae un ardal wedi integreiddio ei rhaglen i'r strwythur Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yr oedd yn gweithredu ynddo, yn arbennig fforwm y clwstwr. Roedd y fforwm yn cynnal trosolwg strategol o raglen waith y clwstwr ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Cyflawni'r Clwstwr, aelodau o'r gymuned leol ac asiantaethau a sefydliadau partner. Gan fod y clwstwr eisoes yn cymryd rhan mewn cyflwyno ystod o weithgareddau diwylliannol ar lefel gymunedol, roedd awydd i wella ac adeiladu ar y gwaith hwn drwy gynnwys y rhaglen Ardaloedd Arloesi yn rhan annatod o'i Gynllun Cyflawni. Yn sgil hynny, sefydlwyd 'is-grŵp' penodedig o'r fforwm i gydgysylltu a chyflawni'r rhaglen waith. Yn sgil mabwysiadu'r strwythur hwn gwelwyd nifer o newidiadau cadarnhaol mewn arferion a dulliau gwaith; roedd yn osgoi dyblygu ymdrechion a'r potensial i roi gormod o faich ar unigolion sy'n ymwneud â gwaith diwylliant a thlodi, ac yn dwyn ynghyd amrywiaeth o bartneriaid o'r sectorau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth, llawer ohonynt nad oeddent wedi cydweithio o'r blaen. Fel y pwysleisia'r partner arweiniol hwn:

> *'Instead of creating another partnership for the sake of just one programme we've created a new cluster network, because if arts and culture are going to be an integral part of the cluster programme, then it shouldn't stand alone - it should be integral. It really is about mainstreaming it and making it part of the solution to tackling poverty. So we've injected it into our existing structures. The governance was already there, the terms of references were already there, the commitment was already there with our key partners like CAB, Credit Union, the schools, the police, fire service and the community members, and the arts and culture organisations are now a recent addition.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.13 Defnyddiwyd grwpiau llywio neu fyrddau rheoli gan y rhan fwyaf o'r Ardaloedd Arloesi er mwyn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros gefnogi'r agweddau gweithredol ar y rhaglen. Roedd llawer o'r partneriaid arweiniol yn teimlo bod hyn yn hanfodol i wahaniaethu rhwng swyddogaeth rhwydweithio'r bartneriaeth a'i swyddogaethau strategol ehangach. Mewn un ardal lle yr adroddwyd bod y strwythur hwn wedi gweithio'n effeithiol, roedd y

bartneriaeth leol yn cael ei harwain gan fwrdd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o adran yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros drechu tlodi ar draws y Cyngor cyfan. Roedd ymrwymiad uwch bersonél awdurdodau lleol o'r rhan benodol hon o'r cyngor yn cael ei ystyried yn un o gryfderau allweddol y bartneriaeth Ardaloedd Arloesi gan ei fod yn helpu i ddarparu sbardun strategol, momentwm a phroffil. Roedd hefyd yn rhoi'r cyfle i fanteisio'n uniongyrchol ar sgiliau, gwybodaeth fanwl ac adnoddau unigolion allweddol a chanddynt ddylanwad uniongyrchol ar yr agenda trechu tlodi. Fel yr amlinellwyd gan un o'r partneriaid arweiniol:

> *'I don't think any other Council in Wales has a Poverty and Prevention Service, so having that direct link to the Tackling Poverty Unit, we're in an unique position where we can advise people what all of the Council's priorities are in terms of tackling poverty, of which Communities First is one of the major tools of delivery, and that gives us something quite different here to what other areas are going to have.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.14 Roedd dwy o'r Ardaloedd Arloesi wedi sefydlu is-grwpiau llai fel canghennau o'r brif bartneriaeth, a oedd yn ddull a oedd yn canolbwyntio'n fwy ar nodi blaenoriaethau a diddordebau cyffredin ar draws gwahanol feysydd thematig. Mewn un Ardal Arloesi, sefydlwyd pum tîm prosiect, bob un dan arweiniad rheolwr prosiect ac yn seiliedig ar bum thema graidd rhaglen waith y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Gweithiodd pob tîm yn unol â chynllun cyflawni y cytunwyd arno, a oedd yn cynnwys amlinelliad manwl o'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o'r rhaglen o ran y grwpiau targed allweddol; y math o weithgareddau; y canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir; a'r strwythurau monitro a gwerthuso a fabwysiadwyd. Drwy'r dull hwn, roedd modd i'r partneriaid ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau cyffredin yn llwyddiannus a chymryd camau gweithredu penodol a phendant yn sgil y gweithgareddau hyn, a sylwodd llawer bod y dull yn rhoi capasiti, cyfrifoldeb a rhywfaint o atebolrwydd iddynt. Ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil, roedd trydedd Ardal Arloesi wrthi'n addasu ei strwythurau gan y teimlwyd bod maint y bartneriaeth yn ei gwneud yn anodd ei rheoli. Fel y noda'r partner arweiniol, roedd hyn yn golygu ei bod yn her rheoli mewnbwn gwahanol bartneriaid a rhoi pwyslais ar ddatblygiad ymarferol:

> *'…there's probably about 25-30 different interests represented on the partnership and I think the group is so big and unwieldy. To create really*

*good quality projects we probably need to split in to smaller action groups or task groups.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*Rôl partneriaid diwylliannol allweddol*

4.15 Dangosodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid fod rhai unigolion neu sefydliadau partner o fewn pob partneriaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddylanwadu ar gyfeiriad cyffredinol y rhaglen waith ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni gweithgareddau. Roedd y partneriaid ar draws pob un o'r Ardaloedd Arloesi yn cytuno bod y sefydliad partner arweiniol wedi chwarae rhan allweddol o ran 'pontio', gan helpu i lunio strategaeth gyffredinol y rhaglen waith a hwyluso cysylltiadau rhwng y gwahanol bartneriaid. Cyfeiriodd partneriaid diwylliannol o ddwy ardal yn benodol at y rôl allweddol a chwaraewyd gan y partneriaid arweiniol, gan nodi eu bod yn cyfrannu deallusrwydd a syniadau at y bartneriaeth. Dywedwyd bod gallu'r unigolion hyn i ddefnyddio eu harbenigedd o'r sector, a phrofiad o weithio yn y rhanbarth fel rhan o gylch gwaith ehangach, yn amhrisiadwy:

*'I think it's important to have that individual, to advise people that are developing ideas about how to make the tangible links under the Tackling Poverty Agenda and how things can be measured … that's what's really needed in each Pioneer Area - someone who understands what the CF delivery plans are and sees the local cultural community as a resource, and can invest time into it.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*'We've been very lucky to work with [two individuals] from Communities First in the Local Authority. They've succeeded in bringing together the work that was already in progress in our area with the Pioneer Area project – they saw the potential and provided the link between the two … They've been influential in getting this going and seeing the potential.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.16 Dywedodd partneriaid eraill fod y sefydliad arweiniol Cymunedau yn Gyntaf hefyd wedi chwarae rhan hollbwysig; gan ddarparu symbyliad a chydgysylltedd, a helpu i gael gafael ar gyllid a sefydlu cysylltiadau â phartneriaid ac Ardaloedd Arloesi eraill er mwyn rhannu arferion da.

4.17 Roedd yna hefyd gytundeb cyffredinol ar draws yr Ardaloedd Arloesi bod cydweithio agos gyda thimau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid lleol yn elfen hanfodol o lwyddiant cyffredinol eu partneriaethau. Dywedodd y partneriaid bod hyn yn darparu cyswllt amhrisiadwy â staff medrus sy'n

gweithredu mewn cymunedau lleol ac y mae eu rhwydweithiau presennol yn golygu bod y gymuned leol yn ymddiried ynddynt. Yn benodol, teimlwyd bod proffil, hygrededd a gallu staff Cymunedau yn Gyntaf yn eu galluogi i yrru'r agenda yn ei blaen, a oedd yn hanfodol i lwyddiant cyffredinol y rhaglen. Roedd eu dealltwriaeth o'r ardal leol, a gwir anghenion, pryderon a blaenoriaethau'r cymunedau, yn ogystal â strwythurau a phrosesau'r sector, yn galluogi'r partneriaethau i ddylunio gweithgareddau a'u targedu'n effeithiol. Pwysleisiodd un partner arweiniol hefyd bwysigrwydd grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn y rhaglen, gan yr ystyriwyd yn gyffredinol eu bod yn dda o ran gweithredu'r rhaglen a bod eu dulliau gwaith yn ymatebol ac yn arloesol iawn:

> *'We did a mailshot to all organisations in our area and all our cluster partners, and we had a really good response. Then we looked at what professional expertise they could bring, and the fact that many had remits to actually work in the disadvantaged areas was a key factor. We then tried to get them to think a little bit about how they could contribute to our programme and how we could learn from their creative approaches to working with communities. And that's been a productive process.'*
> (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.18 Roedd nifer o bartneriaethau wedi elwa ar gyfranogiad partneriaid a chanddynt gylch gwaith y tu hwnt i'r ardal beilot leol - gan gynnwys partneriaid sy'n gweithredu ar lefel strategol genedlaethol ac ar lefel fwy rhanbarthol. Roedd hyn yn rhoi chwistrelliad pwysig o syniadau newydd a dimensiwn gwahanol i'r bartneriaeth; dywedodd un partner arweiniol fod y gallu i ddatblygu gweithgareddau o faint gwahanol ac ar gyfer sectorau gwahanol wedi ehangu effaith bosibl y rhaglen. Yn wir, mewn un Ardal Arloesi, roedd cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol cyfagos wedi cysylltu â'r bartneriaeth er mwyn dod yn aelodau ohoni. Er y nodwyd ei bod yn annhebygol y byddent yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni prosiectau ar y cyd yn ystod y flwyddyn beilot gychwynnol oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau a'r heriau ychwanegol yn sgil cyflwyno gwaith partneriaeth a chyflawni rhwng awdurdodau, roedd yn cynnig cryn gyfleoedd i rannu syniadau ac arferion da. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd yr oedd y partneriaethau'n cael eu gwerthfawrogi'n gyffredinol gan yr aelodau am fod yn gynhwysol a chyfartal; ym mhob achos cafwyd sbectrwm eang o bartneriaid a oedd yn cwmpasu gwahanol sectorau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ac felly gallai unrhyw un ddod yn aelod.

4.19 Cydnabuwyd gwerth ennyn a chynnal ymrwymiad unigolion allweddol ac uwch staff o fewn sefydliadau, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol, gan bartneriaid ar draws yr Ardaloedd Arloesi. Pwysleisiwyd bod cael yr unigolion uchel eu parch hyn yn aelodau ac yn gyfranwyr allweddol yn fodd o roi gwerth penodol i'r rhaglen a'i gweithgareddau, yn ogystal â bod yn gymhelliant i bobl eraill ymuno â'r bartneriaeth. Fodd bynnag, amlygwyd bod hon yn broses gymhleth. Myfyriodd un partner diwylliannol ar ei brofiad o orfod herio stereoteipiau a chamsyniadau o werth gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol ymhlith personél allweddol awdurdodau lleol yn ei ardal:

> '*It's a bit of a challenge, but by and large I think that we're gaining more support than opposition … we're trying to create a new arts and cultural hub and it's been a bit of a challenge to get people around the table to see the positives. And I think we are making significant progress in that area now. It has gone from being what was considered totally inappropriate, to being a project that I think people are beginning to embrace and accept. Through this project we've been able to show that culture and the arts are not the exclusive preserve of the rich and the highly-educated classes – it's something that benefits the whole community. So I think the fact that we've been a Pioneer Area in the Fusion project has certainly given us very good opportunities to challenge those people who say this is not for us…*'
> (Cyfweliad â phartner diwylliannol)

4.20 Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod ymwneud yr ardal â'r rhaglen Cyfuno, ynghyd â chymeradwyaeth o'r brig i lawr a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, wedi helpu i ennyn cefnogaeth wleidyddol ehangach ar gyfer prif ffrydio cymorth ar gyfer y celfyddydau a diwylliant; yn enwedig lle y gellir dangos eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.

*Bod yn agored a natur organig partneriaeth*

4.21 At ei gilydd, roedd y partneriaethau yn cael eu gwerthfawrogi gan bartneriaid diwylliannol am fod yn agored iawn, yn ddemocrataidd ac yn organig o ran eu dull o ddiffinio diben cyffredin, amcanion clir a phrosesau i nodi sut y gallai pob aelod gyfrannu. Roedd pob un o'r partneriaid yn cytuno bod treulio amser yn cyd-drafod camau cynnar y partneriaethau'n llwyddiannus er mwyn datblygu gweledigaeth a thargedau cyffredin yn hanfodol. Nododd sawl un fod datblygiad 'organig' cylch gwaith a nodau'r grŵp wedi helpu i sicrhau

perchnogaeth o'r rhaglen waith a'i phriodoldeb i anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau targed. Yn unol â hynny, roedd nifer o ardaloedd yn teimlo eu bod wedi llwyddo i sefydlu perchnogaeth leol, a oedd yn cael ei gwerthfawrogi gan y partneriaid, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol.

4.22 Pwysleisiodd pob un o'r partneriaid arweiniol fod llwyddiant y partneriaethau hyd yma wedi cael ei lywio gan awydd partneriaid i ymchwilio i werth cydweithio i sicrhau budd i'r holl bartneriaid a ffocws ar amcan cyffredin, yn hytrach na chan gylch gwaith cyllido penodol. Roedd hyn yn annog partneriaeth gydweithredol ac anghystadleuol drwy drafodaeth agored. Fel y dywedodd un partner:

> *'The work of the partnership happens because people think it's important and the work goes where the energy and need is'* (Cyfweliad â phartner arweiniol).

*Dulliau o nodi blaenoriaethau a gweithgareddau*

4.23 Roedd y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn ymchwilio'n fanwl i'r dulliau a fabwysiadwyd gan bob ardal wrth ddylunio rhaglen waith eu Hardal Arloesi, ac wrth sefydlu perthynas gydweithredol gyda gwahanol sefydliadau a chyrff sy'n ymwneud â'r agenda trechu tlodi. Roedd yr ymatebion yn nodi tri dull cyffredinol: adeiladu ar weithgareddau a pherthnasoedd sydd eisoes yn bodoli; datblygu perthnasoedd a chysylltiadau newydd gydag ystod ehangach o sefydliadau a grwpiau; a datblygu gweithgareddau diwylliannol ar lawr gwlad. Trafodir pob dull yn ei dro.

*(a) Adeiladu ar berthnasoedd sy'n bodoli eisoes*

4.24 Roedd nifer o Ardaloedd Arloesi yn gallu manteisio ar grwpiau a rhwydweithiau presennol a ddatblygwyd o weithgareddau neu fentrau blaenorol neu barhaus. Roedd un Ardal Arloesi wedi dewis seilio ei rhaglen waith ar ddatblygu prosiect ag iddo ffocws a oedd wedi deillio o weithgaredd sy'n bodoli eisoes o fewn y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Drwy drafodaethau a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, nodwyd cyfleoedd i wella ac ehangu rhaglen ddysgu bresennol wedi'i harwain gan y teulu - y Llofnod Dysgu Teulu - a oedd wedi'i chyflwyno fel rhan o raglen waith Cymunedau yn Gyntaf cyn dechrau'r flwyddyn beilot. Un o nodweddion

allweddol y prosiect newydd hwn yw ei fod yn cael ei gynllunio a'i weithredu ar y cyd ag ystod ehangach o bartneriaid o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd hefyd yn cael ei weld gan y partneriaid arweiniol fel prosiect 'ymarferol, cyraeddadwy a chynaliadwy' y gellid ei gyflawni o fewn y terfyn amser gofynnol a chyda'r adnoddau a oedd ar gael.

4.25 Fel rhan o'r prosiect, mae'r Ardal Arloesi yn cefnogi'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a'r Bartneriaeth Cyfuno i greu, gweithredu a gwerthuso cyfres o ymyriadau diwylliannol pwrpasol sy'n canolbwyntio ar y teulu ar gyfer teuluoedd sy'n cwblhau'r Llofnod Dysgu Teulu. Mae'r gweithgareddau a ddarperir fel rhan o'r prosiect yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn cydweithrediad â deg partner diwylliannol yn yr Ardal Arloesi. Dangosodd cyfweliadau a gynhaliwyd gyda'r partneriaid fel rhan o'r gwerthusiad eu bod yn gobeithio y byddai pob prosiect yn cyfoethogi ac yn arallgyfeirio'r arbenigedd a'r profiadau diwylliannol sydd ar gael i dros 320 o drigolion yn y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf.

4.26 Roedd Ardal Arloesi arall wedi manteisio ar gysylltiadau a oedd eisoes yn bodoli gyda Casgliad y Werin Cymru[62] i nodi cyfle i ddatblygu ymhellach a gwella effeithiolrwydd, cyrhaeddiad a phroffil ei gwaith yn yr ardal drwy ddull gweithredu ar y cyd. Eglurodd un o'r partneriaid pam yr oedd hyn yn ffactor pwysig:

> *‘That synergy between programmes is becoming increasingly important … you don’t want to create lots of additional things, but use things that are there as vehicles to actually get the messages across’* (Cyfweliad gyda phartner diwylliannol).

4.27 Mae'r dull hwn o ddatblygu perthnasoedd a oedd eisoes yn bodoli hefyd wedi galluogi Ardal Arloesi arall i fod 'gam ar y blaen' wrth ddylunio a gweithredu ei rhaglen waith, a thrwy hynny feithrin mwy o gyfranogiad yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn beilot. Fel yr esboniodd un o'r partneriaid:

> *‘The fact that it’s building on the work that everybody’s already doing - that makes it work. If the group itself was to start generating lots of targets that*

[62] Prosiect ar-lein cyfoes a dwyieithog a gafodd ei lansio yn 2010 i rannu gwybodaeth am hanes Cymru a'i phobl yw Casgliad y Werin Cymru. Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd gasgliadau cenedlaethol o'r tri prif sefydliad partner - Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru - gydag eitemau o amgueddfeydd lleol a rhanbarthol, archifau a llyfrgelloedd, a grwpiau cymunedol ac unigolion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan: [http://www.casgliadywerin.cymru/](http://www.casgliadywerin.cymru/)

*weren't already needed elsewhere, I think it would become more difficult and time-consuming'* (Cyfweliad â phartner diwylliannol).

4.28 Roedd y dull cydweithredol o gynllunio a gweithredu prosiectau a gweithgareddau yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n arbennig o dda mewn tair Ardal Arloesi lle mae rhwydweithiau cryf o bartneriaid gwirfoddol, cymunedol a diwylliannol wedi'u hen sefydlu. Nododd un o'r partneriaid arweiniol mai un o fanteision gallu adeiladu ar berthnasoedd sy'n bodoli eisoes oedd y ffaith bod llawer o'r partneriaid diwylliannol yn gyfarwydd â'i gilydd ac â'r dulliau gwahanol o weithio gyda sefydliadau a grwpiau lleol a chymunedol. Roedd hyn wedi creu ymdeimlad o hyder yn y rhaglen, ac yn ei dro yn annog mwy o barodrwydd ar ran partneriaid diwylliannol i gyfranogi a chyfrannu.

4.29 Roedd tystiolaeth hefyd bod y broses Ardaloedd Arloesi wedi cryfhau'r berthynas bresennol rhwng Cymunedau yn Gyntaf a sefydliadau diwylliannol, drwy ganiatáu i bartneriaid nodi cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu gweithgareddau cydweithredol drwy bartneriaethau sy'n bodoli eisoes. Dywedodd un o swyddogion ymgysylltu Cymunedau yn Gyntaf yn un ardal ei fod, drwy fod yn rhan o'r bartneriaeth, wedi nodi cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli ac addysg newydd i grwpiau penodol (sef ysgolion ac unigolion ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl) yn ei ardal leol:

> '*A lot of the organisations and groups we're working with have always been part of our Communities First programme, for example, in terms of delivering therapeutic elements, where people who suffer from mental health issues are given opportunities to do workshops, but this has just firmed up that commitment. A lot of interesting things have come out of the new relationship - we've now become aware of things we never knew that they did, which has been really useful*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*(b) Datblygu perthnasoedd a chysylltiadau newydd*

4.30 Rhoddodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid dystiolaeth bod 'cyfrannwyr' newydd wedi dod i'r amlwg yn y dirwedd trechu tlodi o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen beilot. Roedd y rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, Darparwyr Addysg Uwch a Dysgu Oedolion, sefydliadau treftadaeth a chelfyddydol, elusennau a chymdeithasau tai, y sector iechyd a darparwyr iechyd a heddluoedd. Nodwyd nad oedd llawer o'r rhain erioed wedi gweithio mewn partneriaeth strategol â'i gilydd, nac wedi bod mewn cysylltiad â'i gilydd o'r blaen.

Pwysleisiodd nifer o'r rhai a holwyd fod hwn yn un o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at lwyddiant y rhaglen Ardaloedd Arloesi:

> '*The Pioneer Area Programme is going to attempt to develop some hard outcomes, but it doesn't give the full picture about what the partnership is achieving in terms of getting people and organisations together and getting them talking. You can tell that these people haven't talked before, haven't met before in some cases. It's a new way of working*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.31 Pwysleisiodd nifer o'r partneriaid arweiniol y gellid priodoli llawer o hyn i'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Grŵp Gweithredol Diwylliant a Thlodi[63]) wrth gyfathrebu nod cyffredinol y rhaglen a rhoi arweiniad ar adnabod partneriaid diwylliannol posibl. Nododd nifer o bartneriaid arweiniol werth cael pwynt cyswllt penodol o fewn sefydliad, a oedd wedi arwain at ddatblygu perthynas ffrwythlon newydd gyda phartneriaid na fyddent byth wedi dod i gysylltiad â hwy neu nad oeddent wedi gweithio â hwy o'r blaen. Cafodd y broses hon ei hwyluso hefyd gan eu parodrwydd gwirioneddol i gymryd rhan yn y rhaglen a chyfrannu ati, fel y soniwyd eisoes. Soniodd nifer o Ardaloedd Arloesi yn benodol eu bod wedi sefydlu cysylltiadau newydd ag Adrannau Archifau neu Ymddiriedolaethau sy'n gweithredu ar lefel leol a rhanbarthol i ymchwilio i gyfleoedd i weithio ar y cyd ar brosiectau hanes lleol. Cafodd y rhain eu cydnabod gan nifer o bartneriaid diwylliannol fel adnodd gwerthfawr nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

4.32 Hefyd, pwysleisiodd partneriaid diwylliannol yn barhaus fod y rhaglen Ardaloedd Arloesi wedi cryfhau ymrwymiad sy'n bodoli eisoes gan Lywodraeth Cymru i blygu rhaglenni (hynny yw, sicrhau bod arian a chymorth gan amrywiol raglenni a sefydliadau cyhoeddus yn cael ei gyfeirio at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf[64]) drwy annog a hwyluso rhannu adnoddau er mwyn helpu i greu dulliau cydweithredol o drechu tlodi ac anfantais ar lefel

[63] Tîm rhaglen penodedig sy'n rheoli'r Rhaglen Ardaloedd Arloesi yw'r Grŵp Gweithredol Diwylliant a Thlodi. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Yr Is-adran (MALD); Cadw; Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi, a Chymunedau), yn ogystal â chynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru Chyngor Celfyddydau Cymru.

[64] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cymunedau yn Gyntaf. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7923%20-%20Public%20Accounts%20Committee%20Report%20on%20Communities%20First-22022010-168311/cr-ld7923-English.pdf

gymunedol a dylanwadu ar hynny. Pwysleisiodd nifer o gynrychiolwyr Cymunedau yn Gyntaf, er bod rhywfaint o blygu rhaglenni wedi cael ei gyflawni drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, bod hyn wedi deillio'n bennaf o'r ffaith bod darparwyr gwasanaethau eisoes yn plygu eu gwasanaethau tuag at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gyflawni eu hamcanion strategol eu hunain (sydd yn achos y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cynnwys trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol). Pwysleisiwyd mai'r prif rwystr i blygu rhaglenni hyd yma oedd y diffyg cyfeiriad clir gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid cyflawni hyn yn effeithiol. Felly roedd y partneriaid arweiniol ar draws yr Ardaloedd Arloesi yn croesawu'r cyfeiriad a'r arweiniad strategol cynyddol o'r brig i lawr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Ardaloedd Arloesi. Roedd hyn yn cydnabod yn benodol bod diwylliant, treftadaeth a sefydliadau celfyddydol yn chwarae rhan bwysig o ran cyfrannu at amcanion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac at yr agenda trechu tlodi ehangach. Pwysleisiwyd nad oedd gan y sefydliadau hyn gysylltiadau da gydag ardaloedd a phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf hyd yn hyn:

> '*So there's work that's already going on, and this is the program bending that Welsh Government spoke about maybe three, four years ago with Communities First, but they didn't really make it happen. But actually now what we're seeing is Welsh Government directing its funding streams, influencing its partners or its recipients of funding and saying "this is how we want it to knit together". So that creates a framework within which a lot of people and organisations are making contributions to tackling poverty, as opposed to loads of people just getting on and doing their day jobs. So it's trying to achieve three things - to use the offer of arts, culture and heritage, which is so diverse, so wide, so multi-layered, to hook as many people in as possible; to give people a reason to get up in the morning and give people an aspiration. That then hopefully gives them the opportunity to follow that through into some of our more formal tackling poverty work … We're trying to make huge changes but we've only got a small amount of resource to do it. If we've got partners who are working in the education field, through the library, through the museum, they can all be making that added contribution. That's more holistic, that's more sustainable*.'
> (Cyfweliad â phartner arweiniol).

4.33 Y ffactor yr ystyriwyd ei bod yn cyfrannu'n fwyaf effeithiol at y broses o adnabod partneriaid a blaenoriaethau newydd oedd hwyluso cyfleoedd

rhwydweithio. Mewn llawer o achosion, crëwyd cyfleoedd i bartneriaid gwrdd naill ai cyn neu ar ôl cyfarfodydd partneriaeth i rwydweithio a rhannu syniadau a phrofiadau. Roedd hyn yn eu galluogi i ddod o hyd i sefydliadau a grwpiau y gallent o bosibl weithio â hwy ar brosiectau yn y dyfodol. Pwysleisiodd nifer o'r partneriaid arweiniol fod hyn yn digwydd yn naturiol - roedd pob un o'r partneriaid yn awyddus i fod yno, ac i gymryd rhan yn y broses:

> '…*in some meetings you can tell from people that they're just there because they have to be there – the meeting closes, up they go and then everyone goes their own way and that's that. You don't see that with this Creative Learning Partnership - people are still networking for 20 minutes after and they see a real value in getting together*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

> *'The partnership has been developed as a partnership, but it's also, I would say, a network. So, there are core members, there are members who have a real interest in the Pioneer Area Programme and how they can contribute to it. And then we've got thematic groups that kind of sit round the edge of the core membership or partnership, but that are linked to the agenda of what we are doing with the Pioneer Area Programme. And it's a network that they can then dip into … the partnership is meant to be much more organic, because it's designed to be something that will last a very long time. And people will come and go and contribute to it as and when they wish really.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.34 Roedd nifer o'r Ardaloedd Arloesi hefyd wedi datblygu cysylltiadau ag ardaloedd eraill a oedd yn canolbwyntio ar themâu neu feysydd gwaith tebyg er mwyn manteisio ar eu profiadau o ymgysylltu â phartneriaid newydd a datblygu dulliau newydd a gwahanol o drechu tlodi drwy ddiwylliant. Roedd y cyfarfodydd rhwydweithio a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi yn hwyluso'r dull hwn o rannu'r hyn a ddysgwyd a gweithgaredd ar draws y chwe ardal ac roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn rhagweld y byddai hyn yn elfen bwysig wrth ehangu'r rhaglen a'i dull gweithredu. Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod yn canolbwyntio ar rannu syniadau, profiadau ac arferion gorau, ac mewn sawl achos, roedd hyn wedi ymestyn y tu hwnt i'r cyfarfodydd. Roedd lle i wella ac annog y broses hon ymhellach pe bai'r rhaglen yn parhau ac yn cael ei hehangu.

*(c) Datblygu gweithgareddau diwylliannol o'r gwaelod i fyny / ar lawr gwlad*

4.35 Rhoddodd nifer o Ardaloedd Arloesi enghreifftiau penodol o gydweithio gyda thimau clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol er mwyn cynnwys aelodau'r gymuned eu hunain yn y broses o flaenoriaethu canlyniadau ar gyfer eu hardaloedd lleol a dylunio eu gweithgareddau ar ôl hynny. Ar y cyfan, fodd bynnag, teimlwyd yn gyffredinol nad oedd y rhaglen wedi gallu mabwysiadu dull cwbl gydweithredol mewn cymunedau lleol ar hyn o bryd oherwydd mai rhaglen beilot ydoedd, a bod angen rhoi'r rhaglen ar waith a darparu gweithgareddau yn gyflym a thros gyfnod byr. Er gwaethaf hyn, roedd nifer o ardaloedd yn rhagweld pwyslais cryfach ar ddulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny pe bai'r rhaglen yn parhau:

> *'…the only criticism of the Andrews Report was that it does sort of imply that culture sort of is handed down. There's probably not enough in that report about bottom up culture, and that's something that we quite strongly want to develop. At the moment because of the programme and wanting to get these things underway we haven't really gotten round it. But we're working on the idea that when we are designing projects it needs to start with what the community a) want or b) feel that they need, and using what's available there are a first resource. Now that will be quite interesting to really get that going as time goes on.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

> *'I think a lot of it is about creating a network of relationships between communities and cultural industries, so that people can feel pride and feel knowledgeable about their own heritage and culture. But also for them to realise that they are creators in themselves as well, and what they can contribute, that they are poets, that they are potential film-makers, they are writers and they are holders of heritage.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*Bod yn agored a pharodrwydd i ymgysylltu*

4.36 Yn gyffredinol, pwynt pwysig a bwysleisiwyd gan yr holl bartneriaid arweiniol oedd, er gwaethaf y toriadau sylweddol yn y gyllideb a lleihad cyson mewn arian cyhoeddus, roedd awydd a pharodrwydd gwirioneddol ymysg sefydliadau partner, boed hen neu newydd, i gymryd rhan yn y rhaglen a chyfrannu ati. Pwysleisiodd nifer o'r partneriaid arweiniol bod yr angen am fwy o waith cydgysylltiedig a dulliau newydd ac arloesol i gynorthwyo unigolion sy'n byw mewn tlodi i bontio'n effeithiol i'r gymuned ehangach neu i fywyd gwaith, yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau i wasanaethau craidd a chyllidebau. Cefnogwyd y canfyddiad hwn gan

sylwadau a wnaed gan bartneriaid arweiniol a ddywedodd fod sefydliadau a grwpiau diwylliannol newydd ar wahanol lefelau ac ar draws sectorau, yn cysylltu â hwy yn wythnosol bron yn mynegi diddordeb mewn cyfrannu at y rhaglen:

> *'…we've got 75+ organisations, not signed up, but actively involved … it's a bit like, a volunteer's worth ten times the forced soldier.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)
>
> *'We're still probably getting at least one enquiry per week, if not two, from partners, from interested groups and from others who've heard about Culture and Poverty and Fusion and want to be involved … everybody has come together very, very willingly. Nobody's had to be persuaded, they've all come freely.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*Anghenion, hoffterau a blaenoriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg*

4.37 Nod Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 'Iaith fyw: iaith byw', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012, yw annog hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi'r defnydd helaethach ohoni ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.[65] Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais penodol ar yr angen i gryfhau 'sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau', ac yn galw am fwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r system addysg, yn ogystal â rhoi mwy o sylw i werth defnyddio sgiliau Cymraeg yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

4.38 Gofynnwyd i Ardaloedd Arloesi i ba raddau y mae eu rhaglen waith yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg yn ei hardal. Dangosodd tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad fod cryn amrywiad daearyddol yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr Ardaloedd Arloesi, gyda chyfran llawer uwch o siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd nag eraill. Mewn un Ardal Arloesi roedd yn ymddangos bod y Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses o reoli a llywodraethu'r rhaglen waith. Roedd llawer o'r partneriaid diwylliannol a gynrychioliwyd ar y bartneriaeth leol yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ac roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel rhan o'i strwythurau a'i phrosesau. Er enghraifft mewn cyfarfodydd, gweithgareddau rhwydweithio a thrafodaethau anffurfiol, a thrwy ddarparu deunyddiau dwyieithog a recriwtio

[65] Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-2017.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217en.pdf

staff a oedd yn medru'r Gymraeg. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth ar y cam hwn bod y gweithgareddau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn beilot yn cyfateb yn benodol ag anghenion a dewisiadau ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau targed. Roedd yr asesiad o anghenion ieithyddol lleol ac amlygrwydd y Gymraeg mewn cymunedau o fewn y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn tueddu i fod yn seiliedig ar wybodaeth leol. Pan holwyd y partneriaid arweiniol yn fwy manwl yn y cyfweliad, roeddent yn cydnabod gwerth defnyddio'r data (megis data Cyfrifiad a data ar nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg), er enghraifft, i nodi meysydd lle y gallai anghenion a dewisiadau o ran y Gymraeg gael eu targedu mewn gweithgareddau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd fawr o dystiolaeth bod unrhyw ddefnydd ffurfiol yn cael ei wneud o'r data hyn ar hyn o bryd.

4.39 Ar draws y pum Ardal Arloesi arall, dywedodd y partneriaid arweiniol bod y Gymraeg yn ddim ond un ffactor o blith llawer yr oedd yn rhaid iddynt eu hystyried:

> "*We actually probably have more people who speak different languages other than Welsh, so it's not always the Welsh language that is the requirement funnily enough … So for example if we're targeting the [migrant] community, we would try to consider if there is a language barrier to something that might be happening and what we can do to mitigate it. And that would also be our approach for the Welsh community.*" (Cyfweliad â phartner arweiniol)

> "*…there is a strong emphasis [in our work] on supporting and facilitating the Welsh language … because of the nature of the Communities First cluster, unfortunately we don't have one geographically connected community, but it's fine to be like that. What we have are pockets [of Welsh speakers] within some wards … So the linguistic needs are very varied … because there are a number of [migrant] people moving here to live slightly different needs may arise then*." (Cyfweliad â phartner arweiniol)

Yn yr achosion hyn, roedd llai o enghreifftiau o'r defnydd o'r Gymraeg mewn strwythurau a phrosesau partneriaeth ffurfiol, ac roedd y gweithgaredd yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu deunyddiau print neu wasanaethau dwyieithog. Roedd y sylw cyfyngedig hwn i ddarpariaeth Gymraeg yn aml yn

cael ei briodoli i gost darparu gwasanaeth dwyieithog, fel y pwysleisia'r parter arweiniol hwn:

> "*We're trying to do things in accordance with the Welsh Language Act in general around translation/bilingualism. We don't have the ability to have a nice little translation room at the side of our meeting rooms like the Welsh Government. There are some real challenges there in terms of costs and provision*." (Cyfweliad â phartner arweiniol)

**Y prif heriau o ran dylunio, gweithredu a chyflawni'r Ardaloedd Arloesi**

4.40 Nododd y partneriaid nifer o heriau wrth sefydlu a chynnal partneriaethau'r Ardaloedd Arloesi, fel y nodir isod.

*Rheoli a llywodraethu'r Bartneriaeth*

*Strwythur a threfniadaeth*

4.41 Dywedodd nifer o bartneriaethau ei bod wedi cymryd amser i sefydlu strwythurau ar gyfer y bartneriaeth, o ran: egluro pwy fyddai'r aelodau; cytuno ar y cylch gorchwyl; gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dealltwriaeth gadarn a chynhwysfawr o ddarpariaeth ac anghenion diwylliannol presennol; nodi diddordebau a blaenoriaethau cyffredin; a gosod cyfeiriad strategol cyffredinol eu rhaglen waith. Ar ben hynny, roedd cyfyngiadau amser a'r tasgau deuol o weithio gyda phartneriaid diwylliannol i ddylunio a chyflawni rhaglen waith gydweithredol a dangos effaith ar gynulleidfaoedd targed o fewn y terfyn amser a bennwyd ar gyfer y flwyddyn beilot, yn golygu bod rheoli'r prosesau hyn a chadw cydbwysedd rhyngddynt yn her benodol:

> *'We held our first meeting in September and in planning we followed the Welsh Government guidance, so you get together, you look at the terms of reference, you look at some priorities, you do a mapping exercise, you then start to work with partners and deliver activities. In reality it was agreed that was the wrong way round, and actually we can't come up with the terms of reference until we understand what everybody's doing. So we sort of took a step back a little bit, allowed various projects to actually get going so then that guided how we came together. In the limited amount of time that we've got left, we've probably got to get behind those projects that are viable and just sort of support those, rather than being completely strategic and going, right, we're going to start from a clean sheet of paper*

*and these are our objectives. We haven't got the time to be able to do that so I think it's trying to balance the two together so that the official work goes on behind the scenes, whilst the activity and the impact of that activity at the forefront.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.42 Pwysleisiodd nifer o'r Ardaloedd Arloesi fod y broses o sefydlu a rheoli'r bartneriaeth yn gofyn am lawer iawn o hyblygrwydd i'w galluogi i ymateb yn effeithiol i newid anghenion a blaenoriaethau wrth i'r rhaglen ddatblygu. Yn unol â hynny, nodwyd nad oedd pob cam allweddol yn y broses o reidrwydd yn dilyn ei gilydd mewn modd llinellol. Un enghraifft o'r fath oedd nodi ac ennill cefnogaeth partneriaid newydd, a phwysleisiodd y rhai y cyfwelwyd â hwy yn gyson mai proses organig oedd hon - yn enwedig o ystyried y ffaith bod y rhwydwaith o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn cyfrannu at waith y rhaglen yn llawer ehangach nag yr oedd llawer o'r partneriaid arweiniol wedi'i rag-weld yn wreiddiol. Dywedodd sawl Ardal Arloesi hefyd, wrth i'w partneriaeth ddatblygu, fod yr aelodau cychwynnol craidd yn cydnabod yr angen i gynnwys partneriaid diwylliannol penodol a gwahoddwyd i ymuno. Felly roedd partneriaid yn cydnabod y bydd angen i'r aelodaeth esblygu ochr yn ochr ag amcanion y bartneriaeth; gan gynnwys partneriaid a sectorau newydd i raddau mwy neu lai ar wahanol adegau.

4.43 Pwysleisiwyd yn barhaus hefyd bod y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys yn arbennig o heriol yng nghyd-destun y rhaglen beilot gan fod angen buddsoddiad ac ymrwymiad i raglen a allai fod yn rhaglen tymor byr. Fel y pwysleisiodd nifer o bartneriaid, roedd llawer o waith y bartneriaeth, yn enwedig yn ystod chwe mis cyntaf y rhaglen, yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o anghenion, blaenoriaethau ac amcanion penodol pob sefydliad partner a sut y gellir cysoni'r rhain. Pwysleisiodd nifer o'r Ardaloedd Arloesi hefyd fod perthynas gydweithredol gref yn mynd law yn llaw â llwyddiant o ran dylunio, cyflawni a pherfformiad prosiectau. Amlygwyd hyn fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar lwyddiant cyffredinol eu Hardal Arloesi:

*'... from my experience of workign with communities and creative artists, I know that it can be transformative. But it takes time to develop, and I think the problem with the pilot area trying to get quick wins - that probably might show something, show that people have done stuff, but it's the making the difference that takes time. To do things well you have to build relationships and that's what takes time.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*'My feeling is, a lot of the groundwork we're doing now is going to lead to a lot better pay off come May and beyond, because that's just the nature of partnership working. One should never underestimate, in this sort of work, the amount of time and effort that needs to be put in to relationship building. Then it's not wasted time and effort, because once you build a really good relationship … it will give us the basis of doing some really exciting work in the future. Our approach is based on a partnership approach, based on a co-productive approach, but for such an approach to be effective it's very time consuming. But when it is effective it's very sustainable as well, and very powerful. Because there's a lot of resources around the table.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*'If you look at the list of projects and you look at the list of organisations, it's making progress. It's early days and these things take a lot of time, sometimes the seed takes longer to grow than that. As politicians I think we tend sometimes to expect immediate results, but probably some of these benefits from this are much longer term.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

*Cyfyngiadau ar adnoddau*

*Heriau cyllido*

4.44 Amlygodd nifer o Ardaloedd Arloesi y ffaith fod diffyg cyllid ar gyfer y rhaglen beilot wedi cyfyngu ar y graddau y gallent wireddu eu syniadau a'u huchelgeisiau. Dywedodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd eu bod eisiau datblygu gweithgareddau cydweithredol newydd ond bod diffyg cyllid wedi atal y bartneriaeth rhag datblygu. Fel yr eglurodd un o'r rhai a gyfwelwyd: '*It may be that the partnership is where people come together, try ideas, find partners and go off. But as projects themselves develop they may need more structure and resourcing' (Cyfweliad â phartner diwylliannol, Torfaen)*. Heb gyllid o'r fath, ofnwyd nad oedd modd cynnal diddordeb ac ymrwymiad partneriaid a'r gweithgareddau eu hunain. Fel yr eglurodd un partner: '…*because there is little initial money with the pilot itself, we're always having to do that additional work of looking externally to find funding to be able to deliver against the ambition of the group'*.

4.45 Dengys y dystiolaeth o'r gwerthusiad fod gallu sefydliadau diwylliannol a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i gyfrannu adnoddau ychwanegol - yn ychwanegol at y cyllid uniongyrchol a roddwyd i gyflawni'r rhaglen beilot -

wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant y gweithgareddau; yn enwedig yng nghyd-destun toriadau diweddar i wasanaethau craidd a chyllidebau. Roedd partneriaid diwylliannol yn pwysleisio'n barhaus ei bod yn bwysig bod y cymorth hwn yn cael ei gydnabod yn llawn. Pwysleisiwyd hefyd lwyddiant cyffredinol y rhaglen o ran dwyn ynghyd bartneriaid a chanddynt wybodaeth am baratoi ceisiadau llwyddiannus am arian a phrofiad o hynny, gyda nifer o ardaloedd yn dweud eu bod wedi llwyddo i ddenu cyllid ac adnoddau i ddatblygu prosiectau ar y cyd, gan alluogi partneriaid i weithredu ar yr anghenion a nodwyd gan y bartneriaeth. Nododd Ardal Arloesi arall hefyd ei bod wedi dechrau datblygu gweithgareddau a chynigion sy'n cynnwys sefydliadau a oedd heb gydweithio o'r blaen.

*Capasiti partneriaid a sefydliadau partner*

4.46 Roedd nifer o bartneriaid hefyd wedi wynebu rhai problemau o ran cysoni blaenoriaethau a rhaglenni presennol heb gyfaddawdu ar ofynion cyflawni, cylchoedd gwaith, capasiti ac amserlenni'r sefydliadau:

> *'There has to be almost a root and branch acceptance within organisations that tackling poverty is the objective and it needs to be increasingly built in to our work programmes. If an organisation's been involved with a long-term funded programme maybe for two or three years, to then squeeze two or three Pioneer projects into that is almost impossible. So, there's quite a considerable lead-in time, which has to be at least 18 months, but there's also the winning of hearts and minds of all the organisational movers and shakers to be able to say this is what we're about. And that, I think, is an issue. You can have as detailed a project as you like, but if the section or division manager is saying, "I'm sorry I've got priorities, I've got more pressing priorities", it's going to be quite hard, unless they're jumped on from a great height and told get on with it.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol).

4.47 Dywedodd rhai partneriaid nad oedd ganddynt ddigon o gapasiti ac adnoddau i fynychu cyfarfodydd partneriaeth a rhoi camau gweithredu'r bartneriaeth ar waith oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â llwyth gwaith ac adnoddau:

> *'The programme is worth £1500 to the Local Authority. The value of the work is infinitely greater than that, but we've got to find the right home where the required capacity can be given to it and I think that's a challenge at the moment. This has become so big, and the amount of work required is so big and yet it doesn't cover its costs … so it's very much sort of beg,*

*borrow and steal resources to try and make it happen. Which is exciting in one way, and it creates opportunities, but that still comes at a time cost.'* (Cyfweliad â phartner arweiniol)

4.48 Mewn llawer o achosion, roedd partneriaid yr Ardaloedd Arloesi yn gwasanaethu ardal ddaearyddol ehangach na'r ardal beilot ac yn cael eu hariannu gan grantiau i ddarparu prosiect penodol, sy'n golygu mai prin yw'r adnoddau sydd ganddynt ar gyfer gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu. O ganlyniad, roeddent yn teimlo nad oeddent yn gallu parhau oni bai bod manteision pendant ac uniongyrchol, a allai, yng nghyd-destun y rhaglen waith, gymryd amser i ddod i'r amlwg.

*Effaith daearyddiaeth leol*

4.49 Roedd daearyddiaeth rhai ardaloedd yn her allweddol o ran darparu gweithgareddau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig/lled-wledig gyda phoblogaeth fwy ynysig neu wasgaredig. Mewn ardaloedd o'r fath, roedd y costau cyflawni yn uwch yn gyffredinol ac roedd trigolion yn wynebu rhwystrau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a chost o ran teithio i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae hyn hefyd yn cael ei amlygu fel mater hanfodol i'w ystyried wrth geisio sicrhau parhad a chynaliadwyedd y gweithgareddau hyn:

*'…there are some hidden costs that need to be found for the participants in some cases, for instance to cover childcare, transport and things like that - things that haven't been budgeted for. So we're having to find where we can get these little bits of money and that's a challenge, that's a real difficulty … There are definitely hidden costs of visiting a free museum. If you are more than walking distance away, then apart from transport costs, you also have to think about the cost of feeding your kids if there isn't a picnic area. So I'm always slightly wary of when people sort of say, well these people think these places aren't for us, well that's just an over generalisation. But the one thing that is very uniform, is the fact that we say that we're free to enter, free to visit, but the individuals we're targeting need to get to us, and we need to do something to bring them here*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

'*Transport is a major, major, major challenge in this area. Although we're only 40 minutes away from the city centre, it probably takes 2½ hours on*

*the bus, or on several buses, so that's a major hurdle that we have to find ways of overcoming*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

### Prosesau monitro a gwerthuso

4.50 Mae'r adran hon yn asesu pa mor effeithiol y mae'r dulliau monitro a gwerthuso a fabwysiadwyd gan bob Ardal Arloesi yn cyfrannu at nodau ac amcanion eu rhaglen waith a'r flwyddyn beilot yn gyffredinol. Mae tystiolaeth wedi cael ei chywain o'r cyfweliadau manwl gyda chynrychiolwyr y cyrff arweiniol a'r partneriaid diwylliannol ym mhob ardal, yn ogystal ag adolygiadau o ddogfennau monitro cysylltiedig.

4.51 Datgelodd y dystiolaeth a gasglwyd ar y prosesau monitro a gwerthuso a fabwysiadwyd gan yr Ardaloedd Arloesi fod ffocws cryf ar gysylltu gweithgareddau Ardaloedd Arloesi a chanlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y broses hon wedi cael ei chefnogi drwy gwblhau fframwaith canlyniadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf i ymchwilio i sut y gallai canlyniadau sefydliadol partneriaid gael eu cysoni. Er nad oedd pob gweithgaredd wedi'i gynllunio'n arbennig at y diben o gyflawni canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, roedd partneriaid wedi ceisio cysoni canlyniadau gweithgareddau presennol gyda chanlyniadau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

4.52 Datgelodd y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad fod yr Ardaloedd Arloesi yn wynebu rhai heriau wrth werthuso eu gweithgareddau a mynegodd y partneriaid nifer o bryderon allweddol ynghylch y ffordd y dyluniwyd y prosesau monitro a gwerthuso a'u dull o'u rhoi ar waith yn effeithiol.

4.53 Wynebodd nifer o Ardaloedd Arloesi heriau o ran annog sefydliadau partner i fabwysiadu diwylliant o fonitro a gwerthuso cadarn a thrwyadl. Amlygodd y gwerthusiad ddull amrywiol iawn o fonitro a gwerthuso canlyniadau ac effeithiau o fewn yr Ardaloedd Arloesi eu hunain (ar draws pob sefydliad partner) ac ar draws y chwe ardal. Roedd dryswch hefyd ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso o fewn y rhaglen - ar lefel leol, ardal unigol a rhaglen.

4.54 Her allweddol arall ar gyfer nifer o bartneriaid oedd meddwl pa fath o werthuso a fyddai'n ymarferol iddynt ei gyflawni eu hunain ac a fyddai'n gynaliadwy ymhell ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Cydnabu nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod gwahanol fathau o ymyriadau neu weithgareddau, a chyd-

destunau gwahanol, yn galw am wahanol offer a dulliau gwerthuso, ond nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r offer a'r dulliau mwyaf priodol i'w mabwysiadu. Pwysleisiodd nifer o bartneriaid arweiniol fod angen arweiniad a chymorth pellach felly drwy gydol y rhaglen er mwyn caniatáu i'r partneriaid diwylliannol nodi'r dulliau ymchwil mwyaf priodol ar gyfer eu prosiectau. Dylai hyn ystyried ffactorau megis argaeledd data, gan ddewis dulliau sy'n gymharol syml i'w gweithredu heb fod angen gwybodaeth, sgiliau ac offer arbenigol, a heb roi baich diangen ar sefydliadau a staff.

4.55 Wrth adolygu'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr Ardaloedd Arloesi drwy eu prosesau monitro a gwerthuso, roedd yn amlwg bod sawl ardal yn cael anawsterau wrth ddiffinio llwyddiant yng nghyd-destun eu gweithgareddau. Roedd yn ymddangos bod tuedd i fesur prosesau ac allbynnau, a pheidio â rhoi sylw digonol i ddangos effaith a darparu tystiolaeth o hynny. Er enghraifft, darparwyd data ar nifer yr unigolion sydd wedi cael hyfforddiant, ond cymharol ychydig o ddata manwl a ddarparwyd ar effaith yr hyfforddiant ar ymddygiad neu ganlyniadau'r unigolion. Yn aml, roedd newid yn cael ei fesur ar lefel unigol yn hytrach nag ar lefel y gymuned neu'r sefydliad ehangach, ac roedd hyn yn pwysleisio'r angen i ehangu ffocws y prosesau gwerthuso er mwyn mesur yr effaith gyffredinol.

4.56 Dywedodd y partneriaid hefyd ei bod yn aml yn anodd priodoli cyfraniadau penodol sefydliadau neu weithgareddau unigol i ganlyniad neu effaith a welwyd, yn enwedig yn achos ymyriadau cymhleth, aml-sectoraidd neu integredig. Pwysleisiodd nifer o sefydliadau fod darparu naratif manwl o deithiau a llwybrau dilyniant personol fel rhan o allbynnau prosiect wedi helpu i gyfiawnhau unrhyw ddadl ynghylch pam yr ystyriwyd bod yr ymyriad wedi arwain at newid a rôl benodol y sefydliad o ran dylanwadu ar y newid hwnnw.

4.57 Roedd prinder adnoddau i ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso gweithgareddau yn gŵyn gyffredin, gyda'r rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio bod eu sefydliadau yn aml yn methu â dyrannu adnoddau digonol ar gyfer monitro a gwerthuso, ac yn amrywio cyllidebau yn ôl amcanion a chwmpas y gweithgareddau a'r math o weithgareddau. Roedd y partneriaid yn teimlo, o gofio'r rôl bwysig y gall monitro a gwerthuso ei chwarae o ran gwella effeithiolrwydd ymyrraeth, bod cyllid digonol yn fuddsoddiad hanfodol a gwerth chweil.

# 5. Canfyddiadau'r Gwerthusiad o Ganlyniadau

## Cyflwyniad

5.1 Mae'r adran hon yn edrych ar effaith y gweithgareddau a wnaed yn yr Ardaloedd Arloesi yn ystod y rhaglen beilot. Mae'n edrych ar effaith yn ôl thema ac yn defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol am y gweithgareddau a gafodd eu rhoi ar waith fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi. Mae hyn yn cynnwys data a gasglwyd drwy fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf a'r prosesau monitro a gwerthuso unigol a gynhaliwyd gan y partneriaid diwylliannol. Defnyddiwyd adborth gan gyfranogwyr, lle mae ar gael, a chasglwyd tystiolaeth gan ystod o sefydliadau a gymerodd ran yn y rhaglen drwy gyfweliadau ansoddol manwl.

5.2 Dylid nodi, fodd bynnag, bod blwyddyn beilot yr Ardaloedd Arloesi wedi'i lansio ym mis Ebrill 2015. Roedd misoedd cyntaf y rhaglen yn cynnwys y cam cychwynnol o sefydlu pob Ardal Arloesi, gan sefydlu strwythur a gweithrediad pob partneriaeth leol, a datblygu sylfaen gadarn ar gyfer ei haelodaeth a'i rhesymeg, a nodi gweithgaredd i gefnogi canlyniadau'r Ardaloedd Arloesi. O ganlyniad, dechreuodd peth gweithgaredd ym misoedd yr haf, ond nodwyd rhagor o weithgaredd wrth i'r partneriaethau Ardaloedd Arloesi ddatblygu.

5.3 Mae hyn yn golygu ar gyfer y gweithgareddau hynny a ddechreuodd yn yr hydref neu sy'n dal i fod ar y gweill, mai dim ond canlyniadau cychwynnol ac effeithiau a ragwelir y mae modd eu crynhoi. Y rhesymau am hyn yw na fu digon o amser i olrhain effaith tymor hwy y gweithgareddau a gwblhawyd ac mae'r gwaith o gynllunio a chyflawni gweithgareddau diweddar a newydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen yn parhau. Mae hyn yn anochel gan mai dim ond naw mis sydd ers i'r rhaglen ddechrau.

5.4 Byddai'r gallu i olrhain canlyniadau ac effeithiau am 12 mis arall o leiaf yn ategu ac yn atgyfnerthu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam cynnar o gyflawni'r rhaglen beilot. Oherwydd y diffyg data monitro a gwerthuso dibynadwy nid yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch i ba raddau y gellir priodoli gwelliannau hunangofnodedig mewn canlyniadau i'r rhaglen beilot yn hytrach na ffactorau eraill. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma i lunio casgliadau dangosol am effaith y rhaglen.

5.5 Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cynnwys trosolwg o'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau allweddol sy'n cael eu cyflawni ym mhob Ardal Arloesi yn ystod y flwyddyn beilot, cyn ystyried y dystiolaeth o effaith yn y meysydd drwy ganolbwyntio ar themâu trosfwaol rhaglen yr Ardaloedd Arloesi, sy'n ymwneud â chanlyniadau ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lles y Gymuned a Lles Unigolion;
- Dysgu, Addysg a Sgiliau;
- Cyflogaeth ac Incwm.

5.6 Mae'r bedwaredd thema - 'Ymgysylltu â Rhanddeiliaid' eisoes wedi cael ei thrafod yn yr adran Gwerthusiad o'r Broses.

5.7 Dangosir y themâu a'r blaenoriaethau trosfwaol y mae'r Ardaloedd Arloesi yn gweithio tuag atynt o dan bob thema yn **Atodiad Dau**. Dylid nodi nad oedd rhaglen waith pob un o'r Ardaloedd Arloesi yn canolbwyntio ar bob un o themâu Cymunedau yn Gyntaf yn ystod y flwyddyn beilot. Nododd pob Ardal Arloesi y thema fwyaf perthnasol ar gyfer y gwahanol anghenion a nodwyd ym mhob ardal. Addaswyd dulliau neu weithgareddau hefyd i gefnogi'r thema. Ceir tystiolaeth, fodd bynnag, bod yr Ardaloedd Arloesi yn gweithio ar draws ystod eang o flaenoriaethau o dan bob thema, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y gweithgareddau diwylliannol a ddarperir yn cyfrannu at ystod eang o ganlyniadau ac effeithiau.

Mae pedair astudiaeth achos o'r Ardaloedd Arloesi wedi cael eu llunio o'r haen gyntaf o weithgaredd a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2015 a mis Ionawr 2016, ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn **Atodiad Tri**.

### Sicrhau canlyniadau ac effeithiau

5.8 Roedd partneriaid diwylliannol yn tynnu sylw'n aml at y ffaith bod gweithgareddau a oedd yn ymwneud â chynyddu ymgysylltiad â diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth, yn cael eu tanbrisio'n sylweddol o ran eu rôl wrth fynd i'r afael â chanlyniadau tlodi, oherwydd y ffocws ar ganlyniadau caled megis cymwysterau achrededig a chyflogaeth. Ategwyd hyn gan ganfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Broses Cymunedau yn Gyntaf (Ipsos MORI / Wavehill Consulting, 2015) a oedd yn awgrymu bod y pwyslais mwyaf ar dargedu gweithgareddau a blaenoriaethau gyda llwybrau clir i ddysgu ffurfiol

neu gyflogaeth. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, mai anaml yr oedd y 'llwybrau dilyniant' hyn yn syml.

5.9 Dywedodd nifer o bartneriaid diwylliannol y dylid gweld gwerth mewn ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol fel ffordd bwysig o drechu tlodi a gwella cyfleoedd bywyd ynddo'i hun, yn hytrach na chael eu hystyried fel carreg gamu at ganlyniad caled megis cael swydd neu ennill cymhwyster. Pwysleisiwyd cyfraniad gwerthfawr ymyriadau byr, dwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gyflwynir yn ystod taith yr unigolyn wrth drechu tlodi ac roedd teimlad ymysg y rhai a gyfwelwyd bod angen rhoi gwerth ychwanegol ar hyn:

> '*It's all too easy to assume that the arts and cultural activities, they're the soft stuff, the initial engagement, but it's not. I think that the opportunities for arts, culture and heritage to deliver on the anti-poverty agenda right across the spectrum from initial engagement and participation, right through to employment opportunities, are huge. It's not just about that initial participation, but it does provide a great opportunity for some of the things that we don't necessarily measure but those opportunities that allow families to learn and interact together. These are really important things*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

> '*Since 2004 we've done all sorts of mural projects, craft projects, design projects, music projects, video projects, pop music as part of Communities First, but it's been just sort of short, sharp interventions for other reasons rather than 'here's a programme of activity'. And I think it's always been challenged because it's very soft - being in a pop video is not going to reduce a debt, it's not going to give you a job, it's not going to put you on a training course directly. So it sits in that difficult position for Communities First - all the Ministers want is really hard, positive outcomes, but the only way to achieve those is to do a load of soft development work with human beings, and find ways of engaging, inspiring and giving people an aspiration to follow*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.10 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r dadleuon hyn yn amlwg yn y gweithgareddau sydd wedi eu rhoi ar waith fel rhan o'r rhaglen beilot. Er y rhoddwyd pwyslais cryf mewn rhai Ardaloedd Arloesi ar gyflawni canlyniadau caled drwy achredu hyfforddiant ac yn y blaen, mae hyn wedi mynd law yn llaw â phwyslais cryf ar wella sgiliau cyflogadwyedd unigolion. Mewn meysydd eraill, mae gweithgaredd wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau ehangach sy'n gysylltiedig

ag iechyd a lles a dysgu anffurfiol; gyda phartneriaid diwylliannol yn cydnabod y cyfraniad sylweddol posibl y gallant ei wneud at hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a hwyluso cyfranogiad ehangach yn y gymuned ac, yn ei dro, mewn dysgu ffurfiol a chyflogaeth yn y pen draw.

### Lles y Gymuned a Lles Unigolion

*Cyflwyniad*

5.11 Mae costau gofal iechyd cyhoeddus yn cynyddu, yn unol â newidiadau demograffig fel poblogaeth sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae pryder cynyddol ynghylch materion iechyd sy'n gysylltiedig â ffyrdd modern o fyw yn deillio o ddiffyg gweithgaredd corfforol, deiet afiach, ysmygu a phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Ar yr un pryd, mae gwell dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, dosbarth cymdeithasol, oedran ac ethnigrwydd (Tŷ'r Cyffredin, 2009).[66] Gall problemau iechyd meddwl hefyd gael effaith negyddol ar iechyd a lles. Yn benodol, ceir pryderon ynghylch lles meddyliol ac emosiynol plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n profi amddifadedd cymdeithasol ac economaidd (Y Sefydliad Iechyd Meddwl, 2013).[67]

5.12 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd newid yn y dull o ymdrin ag iechyd y cyhoedd yn y proffesiwn meddygol, gan symud o ganolbwyntio ar y model iechyd meddygol unigol i fodel yn y gymuned neu fodel cyfannol (O'Neill, 2010).[68] O ran y model olaf, ystyrir bod iechyd a lles yn cael eu dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys ffactorau'n ymwneud â ffordd o fyw unigolion, rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol ac amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach o fewn y gymuned leol (Dahlgren and Whitehead, 1991).[69] Mae mwy o gydnabyddiaeth wedi cael ei roi yn y blynyddoedd diwethaf i'r rôl y gall diwylliant a'r celfyddydau ei chwarae wrth gyfrannu at iechyd a lles. Mae'r dystiolaeth sy'n ategu hyn yn cynyddu, yn enwedig o fewn y sector amgueddfeydd, gan

---

[66] Tŷ'r Cyffredin (2009) *Health Inequalities: Third Report of Session 2008-2009*. Cyfrol 1. Llundain: Y Llyfrfa.

[67] Y Sefydliad Iechyd Meddwl (2013) *Mental Health Statistics*. [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.mentalhealth.org.uk [Fel ar: 15 Ionawr 2016].

[68] O'Neill, M. (2010) 'Cultural attendance and public mental health - from research to practice', Yn: *Journal of Public Mental Health*, Cyfrol 9, Rhifyn 4, Tudalennau 22-29.

[69] Dahlgren G. and Whitehead M. (1991) *Policies and Strategies to Promote Social Equity in Health*. Stockholm: Sefydliad Astudiaethau'r Dyfodol.

arwain at newid hollbwysig o ran meddylfryd mewn perthynas â pholisi ac ymarfer (Dodd and Jones, 2014).

5.13 Fodd bynnag, mae adnabod a mesur y berthynas rhwng effeithiau ymyriadau diwylliannol a chanlyniadau iechyd a chymdeithasol ar lefel y boblogaeth, yn gymhleth iawn. Yn wir, gall gwerthuso effaith gweithgareddau diwylliannol ar iechyd a lles unigolion fod yn broblem fawr ar gyfer rhaglenni bach, tymor byr, o gofio'r swm bach o gyllid sydd ar gael, cymhlethdod casglu data dibynadwy, ac anawsterau priodoli gweithgareddau rhaglen neu brosiect i welliannau yn iechyd a lles unigolion gan mai dim ond dros y tymor hwy y gellir mesur y rhain yn effeithiol. Yng ngoleuni'r anawsterau hyn, mae'r crynodeb hwn o dystiolaeth o newidiadau mewn iechyd a lles unigolion a chymunedau yn yr Ardaloedd Arloesi yn canolbwyntio ar y canlyniadau iechyd a lles mwy uniongyrchol. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar arsylwadau gan y cyfranogwyr a'r partneriaid diwylliannol yn ystod y flwyddyn beilot, a allai ddylanwadu ar y ffactorau lleol sy'n arwain at effeithiau ehangach ar iechyd a lles yn y tymor hwy. O'r data sydd ar gael nid yw'n bosibl darganfod i sicrwydd i ba raddau y gellir priodoli'r gwelliannau yn y canlyniadau hyn i weithgareddau'r rhaglen beilot.

5.14 Mae llawer o'r gweithgaredd o dan y thema hon yn canolbwyntio ar brosiectau a mentrau diwylliannol sy'n anelu at:

- hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol;
- annog dealltwriaeth o ymdeimlad o le, hunaniaeth a hanes a diwylliannau lleol;
- annog cymunedau i gydweithio i fwynhau eu cymunedau a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys.

*Gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol*

5.15 Amlygodd y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phartneriaid diwylliannol fod afiechyd yn broblem benodol ar draws y rhan fwyaf o'r Ardaloedd Arloesi. Gwelwyd bod cysylltiad rhwng hyn a llawer o'r ffactorau ffordd o fyw cyffredin sy'n ymwneud ag iechyd sy'n gysylltiedig â chymunedau difreintiedig - gan gynnwys deiet gwael, lefelau uchel o ysmygu, yfed gormod o alcohol a chymryd gorod o gyffuriau - sy'n cyfuno i greu lefelau uwch o salwch acíwt a salwch hirdymor. Dywedodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod eu cymunedau yn wynebu problemau economaidd-gymdeithasol mwy

hirsefydlog sy'n gysylltiedig â dirywiad ôl-ddiwydiannol (h.y. cyfraddau uchel o ddiweithdra hirdymor a phobl heb waith, a phroblemau iechyd hirdymor), a oedd yn cael effaith andwyol ar iechyd a lles cyffredinol y boblogaeth leol.

5.16 O'r chwe Ardal Arloesi, dywedodd dwy eu bod wedi blaenoriaethu a darparu gweithgareddau sy'n anelu at gyfrannu'n benodol at wella iechyd corfforol a meddyliol eu cymunedau targed yn ystod y flwyddyn beilot. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymarfer corff, megis teithiau tywys o amgylch canolfannau a lleoliadau diwylliannol penodol, a phrosiectau wedi'u targedu at grwpiau penodol o fewn y cymunedau y mae afiechyd corfforol neu feddyliol yn effeithio arnynt. Dylid pwysleisio hefyd bod gwella iechyd a lles meddyliol yn darged eilaidd neu'n thema sylfaenol i lawer o'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno yn yr Ardaloedd Arloesi eraill.

5.17 Er gwaethaf y ffaith bod y gweithgareddau a ddarparwyd o dan y thema hon yn gymharol fach o ran eu natur, eu cwmpas a'u hyd, roedd y partneriaid yn teimlo eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles yr unigolion a oedd yn cymryd rhan ynddynt mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

5.18 Dywedodd rhai partneriaid fod gweithgareddau Ardaloedd Arloesi wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o fanteision iechyd gweithgaredd corfforol. Mewn un ardal, llwyddodd ymweliad maes, a oedd yn cynnwys taith gerdded dywysedig egnïol o amgylch safle treftadaeth mawr i godi ymwybyddiaeth o fanteision iechyd gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored ac atgyfnerthu hynny, gan alluogi grŵp o 10 o ddynion o ardal ddifreintiedig yng nganol dinas - dynion a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir - i gael profiad uniongyrchol o'r manteision hyn. Dengys tystiolaeth arsylwadol ac arbrofol ehangach (gweler Adran Iechyd y DU, 2011[70]) y byddai cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol, megis y rhai a ddarparwyd drwy'r ymweliad hwn, yn ehangach a thros gyfnod hir, yn arwain at fanteision iechyd ychwanegol i'r cyfranogwyr. Hyd yn oed i'r rhai sy'n anweithgar ar hyn o bryd, mae cynnydd cymharol fach mewn gweithgaredd corfforol (hyd yn oed os yw'n llai na'r canllawiau presennol o 30 munud o weithgaredd corfforol cymedrol bum gwaith yr wythnos) yn gysylltiedig â rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn llawer o gyflyrau cronig, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon,

[70] Adran Iechyd y DU (2011) *Start Active, Stay Active: A report on physical activity from the four home countries' Chief Medical Officers*. Llundain: Adran Iechyd y DU. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/start-active-stay-active-a-report-on-physical-activity-from-the-four-home-countries-chief-medical-officers

strôc, diabetes math 2, rhai mathau o ganser ac iselder, yn ogystal â chynnig llawer o fanteision cadarnhaol ar gyfer iechyd a lles seicolegol.

5.19 Darparodd prosiectau unigol hefyd ddata ansoddol a oedd yn awgrymu bod gweithgareddau Ardaloedd Arloesi yn helpu i wella iechyd a lles meddyliol y cyfranogwyr. Er enghraifft, mewn Ardal Arloesi arall, dangosodd data monitro ac adborth a ddarparwyd gan grŵp o oedolion di-waith o gyfres o weithdai arlunio a chrefftau wedi'u harwain gan oriel gelf a'u hariannu gan yr Awdurdod Lleol, gyda chefnogaeth y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, gynnydd yn hunanhyder a lles y cyfranogwyr:

> "*I have really enjoyed it and it's been good to get out. It's made me feel more confident and I have made new friends.*" (Un o gyfranogwyr mewn prosiect Ardal Arloesi)

5.20 Canmolodd cyfranogwr arall y gweithdai am roi'r hyder iddo fynegi ei hun mewn ffyrdd creadigol; dywedodd ei fod wedi cael ysbrydoliaeth i wneud mwy o waith celf o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect.

5.21 Casglwyd data monitro a gwerthuso ar raddfa fach o'r gweithdai arlunio a chrefftau yn y cyfnodau cyn ac ar ôl y prosiect, er mwyn cofnodi unrhyw newidiadau yn lefelau hunanhyder a meddwl yn bositif y cyfranogwyr. Fel rhan o'r broses hon, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi pa mor gadarnhaol yr oeddent yn teimlo cyn dechrau ar y prosiect. Yn ystod y cam cychwynnol hwn, sgoriodd tri o'r pedwar cyfranogwyr eu hunain yn isel ar raddfa symudol o 1 i 10, gan roi sgoriau o 3, 4 a 6. Yn ystod y cam dilynol, roedd pob sgôr wedi cynyddu i 7, 9 a 10, yn y drefn honno. Yn ogystal, ymatebodd pob un o'r cyfranogwyr yn gadarnhaol pan ofynnwyd a oedd y prosiect wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd ddangos pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo cyn dechrau'r prosiect, a rhoddodd tri o'r pedwar cyfranogwyr sgôr isel iddyn nhw eu hunain ar raddfa symudol gyda sgoriau o 3, 4 a 6. Ar ôl cwblhau'r prosiect, rhoddodd yr un cyfranogwyr sgoriau o 7, 10 a 10 yn y drefn honno gan nodi eu bod yn teimlo bod eu hunanhyder wedi cynyddu o ganlyniad i'w cyfranogiad.

5.22 O'r dystiolaeth a gasglwyd, nid yw'n bosibl darganfod i sicrwydd a yw gwelliannau fel y rhain i'w priodoli i weithgareddau'r rhaglen ynteu i ffactorau eraill. Fodd bynnag, cyfeiriodd y partner diwylliannol a oedd yn gyfrifol am gydgysylltu'r gweithdai arlunio a chrefftau at yr effaith ar ddau unigolyn

penodol, a gwelwyd newidiadau ar draws nifer o feysydd o ran eu hyder a'u sgiliau personol a chymdeithasol. Yn benodol, pwysleisiodd y partner fod teimladau o hunan-werth ymhlith yr unigolion hyn yn amlwg yn uwch o ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect a pharhau i ymgysylltu, a chafodd hyn ddylanwad mawr a chadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles meddyliol cyffredinol. Myfyriodd y partner diwylliannol arweiniol ar brofiad personol un o'r unigolion ar y prosiect:

> "*The development in this one individual since the first session has been amazing. Since then, she's been to every single thing that we've done; she came out on all the Make Trips with us and has become a really active participant … She's become a key part of the group and very proactive. And she's gone on to do the floristry course as well, which has helped her a lot in terms of communication and self-confidence*." (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.23 Roedd Ardal Arloesi arall hefyd wedi blaenoriaethu canlyniadau iechyd a lles fel rhan o'i raglen waith ar gyfer y dyfodol. Gan ddefnyddio'r gwaith cychwynnol a wnaed yn y maes hwn, roedd wedi nodi bod lle i ddatblygu perthnasoedd a phartneriaethau newydd rhwng partneriaid y diwydiant diwylliannol a sefydliadau yn y sector cyhoeddus, yn enwedig asiantaethau a darparwyr yn y sector iechyd (h.y. Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd Lleol). Roedd y sefydliadau partner yn teimlo bod y diffyg ymgysylltu rhwng y sector iechyd a sefydliadau diwylliannol yn wendid penodol yn eu hardal yr oedd angen rhoi rhagor o sylw iddo.

5.24 Un agwedd yr oeddent yn gobeithio dylanwadu arni oedd gwella'r ddealltwriaeth o werth ymgysylltu mewn diwylliant i ganlyniadau iechyd a lles, yn enwedig y ddealltwriaeth ymhlith ymarferwyr iechyd sy'n gweithio ar lefel leol. Amlygwyd rôl diwylliant a'r celfyddydau wrth gyfrannu at ffurfiau newydd o 'ragnodi cymdeithasol' (hynny yw, y defnydd o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol cymunedol cyfranogol fel dull o hybu iechyd meddwl[71]) fel un maes posibl o weithgaredd ar gyfer y bartneriaeth.

5.25 Pwysleisiodd dau bartner arweiniol, ill dau yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, y rôl bwysig a chwaraeir gan weithgareddau

[71] I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd o 'ragnodi cymdeithasol' fel dull o wella iechyd a lles meddyliol unigolyn o fewn cymunedau, yn enwedig yn y cyd-destun gweithgaredd diwylliannol a chelfyddydol, gweler Brandling a House (2009); Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (2013); a Stickley ac Eades (2013).

diwylliannol (megis y rhai a ddatblygwyd o dan y thema iechyd a lles) o ran galluogi cyfranogwyr i wneud dewisiadau bywyd cadarnhaol mewn perthynas â'u hiechyd, eu haddysg a'u sefyllfaoedd ariannol. Trwy hyn datblygodd cyfranogwyr sgiliau 'hanfodol', megis cynnyddu eu hyder, eu cymhelliant a'u hunan-barch:

> '*I rai pobl sy'n profi tlodi caled, dim ond camu allan o'r drws yn gallu bod yn gyflawniad pwysig. If you measure that on a piece of paper, it doesn't look like much, but in reality it was a major achievement for that particular individual. So engaging in some initial soft activities, which might be of an arts and culture base, might go a very long way to getting people on a path of progression, and from there working with Communities First or other organisations to start to build on their role within the community and being able to support themselves. So sometimes, I think that some of the things that we don't necessarily put much value on in terms of hard outcomes and numbers, are equally, if not more important, than some of the things that we do find easy to measure, and therefore put an emphasis on measuring*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

> '*We've got to work with people to take them on their developmental journey, their engagement journey, their barrier removal … It'll be a major step forward if the Government really does back itself to explain and justify this emphasis on that bit of the journey, because nobody else does it. And the worry is that we get so economically focussed that we're fighting to get people into work who aren't work ready, and we just create this cycle of people getting a job and falling straight out of it because nobody thought about their literacy issues, nobody thought about their long-term medical health, mental health, their financial situation at home which means that they've lost their house. That's the multi-layered nature of poverty and unless we treat people like humans and do work like this over the long term, we cannot tackle poverty. So, I think we need to be more honest about the type of work that is required and then back the fact that there is a risk - you do have to fund things that are a bit odd, that don't quite fit, but if that's what the person needs to progress, that's how you change their life*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.26 Roedd partneriaid a gyfwelwyd yn teimlo bod tystiolaeth gynnar a gasglwyd o dan y thema hon yn dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd

a lles cyffredinol y cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ehangach yn awgrymu y byddai monitro ac adrodd yn fwy cyson yn rhoi darlun mwy cywir o'r effaith hirdymor. Mae Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd yn ei hadolygiad o'r celfyddydau, iechyd a lles (Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, 2013) yn dyfynnu gwaith ymchwil a wnaed gan Angus (2002)[72] sy'n argymell y dylai ymarfer gwerthuso yn y maes fod yn seiliedig ar fodelau iechyd a lles penodol (yn hytrach na modelau meddygol), gyda nodau a rhesymeg ar gyfer sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni. Mae gwerth y modelau hyn o ran darparu iaith gyffredin i ddisgrifio effaith a chanlyniadau'r gweithgareddau diwylliannol ar iechyd a lles, sy'n berthnasol i'r holl sectorau diwylliannol ac iechyd y cyhoedd, wedi cael ei amlygu mewn llenyddiaeth academaidd (gweler Dodd a Jones, 2014).

5.27 Mae offer a ddefnyddiwyd ac a brofwyd yn y DU yn cynnwys pecyn cymorth Mesuriadau Lles Amgueddfeydd Coleg Prifysgol Llundain a Graddfa Lles Meddyliol Prifysgolion Warwick a Chaeredin.[73] Datblygwyd y cyntaf i gofnodi newidiadau mewn teimladau cadarnhaol a negyddol drwy fesur y teimladau hyn cyn ac ar ôl gweithgaredd. Gofynnir i gyfranogwyr roi sgôr am sut maen nhw'n teimlo am bob emosiwn ar raddfa o 1 (‘ddim o gwbl’) i 5 (‘dros ben’). Gwerth y dull hwn yw ei fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cofnodi sut mae cyfranogwyr yn teimlo amdanynt hwy eu hunain cyn ac ar ôl gweithgaredd, yn hytrach na gofyn iddynt roi sgôr am y gweithgaredd ei hun. Ar ôl cyfuno hyn â dulliau ansoddol megis, er enghraifft, cyfweliadau ac arsylwi cyfranogwyr, gellid ymchwilio wedyn i eglurhad (os o gwbl) ynghylch pam roedd teimladau cadarnhaol a negyddol wedi newid neu beidio (ibid).

*Hyrwyddo hanes a diwylliant lleol*

5.28 Wrth drafod y gwaith yr oeddent yn ei gyflawni fel rhan o'r rhaglen beilot, cyfeiriodd nifer o'r partneriaid diwylliannol ar draws yr Ardaloedd Arloesi at yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth geisio cynnwys cymunedau difreintiedig mewn gweithgareddau diwylliannol. I lawer o'r cymunedau yr oeddent yn gweithio ynddynt, nid oedd diwylliant yn nodwedd amlwg o fywyd bob dydd. Fel y pwysleisiodd un partner arweiniol, nid oedd hyn yn syndod o

[72] Angus, J. (2002) *A review of evaluation in community based arts for health activity in the UK*. Llundain: Health Development Agency.

[73] I gael rhagor o wybodaeth ar ddatblygaid a defnydd Graddfa Lles Meddyliol Prifysgolion Warwick a Chaeredin gweler gwefan Ysgol Feddygol Prifysgol Warwick: http://www2.warwick.ac.uk/fac/med/research/platform/wemwbs/

ystyrie fod bod llawer o drigolion yn aml wedi ymgolli yn y gwaith o gynnal eu teuluoedd. Dywedodd nifer o'r partneriaid diwylliannol hefyd, yn enwedig y rhai o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn gweithio'n agos gyda'r cymunedau lleol a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen, y gellir priodoli'r diffyg ymgysylltu ehangach hwn â gweithgareddau diwylliannol i ffactorau megis natur rhwydweithiau cymdeithasol, hunaniaeth leol ac agweddau ehangach tuag at y gymuned, yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth, hyder ac amser.

5.29 Rhoddodd y rhai a gyfwelwyd dystiolaeth anecdotaidd i awgrymu, o ganlyniad i'r ffactorau hyn, bod unigolion o gymunedau economaidd-gymdeithasol difreintiedig yn aml yn wynebu amrywiaeth o gyfyngiadau sy'n eu hatal rhag manteisio'n llawn ar y cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sydd ar gael yn eu hardal leol a thu hwnt. Yn benodol, gwelodd un partner diwylliannol fod y stigma sy'n ymwneud â chymunedau penodol yn ei ardal ef yn gweithredu fel 'bathodyn' a oedd yn peri i drigolion lleol osgoi sefyllfaoedd cymdeithasol, megis cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol neu ymweld â lleoedd neu leoliadau y tu allan i'w cymuned leol, lle y byddai'n rhaid iddynt ddatgelu i eraill lle maent yn byw. Pwysleisiwyd bod y teimladau hyn o gywilydd yn tanseilio ac yn cyfryngu hunaniaeth unigol a chysylltiadau cymdeithasol. Gallant greu neu atgyfnerthu barn gyfeiliornus bod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn bethau sydd 'ddim ar eu cyfer nhw'.

5.30 Yn unol â hynny, roedd rhan sylweddol o raglenni gwaith nifer o Ardaloedd Arloesi yn canolbwyntio ar weithgareddau syml sydd wedi'u cynllunio i gynnig cyfleoedd i bobl o bob cefndir i ymgysylltu â'u hanes a'u diwylliant lleol. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y gweithgareddau hyn (a oedd yn amrywio o brosiectau a digwyddiadau sy'n dathlu cyfoeth diwylliannau, treftadaeth a hanes lleol) i ymweld â chymunedau eraill ac ardaloedd i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol neu hanes lleol wedi dylanwadu ar ddiddordeb cyfranogwyr yn hanes eu cymuned leol ac, yn arbennig, ar eu diddordeb mewn olrhain dylanwad gwahanol ddiwylliannau.

5.31 Er enghraifft, cyfeiriodd tair o'r Ardaloedd Arloesi yn benodol at y gwaith a wnaethpwyd, neu a oedd yn cael ei gyflawni, fel rhan o'u rhaglenni gwaith i annog cymunedau difreintiedig i gyfrannu at weithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol ag iddynt thema yn gysylltiedig â gwyliau a dathliadau blynyddol yn eu hardaloedd lleol. Roedd y rhain yn cynnwys ystod eang o berfformiadau cerddorol, drama a dawns, prosiectau celf ymarferol, a

gweithdai gwneud ffilmiau. Awgrymodd tystiolaeth anecdotaidd gan y partneriaid diwylliannol fod y gweithgareddau wedi bod yn llwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth trigolion lleol, yn enwedig plant a phobl ifanc, o dreftadaeth a diwylliant amrywiol y cymunedau lle maent yn byw.

5.32 Fel enghraifft, roedd un Ardal Arloesi wedi cyflwyno prosiect sy'n cynnig cyfleoedd i grŵp o 12 o bobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig mewn tair cymuned canol dinas i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai treftadaeth a gwneud ffilmiau, a oedd yn ymchwilio'n fanwl i ddylanwad diwylliannau hynafol Affricanaidd ar ddatblygiad cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig cyfoes yn eu hardal. Pwysleisiodd y partner arweiniol fod y cyfranogwyr, yn ystod y prosiect chwe mis, wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes cyfoethog eu hardal drwy ymweld â nifer o safleoedd treftadaeth yn y ddinas a'r cyffiniau. Roedd y cyfranogwyr hefyd wedi cael gafael ar gofnodion hanesyddol a gedwir mewn amgueddfa ac archif lleol, a chyf-weld â thrigolion lleol i gasglu gwybodaeth o hanesion llafar. Yna, defnyddiodd y cyfranogwyr y deunydd ymchwil a gasglwyd i ddatblygu a chynhyrchu ffilm ddogfen fer o'r enw 'Positive Identity - A Journey of Self-Discovery and Positive Awareness' a gafodd ei dangos mewn sinema leol ym mis Hydref 2015 i gyd-fynd â Mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r ffilm bellach yn cael ei defnyddio fel offeryn addysgol mewn ysgolion lleol, a chan grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol, fel ffordd o fynd i'r afael â rhai o'r mythau a chamddealltwriaeth ynghylch hanes pobl dduon.

5.33 Pwysleisiwyd bod fframio gweithgareddau'r Ardaloedd Arloesi o amgylch digwyddiadau diwylliannol lleol presennol yn y modd hwn yn ffordd o ddatblygu ymdeimlad cyffredin o le a hunaniaeth yn y cymunedau lleol. Roedd yn caniatáu i drigolion lleol ddylanwadu ar ganfyddiad pobl eraill o'r tu allan o'r hunaniaeth hon, a thrwy hynny herio'r stigma sy'n gysylltiedig â chymunedau difreintiedig penodol:

> '…*what we've been trying to do is to work with artists and find different ways in which people can have their own agency … So, that's another way in which maybe the Pioneer Area Initiative can help, because it actually provides resources to actually reveal, to make visible to outsiders an idea of a place that people may not have had previously. An idea of the assets too that people have; there are people who are creative, it has a rich history. And if working with the arts and heritage industries works to kind of change the idea of the particular place and the public's imagination, that*

*too will make a lot of difference to the people living there, because that stigma becomes embodied, it really does. And it has effects in terms of how they feel about themselves and their confidence to actually even apply for jobs outside the area because they feel that they're going to be discriminated against*.' (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.34 Yn ogystal, bu ymweliad maes â safle treftadaeth mawr mewn un Ardal Arloesi o gymorth i godi ymwybyddiaeth o asedau diwylliannol a threftadaeth lleol ac annog pobl i ymgysylltu â hwy, a dangos eu perthnasedd i gymunedau lleol a'u cysylltiad â hwy. Awgryma adborth ansoddol a gasglwyd gan y tîm Cymunedau yn Gyntaf ar ddiwedd y prosiect fod yr unigolion a gymerodd ran yn y gweithgaredd - pob un yn aelod o grŵp o ddynion lleol wedi'i anelu at unigolion a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir - yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu mwy am dreftadaeth cynhanesyddol eu hardal ac ymchwilio i archaeoleg yr Oes Haearn, yr Oes Rufeinig a'r oesoedd canol ar y safle:

"*I had a great day; it was really interesting to see the area the Time Team had excavated*."

"*Really enjoyed today's session, learnt loads of new things about the area's history*."

5.35 Yn yr un modd, disgrifiodd gwirfoddolwr mewn sefydliad diwylliannol cenedlaethol mawr mewn ardal arall sut yr oedd cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy crefftau, a oedd yn elfen o ddiwrnod i'r teulu a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, wedi cynyddu'r diddordeb mewn hanes lleol:

*"I wanted to give something back as I have no grandchildren and some free time. I really find the museum interesting, but I wouldn't have thought to volunteer there before I undertook a sewing course at the museum which I learnt about through Communities First … My volunteering role has even fuelled my interest in the area and I have since taken books out of the library on local history*."

5.36 Mae tystiolaeth hefyd bod y sesiynau hyfforddi digidol a ddarperir drwy'r Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol a lansiwyd mewn lleoliadau amrywiol fel rhan o'r flwyddyn beilot wedi cael eu defnyddio gan drigolion ar draws yr Ardaloedd Arloesi. Defnyddiwyd y Gorsafoedd Treftadaeth Digidol i rannu atgofion ar-lein am eu cymunedau, eu teuluoedd, pentrefi, trefi a dinasoedd cyfagos, diwydiannau lleol a thraddodiadau drwy uwchlwytho lluniau,

recordiadau sain, dogfennau, fideos a straeon i wefan Casgliad y Werin Cymru. Awgrymodd adborth gan gyfranogwyr fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiol o'r prosiect fod y gorsafoedd wedi annog diddordeb ehangach mewn hanes a diwylliant lleol ymysg trigolion nad oes ganddynt fel arfer fynediad i wybodaeth hanesyddol drwy offer digidol, neu nad oes ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i adalw neu uwchlwytho'r wybodaeth. Tynnwyd sylw hefyd at werth yr adnodd o ran dwyn ynghyd unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud gwaith ymchwil ac ymchwiliadau i hanes lleol a rhanbarthol:

> "*I learnt a lot about history and our culture and some useful things I can use by myself for future reference – it was very interesting and helpful*." (Cyfranogwr B)

> "*I enjoyed the course today learning about the history of Merthyr and other places*." (Cyfranogwr G)

> "*It was a really interesting and in-depth course - very eye-opening and I can't wait to get on with archiving*." (Cyfranogwr C)

*Cryfhau cydlyniad ac ymgysylltu â'r gymuned*

5.37 Yn gyffredinol, mae hawl pobl, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi, i gymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau polisi cyhoeddus yn cael ei derbyn yn eang. Fodd bynnag, mae ennyn cyfranogiad ac ymgysylltiad effeithiol mewn ffyrdd sy'n arwain at newidiadau gwirioneddol a chadarnhaol yn fater anodd a chymhleth (Ledwick, 2005).[74] Mae hyrwyddwyr datblygu cymunedol yn gweld cyfranogiad ac ymgysylltiad fel cyfrwng i alluogi unigolion a chymunedau sydd ar y cyrion i gael llais yn y broses ddemocrataidd, ac i chwarae rhan weithredol wrth ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Maent yn gweld dulliau datblygu cymunedol fel rhai sydd â'r potensial i effeithio ar newidiadau a fydd yn trechu tlodi, anghydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol ac yn unioni'r anghydbwysedd o ran pŵer wrth lunio polisïau (Sefydliad Joseph Rowntree, 2000).[75] Ymysg manteision y dull datblygu cymunedol y cyfeirir atynt yn gyffredinol mae grymuso a chyfranogiad gwell, rhaglenni a chanlyniadau gwell drwy

[74] Ledwick, M. (2005) *Community Development: A Critical Approach*. Llundain: Routledge.

[75] Sefydliad Joseph Rowntree (2000) *Neighbourhood Regeneration: Resourcing Community Involvement.* Bryste: The Policy Press.

gyfranogiad gweithredol cymunedau a ffocws ar y gymuned (Walker et al., 2011).[76]

5.38 Mae llawer o'r gweithgaredd sy'n ymwneud â gwella cydlyniant cymunedol yn yr Ardaloedd Arloesi yn canolbwyntio ar ddau ddull cyffredinol:

- prosiectau ac ymyriadau wedi'u cynllunio'n benodol i ddod â phobl at ei gilydd, ac ymweliadau â safleoedd diwylliannol a threftadaeth a digwyddiadau rhannu gwybodaeth;
- cynnwys unigolion yn uniongyrchol yn y broses o flaenoriaethu anghenion a phryderon lleol a dylunio a gweithredu prosiectau yn y gymuned o ganlyniad i hynny.

5.39 Ceir rhai enghreifftiau o sut y cafodd gweithgareddau Ardaloedd Arloesi ddylanwad cadarnhaol ar gydlyniant cymunedol drwy helpu i ddatblygu a gwella rhwydweithiau cymdeithasol yn y cymunedau a dargedwyd fel rhan o'r rhaglen ac ar draws ardaloedd daearyddol.

5.40 Mewn un Ardal Arloesi, roedd y partneriaid yn teimlo bod gweithgareddau arlunio a chrefftau wedi helpu i gynyddu ymgysylltiad cymdeithasol ymysg unigolion sy'n cael anawsterau oherwydd rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig neu unigedd cymdeithasol:

> "*Another thing that we've started to do is a creative floristry course, in partnership with colleagues in Communities First. It was an idea that came from one individual on one of our initial drawing courses. It was actually through his initial engagement with an early drawing course that the drawing sessions actually started, because he was interested in demonstrating craft activities to the group. So he started to lead some sessions and then as a result of that, and as he built up his confidence, he started to think about how he might use his skills*." (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.41 Yn yr un modd, mewn ardal arall, bu cyfres o ymweliadau â safleoedd a lleoliadau diwylliannol a threftadaeth, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd a ysgogwyd yn sgil y rhaglen, o gymorth i grŵp o drigolion a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch newydd yn eu hardal leol a chreu cysylltiadau newydd gydag unigolion o gymuned arall sy'n

---

[76] Walker, A.; Sinfield, A. a Walker, C. (2011) *Fighting Poverty, Inequalities and Injustices: Maniffesto a ysbrydolwyd gan Peter Townsend*. Bryste: The Policy Press.

wynebu heriau cymdeithasol tebyg (h.y. ystadau cyngor mawr gyda threftadaeth gyfoethog ar garreg eu drws). Dangosodd mewnwelediadau a myfyrdodau a rannwyd gan arweinydd y prosiect yn ystod y cyfweliadau fod yr ymweliadau wedi hwyluso mwy o gyd-ddealltwriaeth o brofiadau cyffredin o dlodi.

### Dysgu, Addysg a Sgiliau

5.42 Mae incwm ac amddifadedd materol ynddynt eu hunain yn ddylanwadau pwysig ar ganlyniadau addysgol, yn enwedig i deuluoedd difreintiedig iawn sy'n byw mewn tlodi ac anfantais am gyfnod maith (Waldfogel a Washbrook, 2010).[77] Gall amddifadedd materol ddylanwadu ar ganlyniadau addysgol mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft, drwy leihau nifer yr adnoddau addysgol y gall teuluoedd eu darparu ar gyfer eu plant, a thrwy gael effaith andwyol ar amgylchedd y cartref. O ganlyniad, mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn debygol o golli tir mewn llythrennedd pan fyddant yn ifanc, a gall hyn gael sgil-effaith ar eu haddysg a'u dysgu (Atkinson a Mason, 2014).[78] Mae'n gyffredin hefyd i amddifadedd gael ei gysylltu â nifer o ffactorau anuniongyrchol eraill sy'n gallu dylanwadu ar ganlyniadau plant. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd gwael; lefelau uchel o straen yn y teulu; lefelau isel o addysg ymysg rhieni a lefel isel o ymwneud ag addysg eu plant; lefelau isel o gyfalaf diwylliannol a chymdeithasol; a dyheadau isel. Gall incwm isel hefyd gael effaith andwyol ar les rhieni, sydd yn ei dro yn effeithio ar ansawdd eu dulliau rhianta. Mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar y teulu ac yn gallu arwain at broblemau hirdymor gyda datblygiad addysgol ac emosiynol plant (Gregg a Goodman, 2010).[79] Yn ogystal, mae ffactorau diwylliannol a chymdeithasol yn rhan o'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chanlyniadau addysgol gwael. Er enghraifft, mae plant o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o gael mynediad i rwydweithiau cymdeithasol sy'n cynnig ysbrydoliaeth a chyfleoedd.

---

[77] Waldfogel, J. a Washbrook, E. (2010) *Low income and early cognitive development in the UK: A report for the Sutton Trust*. Llundain: Ymddiriedolaeth Sutton.

[78] Atkinson, R. a Mason, C. (2014) *Review of literature around engagement with young people from disadvantaged background*. Llundain: Ymddiriedolaeth Wellcome.

[79] Gregg, P. a Goodman, A. (2010) *Children's Educational Outcomes: the role of attitudes and behaviours, from early childhood to late adolescence*. Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Ariannol.

5.43 Mae llawer o'r gweithgaredd diwylliannol sy'n gysylltiedig â dysgu a datblygu sgiliau yn canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, gan gynnwys:

- hyrwyddo dysgu ymysg y teulu ac ymwneud rhieni ag addysg eu plant;
- cefnogi plant a phobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol a hyrwyddo mwynhad o ddysgu;
- cefnogi dysgu gydol oes a gwella sgiliau bywyd fel oedolyn (gwell sgiliau llythrennedd ymhlith oedolion).

5.44 Ymdriniodd yr Ardaloedd Arloesi â'r themâu hyn mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft darparu cyfleoedd i ysgolion mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan lefelau uchel o dlodi ymgysylltu â diwylliant fel rhan o'r amgylchedd dysgu ffurfiol, a chyfleoedd dysgu mwy anffurfiol ar lefel gymunedol, wedi'u teilwra i ddod â grwpiau penodol o'r gymuned ynghyd i wella sgiliau a manteisio ar gyfleoedd dysgu newydd.

*Mwy o ddefnydd o adnoddau diwylliannol fel offer ar gyfer dysgu ffurfiol*

5.45 O blith y chwe Ardal Arloesi, dywedodd pedair ohonynt eu bod wedi nodi ysgolion penodol i fod yn safleoedd allweddol i ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau ehangach y plant ac wedi cynnwys 'addysg a dysgu' fel thema allweddol yn eu rhaglen waith. Yn ogystal â gweithgareddau a ddatblygwyd yn annibynnol yn yr Ardaloedd Arloesi, cymerodd nifer sylweddol o leoliadau ar draws yr Ardaloedd Arloesi ran yn y 'Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd' cenedlaethol a gydgysylltwyd gan yr elusen Kids in Museums i annog mwy o fynediad i Amgueddfeydd ar gyfer plant a'u teuluoedd a'u hannog i ymgysylltu'n fwy ag Amgueddfeydd. Ymysg y gweithgareddau cyffredin roedd ymweliadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd ag amgueddfeydd, archifau a safleoedd treftadaeth lle y rhoddwyd cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd ymarferol a helpu i redeg y sefydliad am y diwrnod. Yn 2015-16, cefnogodd Kids in Museums weithgaredd ychwanegol yn yr Ardaloedd Arloesi.

5.46 Mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod gweithgaredd Ardaloedd Arloesi a gyflwynwyd o dan y thema dysgu wedi annog cynnydd yn y defnydd o adnoddau a gedwir gan sefydliadau diwylliannol fel offer ar gyfer dysgu ffurfiol. Mewn un Ardal Arloesi, roedd ysgol gynradd wedi gweithio'n agos â lleoliad diwylliannol lleol i gynllunio a chyflawni prosiect cydweithredol i gefnogi'n uniongyrchol y gwaith o gyflawni cwricwlwm Hanes Cyfnod

Allweddol 2, gyda ffocws penodol ar hanes lleol a hanes Cymru fel rhan o gwricwlwm Cymru. Nodwyd yn y dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan y partneriaid diwylliannol mewn rhai o'r Ardaloedd Arloesi pa mor ddefnyddiol oedd y cofnodion hanesyddol, y ffotograffau a'r archifau hanes llafar a ddefnyddiwyd gan blant ysgol yn ystod ymweliadau niferus â'r lleoliadau diwylliannol, yn enwedig o ran gwella'r profiad dysgu. Roedd hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth ymhlith llawer o'r disgyblion o hanes eu cymuned leol a'r ffactorau a oedd wedi dylanawdu ar ei ddatblygiad wedi'i hwyluso gan gyfleoedd i ddefnyddio'r ddealltwriaeth newydd hon mewn lleoliad nad oedd yn lleoliad addysgol. Disgrifiodd un ysgol sut yr oedd prosiect yn canolbwyntio ar y gymuned leol wedi helpu disgyblion i roi cyd-destun i'w dysgu - o ganlyniad, roedd y gweithgareddau yn berthnasol ac yn ystyrlon i'w bywydau bob dydd.

5.47 Roedd cyfweliadau gyda nifer o'r partneriaid Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn rhan o'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn dangos tystiolaeth anecdotaidd a oedd yn awgrymu bod llawer o'r disgyblion wedi dangos gwelliannau ar draws nifer o sgiliau allweddol sy'n sail i'r cwricwlwm; gan gynnwys iaith, llythrennedd a rhifedd, cyfathrebu, y defnydd o dechnoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill, gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain a datrys problemau. Er enghraifft, dywedodd un ysgol fod yr ymweliadau wedi caniatáu i ddisgyblion ehangu eu geirfa, gan ddefnyddio eu sgiliau iaith mewn lleoliad gwahanol a datblygu'r hyder i ryngweithio â grŵp ehangach o bobl. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid oes modd darganfod i sicrwydd i ba raddau y gellir priodoli'r gwelliannau yn y canlyniadau hyn i weithgareddau'r rhaglen beilot.

*Caffael sgiliau*

5.48 Mae tystiolaeth hefyd i ddangos bod gweithgareddau Ardaloedd Arloesi wedi helpu nifer o oedolion i ddatblygu sgiliau creadigol ac ymarferol newydd. Nodwyd datblygu sgiliau ymarferol newydd mewn celf a chrefft, gwaith coed a ffotograffiaeth yn y dystiolaeth ansoddol a meintiol a gasglwyd o nifer o Ardaloedd Arloesi. Roedd un ardal wedi cynllunio a chyflwyno cyfres o gyrsiau ymarferol byr yn y flwyddyn beilot wedi'u cynllunio i addysgu sgiliau sylfaenol, ymarferol mewn ffotograffiaeth, gwnïo a gwaith coed. O blith y 29 o

gyfranogwyr a gwblhaodd y cyrsiau, aeth 14 ymlaen i gael achrediad lefel mynediad ffurfiol a chyflwynodd wyth arall lyfrau gwaith i'w hasesu.

5.49 Mewn ardal arall, dangosodd adborth gan gyfranogwyr ar brosiect arlunio a chrefftau, a gasglwyd gan y partner arweiniol fel rhan o'r broses werthuso ar ôl y prosiect, gynnydd yn eu gwybodaeth am ystod o dechnegau a sgiliau celf a chrefft a'u profiad ohonynt:

> *"It's been great to learn about different types of art and techniques – it doesn't always have to be pencil and paper. I think I'll be quite sad that this is the last one, but hats off to the artists – they've been fantastic and let's hope we can remember these experiences and just carry on creating art and hopefully we'll have more opportunities to do that as well."*
>
> *"I learnt more techniques and developed new skills"*

*Creu profiadau cadarnhaol o leoliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ymhlith grwpiau difreintiedig*

5.50 Ceir tystiolaeth ynghylch i ba raddau y mae'r rhaglen wedi creu profiadau cadarnhaol o leoliadau diwylliannol a threftadaeth ymysg grwpiau difreintiedig ym mhob un o'r ardaloedd. Ceir cryn dystiolaeth ansoddol yn y cyfweliadau ag arweinwyr prosiectau a'r partneriaid diwylliannol bod gweithgareddau'r Ardaloedd Arloesi, mewn llawer o ardaloedd, wedi hwyluso mynediad i ystod o leoliadau diwylliannol a threftadaeth megis amgueddfeydd, safleoedd hanesyddol a chanolfannau celfyddydol ar gyfer unigolion na fyddent fel arfer wedi ymweld â lleoliadau o'r fath. Mewn un ardal, disgrifiodd un partner Cymunedau yn Gyntaf sut yr ysgogodd ymweliad â safle treftadaeth lleol gan grŵp o ddynion a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, a drefnwyd fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, ymweliad dilynol gan y cyfranogwyr i arddangosfa genedlaethol fawr - rhywbeth yr oedd y partner yn teimlo na fyddent wedi'i wneud fel arall o ganlyniad i gyfyngiadau'n ymwneud ag arian a thrafnidiaeth. Gellid olrhain effaith hirdymor y gweithgareddau hyn er mwyn penderfynu i ba raddau y mae'r gweithgareddau wedi arwain at fwy o ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol ac annog cyfranogwyr i ymgysylltu â gweithgareddau tebyg a chymryd rhan ynddynt yn annibynnol. Byddai hefyd o gymorth i ddangos i ba raddau y mae'r gefnogaeth gychwynnol 'a gynorthwyir' yn bwysig o ran helpu cyfranogwyr i gymryd y camau allweddol sy'n eu helpu i symud ar hyd y llwybr tuag at annibyniaeth / dysgu'n annibynnol.

5.51 Mae yna hefyd dystiolaeth ansoddol bod gweithgareddau'r Ardaloedd Arloesi wedi helpu i ddarparu 'profiadau cyntaf' gwerthfawr i nifer o unigolion o'r cymunedau targed. Awgrymodd adborth anecdotaidd a roddwyd i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf gan ysgolion a gymerodd ran mewn gweithgareddau 'Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd' ar draws yr Ardaloedd Arloesi, nad oedd llawer o'r plant a'r teuluoedd dan sylw wedi ymweld ag amgueddfa neu leoliadau diwylliannol a threftadaeth tebyg o'r blaen. Felly roedd y 'Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd' wedi helpu i gyflwyno'r unigolion hyn i amgylchedd newydd, mewn ffordd gadarnhaol. Dywedodd un partner Cymunedau yn Gyntaf y byddai parhad gweithgareddau o'r fath yn yr ardal leol yn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd a chymunedau o werth ymgysylltu â diwylliant, fel rhan o amgylchedd dysgu ac amgylchedd y cartref, a dileu unrhyw rwystrau canfyddedig i weithgareddau diwylliannol.

5.52 Mewn ardal arall, soniodd partneriaid diwylliannol, a gyfrannodd at ddiwrnod i'r teulu a gynhaliwyd mewn lleoliad diwylliannol cenedlaethol mawr mewn un ardal, yn frwd am sut y bu i'r gweithgareddau a ddarparwyd fel rhan o'r diwrnod roi profiad 'hwyliog, lliwgar a chynhwysol' newydd i'r teuluoedd. Yn fwy penodol, dywedodd dau bartner (un o Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf ac un arall o'r Awdurdod Lleol) bod rhai o'r teuluoedd bellach yn teimlo'n gyfforddus yn ymweld â'r lleoliad ac yn ymchwilio i'r adnoddau sydd ar gael heb i'r tîm Cymunedau yn Gyntaf fod yn bresennol. Roedd hyn yn dangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cymunedol ehangach o effeithiau cymdeithasol cadarnhaol y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn eu hardal a'u perthnasedd iddynt:

> "*The feedback we got from the parents was that all the children really enjoyed the session. Most commented that they had not been to the museum before, however they won't be afraid to walk in on their own now having visited it within a group*." (Cyfweliad â phartner arweiniol)

> "*The Museum have been very helpful as they've been able to provide access to activities that otherwise wouldn't have been available to many of the clients that we work with. Many of our clients do not visit museums as they have preconceived ideas as to what a museum is and wouldn't feel comfortable visiting them. By coming down on arranged visits, it has enabled them to visit the museum and see what additional activities take place, along with what the museum currently offers*". (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.53 Roedd y prosiect Llofnod Dysgu Teulu a oedd yn cael ei weithredu gan un Ardal Arloesi yn rhoi mynediad i ystod eang o brofiadau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol i deuluoedd Cymunedau yn Gyntaf fel ffordd o'u cefnogi i ddarparu amgylchedd dysgu mwy cadarnhaol yn y cartref yn fwy cadarnhaol i'w plant. Gan fod y prosiect ar gam cynnar adeg y gwerthusiad, dim ond awgrymu canlyniadau ac effeithiau posibl y mae modd inni ei wneud ar y cam hwn. Er gwaethaf hyn, mae data a gasglwyd gan Brifysgol Bangor fel rhan o'r gwerthusiad o weithgareddau blaenorol sy'n ymwneud â'r broses Llofnod Dysgu Teulu, ynghyd â thystiolaeth anecdotaidd a ddarparwyd gan y partneriaid diwylliannol cysylltiedig, yn tynnu sylw at werth posibl y dull o ran gwella canlyniadau ar gyfer plant, yn enwedig y rhai o gymunedau o amddifadedd; yn enwedig mewn perthynas â gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, ymgysylltu â'r teulu, yr ysgol a'r gymuned, dealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu yn y teulu, ac amlygiad i ddiwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau.

5.54 Caiff y safbwyntiau hyn eu hategu gan dystiolaeth o'r llenyddiaeth polisi ac academaidd (Gutman a Feinstein, 2007[80]; Sylva et al, 2004[81]; Desforges ac Abouchaar, 2003[82]). Mae’r llenyddiaeth ynn awgrymu bod ymwneud rhieni ag addysg, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar, yn cael mwy o effaith ar les a chyflawniad plant hyd 16 oed o leiaf nag unrhyw ffactor arall, megis incwm y teulu, addysg rhieni neu amgylchedd yr ysgol.

5.55 Mae gwerth posibl y prosiect hwn, ynghyd â'r gweithgareddau eraill sy'n cael eu cyflawni o dan y thema hon, yn cael ei gefnogi ymhellach gan ymchwil a wnaed gan Scherger a Savage (2010) i ymchwilio i'r berthynas rhwng cymdeithasoli diwylliannol, cyrhaeddiad addysgol a symudedd cymdeithasol pontio'r cenedlaethau. Gan ddefnyddio data o'r Arolwg Cymryd Rhan, dengys yr ymchwil bod rhan o effaith dosbarth cymdeithasol rhieni ar gyrhaeddiad addysgol yn deillio o rannu 'cyfalaf diwylliannol'. At hynny, ystyriwyd hefyd

[80] Gutman, L. a Feinstein, L. (2007) *Parenting behaviours and children's development from infancy to early childhood: Changes, continuities, and contributions* [Wider Benefits of Learning Research Report No. 22], Llundain: Sefydliad Addysg.

[81] Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., Taggart, B., Smees, R., Dobson, A., Jeavons, M., Lewis, K., Morahan, M. a Sadler, S. (2004) *The Effective Provision of Pre-school Education (EPPE) project: A longitudinal study funded by the DfEE (1997-2003).* Llundain: Sefydliad Addysg.

[82] Desforges, C. ac Abouchaar, A. (2003) *The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment: A review of literature*. Llundain: Cyhoeddiadau yr Adran Addysg a Sgiliau.

bod dod i gysylltiad â chyfalaf diwylliannol (drwy, er enghraifft, fynd i amgueddfeydd/orielau celf, perfformiadau theatr/dawns/cerddoriaeth glasurol, safleoedd o ddiddordeb hanesyddol, a llyfrgelloedd yn ystod plentyndod) ac i ba raddau yr oedd rhieni neu oedolion eraill yn annog plant i ddarllen llyfrau neu fod yn greadigol weithgar mewn gwahanol feysydd celfyddydol, llenyddiaeth a cherddoriaeth, yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad addysgol. Yn yr un modd, awgrymodd yr ymchwil hefyd fod ymatebwyr sydd wedi profi dwysedd uwch o gymdeithasoli diwylliannol yn fwy tebygol o symud i ddosbarth cymdeithasol uwch.

*Pwyslais cynyddol yn y sector diwylliannol a threftadaeth ar dargedu grwpiau difreintiedig a chynyddu dealltwriaeth o'u hanghenion*

5.56 Dangosodd y cyfweliadau gyda'r sefydliadau diwylliant a threftadaeth eu hawydd a'u huchelgais i ymgysylltu ymhellach â chynulleidfaoedd newydd anodd eu cyrraedd. Dywedodd nifer o bartneriaid diwylliannol eu bod, drwy ymgymryd â'r gweithgareddau Ardaloedd Arloesi, wedi meithrin gwell dealltwriaeth bod ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn rhan bwysig o'u gwaith, yr oeddent yn barod i fuddsoddi amser ac adnoddau ynddo. Dywedodd nifer o bartneriaid diwylliannol hefyd eu bod wedi datblygu eu gwybodaeth am anghenion a diddordeb plant a phobl ifanc. Roeddent yn gallu myfyrio ar y gweithgareddau, gwella eu harlwy diwylliannol ar gyfer y grŵp hwn, addasu eu harferion gwaith i ddod o hyd i ffyrdd newydd, mwy effeithiol o annog plant i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, a nodi meysydd pellach o waith a chydweithio posibl. O ganlyniad, roedd eu sefydliadau'n dechrau meddwl yn fwy strategol am gyfleoedd i annog a chefnogi plant a phobl ifanc a fyddai'n elwa fwyaf ar brofiadau diwylliannol i ymweld â'u lleoliadau a chyfranogi ynddynt.

**Cyflogaeth ac Incwm**

*Cyflwyniad*

5.57 Mae'n bwysig nodi mai prin yw'r dystiolaeth o effaith gweithgareddau Ardaloedd Arloesi ar gyflogaeth a'r economi ar hyn o bryd. Mae'r cyfnod byr ers cyflwyno gweithgareddau a phrosiectau o dan y rhaglen beilot, gyda llawer ohonynt ond wedi dechrau yn ystod haf 2015, a'u ffocws ar sefydlu 'llwybr dilyniant' (sydd yn aml yn ei gwneud yn ofynnol cymryd rhagor o gamau cyn cael cyflogaeth) yn golygu ei bod yn rhy gynnar i lunio casgliadau pendant ar effaith o dan y thema hon - nid yw'r data ar gael neu dim ond yn y

tymor hir y gellir eu darparu. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth galonogol yn dod i'r amlwg o'r asesiad cychwynnol o ganlyniadau o dan y thema hon.

*Themâu a gweithgareddau*

5.58 Roedd llawer o'r gweithgaredd sy'n ymwneud â chyflogaeth ac incwm yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- gwerthfawrogi cyfranogiad diwylliannol fel ffordd o wella cyfleoedd bywyd a hyder;
- hyrwyddo profiad gwaith a sgiliau cyflogadwyedd ymysg oedolion;
- lleihau diweithdra ac ymddieithrio ymysg pobl ifanc;
- hyrwyddo cynhwysiant digidol.

*Hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd*

5.59 Mae data a ddarparwyd ar gyfer y gwerthusiad yn dangos bod y rhaglen beilot yn cefnogi ystod eang o weithgareddau arloesol, diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol, wedi'u hanelu at wella cyflogadwyedd unigolion o gymunedau difreintiedig (yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir) a'u cefnogi ar hyd eu 'llwybrau dilyniant' i (ail)ymgysylltu â'r farchnad lafur a chyflogaeth yn y pen draw.

5.60 O fewn y prosiectau a'r gweithgareddau a gyflwynwyd, roedd ffocws ar feithrin gallu a chefnogaeth; datblygu sgiliau craidd; darparu cyfleoedd ar gyfer addysg ffurfiol; uwchsgilio ac ailsgilio sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant; ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr; ac annog gwirfoddoli fel llwybr i gyflogaeth.

5.61 Roedd ffocws cryf ar achredu sgiliau, gyda gweithgareddau yn canolbwyntio ar ddarpariaeth yn unol â lefelau cwrs a ddiffiniwyd (h.y. lefel mynediad, Lefel 1: cyflwyniad, i Lefel 3: cyfwerth â Safon Uwch) ar draws ystod o ddarparwyr (gan gynnwys Gwobrau'r Celfyddydau ac Agored Cymru.)

5.62 Roedd un Ardal Arloesi wedi datblygu a darparu cyrsiau hyfforddi achrededig fel rhan o'i rhaglen waith, gyda'r nod o gynyddu a gwella sgiliau a hyder, yn ogystal â symud cyfranogwyr yn nes at gyflogaeth, addysg bellach a hyfforddiant. Llwyddodd y cyrsiau i ddenu dros 40 o gyfranogwyr, yn amrywio o 10 i 50 oed, drwy weithgareddau strwythuredig yn ymwneud â gwneud ffilmiau, ffotograffiaeth ddigidol, gwnïo a gwaith coed. Pan gynhaliwyd y

gwerthusiad, roedd 27 o gyfranogwyr wedi ennill tystysgrif Lefel Mynediad yn seiliedig ar gredydau a 5 o gyfranogwyr eraill wedi cyflwyno llyfrau gwaith i'w hasesu.

5.63 Dangosodd y dystiolaeth ansoddol o'r cyfweliadau gyda'r partneriaid arweiniol, ynghyd â'r allbynnau o'r cyrsiau fod y profiadau eang a gafwyd gan y cyfranogwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cyflogadwyedd. Er enghraifft, llwyddodd ffilm yn dogfennu profiadau grŵp o ddysgwyr sy'n oedolion (a gymerodd ran mewn cyfres o weithdai gwneud ffilmiau wedi'u cynnal gan elusen, a'u harwain gan artist a oedd yn gweithio yn un o'r Ardaloedd Arloesi) i gofnodi'r newidiadau cadarnhaol a nodwyd gan y cyfranogwyr o ganlyniad i'r cwrs.

5.64 Roedd yr 14 o gyfranogwyr a gyfrannodd at y ffilm yn cytuno eu bod wedi elwa ar y cwrs gan fynegi hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol. I nifer o gyfranogwyr, roedd y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu ymarferol gydag offer modern ar gyfer gwneud ffilmiau digidol yn brofiad newydd iddynt a rhoddodd y cyfle iddynt ddatblygu sgiliau ymarferol mewn meysydd megis cynhyrchu ffilmiau, technegau fideo ac ysgrifennu byrddau stori a sgriptiau. O ganlyniad, maent yn teimlo'n fwy hyderus yn eu galluoedd eu hunain, yn enwedig o ran eu gallu i ddysgu:

> '*I now feel a lot more confident using a video camera which I've never used in my life before, because of the training that's been delivered. It's been really good for that reason. Using a programme like final cut, which to me was like learning Mandarin, but within four days I know how to do it now – it's just clicked. So, that's amazed me, actually how quickly I've taken to it*.' (Cyfranogwr C)
>
> '*I didn't know I could learn so much in four days – I didn't know I had a brain that could absorb so much!*' (Cyfranogwr J)

5.65 Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo hefyd eu bod yn fwy clir am yr hyn yr oeddent eisiau ei wneud mewn bywyd o ganlyniad i gwblhau'r cwrs. Roedd llawer yn siarad yn frwd am ddysgu neu hyfforddiant pellach:

> '*I thought it was gonna be pretty boring, but I've gotta be honest I've really enjoyed it. I've got to the point where I can't wait to get back, and the day is just flying by. It's definitely something I've really enjoyed. In the future I'd like to do something like this again, do another course and see where it*

*goes. I really enjoyed the acting part of it and would like to carry on with it*.' (Cyfranogwr D)

'*We've all really enjoyed and we've all got along, so I'll definitely do it again in the future. So hopefully something pops up again soon*.' (Cyfranogwr F)

5.66 Yn ogystal, ceir enghreifftiau o ddatblygu sgiliau 'beirniadol' a ystyrir yn hanfodol i ddatblygiad perthnasoedd gwaith effeithiol a gweithio fel rhan o dîm, a dywedodd nifer o gyfranogwyr fod y cwrs wedi eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol. Yn benodol, roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan yn effeithiol fel aelod o dîm a dangos empathi a datblygu perthynas gyda chyd-gyfranogwyr, cyd-drafod, gwneud penderfyniadau, rheoli amser yn effeithlon a chymryd cyfrifoldeb dros gyflawni tasg gydweithredol:

'*We've had a lot of creative minds (working together) as well, so it's like we're all bouncing ideas off each other. It's flowed really well. That requires a lot of team-work, which I think that has been in abundance on this course – we've all really clicked well as a team*.' (Cyfranogwr C)

'*We're all very different people with different personalities, but we've all come together as a group*.' (Cyfranogwr G)

'*We've all respected each other's ideas and that's been rewarding when you see the final production. It's really refreshing learning from other people's skills and putting them all together and making a joint venture work*.' (Cyfranogwr J)

'*We started to look at what each member of the group could focus on – what were their strengths and weaknesses*.' (Cyfranogwr I)

5.67 Adleisiwyd y safbwyntiau cadarnhaol hyn gan y partneriaid diwylliannol a oedd yn arwain y cwrs gwneud ffilmiau wrth iddynt fyfyrio ar frwdfrydedd y cyfranogwyr:

'*It was such an interesting project as the participants involved came from a variety of backgrounds and from a broad age range and they were all really interested in getting involved. So we had some mixed groups and the dynamics worked incredibly well. Some of them some aren't in comprehensive school, some had just finished school, and some have been out of work for quite a while. But, many had never held a camera or made anything like that before, and it really sparked excitement in*

*everyone involved, and the majority of participants really wanted to come back and do more*.’ (Cyfweliad â phartner arweiniol, Abertawe)

5.68 O ganlyniad i lwyddiant y rhaglen, mae'r darparwr diwylliannol wedi rhoi trefniadau ar waith i gyflwyno ail gyfres o weithdai rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2016, Mae’r gweithdai yn efelychu'r set gyntaf o weithgareddau gwneud ffilmiau ac yn adeiladu arni. Darperir y gweithdai'n mewn partneriaeth â darparwr addysg gymunedol cenedlaethol a bydd yn rhoi cyfleoedd i ennill achrediad ar Lefel Mynediad a Lefel 1, er mwyn denu cyfranogwyr newydd ac annog cyfranogwyr blaenorol i barhau i gymryd rhan a pharhau â'u llwybr dilyniant. Dywedodd y partner diwylliannol sy'n arwain y gweithdai fod saith o gyfranogwyr o'r rownd gyntaf o weithdai wedi cytuno i gymryd rhan yn y cwrs lefel uwch.

5.69 Roedd y pwyslais hwn ar gefnogi unigolion ar hyd eu 'llwybr dilyniant' hefyd yn amlwg mewn partneriaethau newydd yn yr ardal. Roedd tystiolaeth bod y partneriaid diwylliannol a oedd yn ymwneud â dylunio a darparu'r gweithdai achrededig wedi dechrau adeiladu cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol mawr yn sgil y rhaglen Ardaloedd Arloesi, fel ffordd o edrych ar gyfleoedd i gysylltu hyfforddiant a chymwysterau achrededig gyda lleoliadau profiad gwaith ac interniaethau mwy ffurfiol. Dywedodd un o'r partneriaid diwylliannol fod prinder sgiliau yn y sectorau diwylliannol a chreadigol yn cael effaith andwyol ar dwf, ac amlygodd y potensial sylweddol a gynigir gan gyrsiau, fel y rhai a ddatblygwyd yn y flwyddyn beilot, o ran hwyluso unigolion o gymunedau lleol i ddatblygu sgiliau y mae galw mawr amdanynt. Byddai'r rhain yn eu galluogi i wneud cais am amrywiaeth eang o swyddi technegol ac ymarferol o fewn y sector:

‘*It's not only a case of soft skills or technical skills learnt during the course, but there's also the potential for, you know another course, maybe an internship with Bay Studios and then who knows maybe possibly a job at the end of the day. So it really was a case of taking what the Baroness Andrews report says about how culture can get somebody from a pretty difficult situation, possibly no employment, or no prospect of employment through to some form of education, some learning skills, some creative, cultural, dynamic kind of process and then at the other end they may feel that they’re better able to get a job*.’ (Cyfweliad â phartner arweiniol)

5.70 Yn ogystal, mae'r darparwyr diwylliannol sy'n arwain y prosiect yn awyddus i gryfhau eu perthynas waith drwy edrych ar gyfleoedd i greu llwybr dysgu ffurfiol a llwybr dilyniant o dystysgrif Lefel Mynediad mewn 'Ffotograffiaeth Ddigidol', a gafodd ei chyflwyno yn hydref 2015 fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, i gwrs Lefel 3 mewn 'Technolegau Creadigol' a ddilysir gan Brifysgol Cymru (ac ymlaen i Addysg Uwch).

5.71 Nodwedd allweddol llawer o'r prosiectau a'r gweithgareddau mwyaf effeithiol a gyflwywnyd o dan y thema cyflogaeth ac incwm oedd dull gweithredu cydweithredol. Redd hyn yn cynnwys sefydliadau diwylliannol, darparwyr addysg a hyfforddiant, sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, Cymunedau yn Gyntaf a sefydliadau perthnasol eraill, megis y Ganolfan Byd Gwaith a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth. Canfuwyd bod cynnwys sefydliadau diwylliannol a chymunedol / gwirfoddol y tu allan i asiantaethau cyflawni 'prif ffrwd' yn nodwedd allweddol o'r gwaith. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd o'r cyfweliadau fod llwyddiannau nodedig yn deillio o gynnwys sefydliadau a grwpiau o'r fath gan eu bod yn aml yn cyflwyno dull gweithredu newydd a ffordd newydd o feddwl.

5.72 Canfu'r gwerthusiad fod y model cydweithredol hwn wedi hwyluso darparu gweithgareddau a phrosiectau ymatebol wedi'u teilwra. Yn rhan o hyn, dywedwyd bod canolbwyntio ar ganlyniadau cyflogadwyedd neu 'ganlyniadau hanfodol' yn hollbwysig; gan symud o brosiectau neu raglenni a allai fod wedi cael eu datblygu yn y gorffennol a oedd yn canolbwyntio ar gaffael sgiliau craidd yn unig, heb ystyried sgiliau a chymwyseddau 'meddal' eraill (h.y. gwaith tîm a chydweithredu; cyfathrebu; ymrwymiad, hyblygrwydd; rheoli amser; cyfrifoldeb ac ati) i ddull a oedd yn cydnabod y gallai cyfuniad o'r rhain gefnogi datblygiad pellach ar y llwybr tuag at ddysgu a/neu gyflogaeth.

*Cynyddu sgiliau cynhwysiant digidol mewn cymunedau difreintiedig*

5.73 Cyfrannodd rhai gweithgareddau Ardaloedd Arloesi at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau cyfranogwyr o ran y defnydd o ystod eang o ddyfeisiau digidol. Er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd lleol ar gyfer hyfforddiant digidol am ddim drwy Orsaf Treftadaeth Ddigidol Casgliad y Werin Cymru mewn nifer o Ardaloedd Arloesi, roedd modd i drigolion o'r gymuned leol wella eu llythrennedd digidol drwy fagu profiad ymarferol o ddefnydd o sganiwr, gliniadur ac offer recordio digidol. Mae hyn wedi caniatáu i drigolion gael gafael ar wybodaeth ac archifau am hanes a threftadaeth leol ac i

ddigideiddio a llwytho eu deunyddiau eu hunain, gan gynnwys llythyrau, ffotograffau a hanesion llafar i wefan Casgliad y Werin Cymru. O ganlyniad, gall gwybodaeth bwysig a gwerthfawr am hanes a diwylliant lleol gael ei rhannu y tu hwnt i'r gymuned leol.

5.74 Yng Nghasnewydd, lle y sefydlwyd y fenter gyntaf, mae 39 o gyfranogwyr wedi cael hyfforddiant digidol ffurfiol dros 20 o sesiynau, gydag 14 yn cofrestru ar gyfer Achrediad Lefel 3 ffurfiol ar Ddigideiddio Deunyddiau ar gyfer Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau a ddarperir gan Agored Cymru. Mae'r cyfranogwyr hefyd wedi cyfrannu 150 o oriau drwy wirfoddoli. Gyda'i gilydd, ar draws yr Ardaloedd Arloesi, mae 130 o bobl wedi cael hyfforddiant digidol gyda 26 yn cofrestru ar gyfer achrediad Agored Cymru. Mae'n debygol y bydd modd cefnogi mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu achrededig yn y dyfodol.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y casgliadau o'r gwerthusiad o flwyddyn beilot y rhaglen Ardaloedd Arloesi ac yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu'r rhaglen yn y dyfodol.

6.2 Mae'n bwysig nodi bod yr ymchwil yn rhoi tystiolaeth glir am effaith y rhaglen beilot Ardaloedd Arloesi ar sefydliadau a chyfraniad posibl y newidiadau yn y ddarpariaeth o weithgareddau diwylliannol i grwpiau difreintiedig. Mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag effaith gweithgareddau'r Ardaloedd Arloesi ar unigolion, fodd bynnag, yn fwy cyfyngedig. Oherwydd y cyfnod byr o amser ers cyflwyno llawer o'r gweithgareddau a'r prosiectau a'r diffyg data monitro a gwerthuso dibynadwy, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch i ba raddau y gellir priodoli gwelliannau hunangofnodedig mewn canlyniadau i'r rhaglen beilot yn hytrach nag i ffactorau eraill. Fodd bynnag, mae wedi bod yn bosibl defnyddio rhywfaint o dystiolaeth ddangosol sy'n dod i'r amlwg i asesu effeithiolrwydd ac effaith debygol gweithgareddau, pennu'r ffactorau sydd wedi arwain at weithredu a chyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus, yn ogystal â nodi meysydd allweddol y mae angen eu datblygu.

### Effaith y rhaglen

*Effaith ar ffyrdd sefydliadol o weithio*

6.3 Mae'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, o ran ei dull cyffredinol o weithio ar y cyd i gynyddu i'r eithaf fanteision cyfranogiad diwylliannol i unigolion sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, wedi cael ei chroesawu gan randdeiliaid sy'n ymwneud â'i chyflawni ac mae'n uchel iawn ei pharch. Mae tystiolaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos dealltwriaeth glir ymhlith partneriaid ynghylch sut mae ei nodau a'i hamcanion yn cyd-fynd â gwaith y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac agenda trechu tlodi ehangach Llywodraeth Cymru.

6.4 Ceir tystiolaeth gref i awgrymu, o ganlynad i'r partneriaethau a grewyd o dan y rhaglen beilot Ardaloedd Arloesi, bod sefydliadau diwylliannol a threftadaeth ledled yr Ardaloedd Arloesi wedi dechrau cysoni eu blaenoriaethau strategol â'r amcanion trechu tlodi i raddau mwy nag o'r blaen. Mae cynnwys ystod eang o bartneriaid diwylliannol gyda chylch gwaith penodol yn ymwneud â threchu tlodi, a gallu'r partneriaethau ym mhob ardal i annog partneriaid newydd i gynyddu eu hymgysylltiad â'r ddarpariaeth ddiwylliannol, wedi cyfrannu at lwyddiant y rhaglen beilot. Ceir tystiolaeth nad yw llawer o'r rhain erioed wedi gweithio mewn partneriaeth strategol â'i gilydd, nac wedi bod mewn cysylltiad â'i gilydd o'r blaen. Mae'r sefydliadau arweiniol wedi chwarae rhan hanfodol yn y broses hon - drwy gynnull, hwyluso a brocera cysylltiadau a threfniadau cydweithio rhwng partneriaid; llunio strategaeth; cydgysylltu'r partneriaethau; a darparu arweiniad a syniadau.

6.5 O ganlyniad, mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn awgrymu bod sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol, ac amrywiaeth o gyrff eraill wedi cydweithio i raddau llawer mwy, ac mewn ystod o ffyrdd newydd, o ganlyniad i'r rhaglen beilot Ardaloedd Arloesi. Mae'r partneriaid wedi cydweithio i ddylunio, ariannu a darparu gweithgareddau a phrosiectau diwylliannol ar y cyd ac wedi gweithredu fel un llais i hyrwyddo gwerth defnyddio diwylliant fel arf i drechu tlodi ac anfantais.

6.6 Pwysleisiodd y partneriaid yn gyson fod gweithio mewn partneriaeth yn cymryd amser ac yn broses organig. O'r herwydd, teimlwyd yn gyffredinol bod mwy o gyfle i ddatblygu'r partneriaethau, a'r ffyrdd y maent yn gweithio. Gan

fod y partneriaethau yn eu babandod, nid oes unrhyw dystiolaeth hyd yma ynghylch i ba raddau y maent yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

### Effaith ar swm ac ansawdd y ddarpariaeth ddiwylliannol i grwpiau difreintiedig

6.7 Ceir tystiolaeth gynnar sy'n awgrymu bod y partneriaethau a sefydlwyd o dan y rhaglen wedi ychwanegu gwerth at brosiectau a gweithgareddau presennol yn ogystal â helpu i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau diwylliannol newydd. Er enghraifft, mae un Ardal Arloesi wedi dewis canolbwyntio ei rhaglen waith yn ystod y flwyddyn beilot ar ddatblygu prosiect penodol sy'n cynnwys partneriaeth agos rhwng Cymunedau yn Gyntaf, clwstwr o saith ysgol gynradd ac uwchradd, a deg o bartneriaid diwylliannol yn yr ardal. Drwy sesiynau a gynhaliwyd fel rhan o'r gweithgareddau, darparwyd profiadau diwylliannol i dros 320 o drigolion yn y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ac roedd y gweithgaredd yn cyfateb yn uniongyrchol â chanlyniadau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

6.8 Yn gyffredinol, roedd y gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r rhaglen beilot yn seiliedig ar dair thema allweddol: lles cymunedol ac unigol; dysgu, addysg a sgiliau; a chyflogaeth ac incwm, y mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â chanlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Ceir tystiolaeth bod yr Ardaloedd Arloesi yn gweithio ar draws ystod eang o flaenoriaethau o dan bob thema, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y gweithgareddau diwylliannol a ddarperir yn cyfrannu at ystod eang o ganlyniadau ac effeithiau.

6.9 Datgelodd y gwerthusiad bwyslais cryf ar draws yr Ardaloedd Arloesi ar ddatblygu strwythurau a gweithgareddau i arwain a chefnogi unigolion i ddatblygu llwybrau priodol i fyw'n annibynnol, dysgu a/neu gyflogaeth, ac i fonitro a hwyluso eu dilyniant. O fewn y fframwaith hwn, bu ffocws ar ddatblygu rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio i gyfuno elfennau o sgiliau personol, galwedigaethol, addysgol a sylfaen a datblygu gwybodaeth i alluogi unigolion o gefndiroedd difreintiedig i gael mynediad i lwybrau i annibyniaeth, a dilyniant addysgol a galwedigaethol (er bod hynny i raddau gwahanol ac ar lefelau gwahanol ar draws yr Ardaloedd Arloesi). Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys perfformiadau cerddorol a drama; cyrsiau celf a chrefft; gweithdai gwneud ffilmiau a chyfryngau; teithiau cerdded tywysedig ac ymweliadau wedi'u teilwra â chanolfannau a safleoedd diwylliannol, treftadaeth a

chelfyddydol; cyfleoedd hyfforddi'n gysylltiedig ag achrediad ffurfiol; lleoliadau gwaith; a chyfleoedd i wirfoddoli.

6.10 Yn ôl y partneriaid, mae'n ymddangos bod gweithgareddau sy'n cynnig cymysgedd o gyfleoedd creadigol wedi cyfrannu at lefel uwch o ymgysylltiad a mwynhad ymysg cyfranogwr. Er enghraifft, roedd gan weithdai gwneud ffilmiau a ddarparwyd fel rhan o'r rhaglen waith mewn dwy ardal apêl eang i unigolion o gefndiroedd, diwylliannau a grwpiau oedran amrywiol gan alluogi pob un ohonynt i ddod o hyd i rywbeth a oedd yn eu cyffroi ac yn ennyn eu diddordeb. Rhoddodd cyfranogiad gweithwyr proffesiynol celfyddydol a diwylliannol a chanddynt wybodaeth a phrofiad arbenigol mewn dylunio a darparu sesiynau gwneud ffilmiau a gweithdai crefft ac arlunio bwysau ac arwyddocâd ychwanegol i'r gweithgareddau ac mewn llawer o achosion roeddent yn ysbrydoliaeth i'r cyfranogwyr.

6.11 Yn gysylltiedig â hyn, mae tystiolaeth ansoddol i ddangos bod rhai unigolion wedi cael profiad o weithgareddau diwylliannol, pobl na fyddent fel arall wedi cael mynediad i safleoedd a lleoliadau diwylliannol yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, mae'r cyfnod byr ers cyflwyno llawer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn beilot, ynghyd â diffyg tystiolaeth gadarn (meintiol ac ansoddol) a dulliau monitro effeithiol ar lefel prosiect, yn golygu ei bod yn anodd cael niferoedd dibynadwy i fesur effaith y rhaglen, o ran nifer y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan, y niferoedd sy'n cwblhau cyrsiau achrededig yn llwyddiannus, sy'n mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau eraill, neu i ennill cymwysterau neu gael cyflogaeth. Fodd bynnag, mae ymhell dros 1,500 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd gan y partneriaethau ac, mewn ardaloedd lle mae gweithgareddau mwy penodol wedi cael eu darparu a'u monitro'n ofalus, mae'r dystiolaeth yn dangos bod dros 500 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn rhaglenni, cyrsiau a dysgu achrededig strwythuredig. Mae'r diffyg data hefyd yn ei gwneud yn anodd darganfod sefyllfa wrthffeithiol - hynny yw, yr hyn a fyddai wedi digwydd heb weithgareddau'r rhaglen beilot. Er enghraifft, o ystyried bod rhai o'r gweithgaredd yn ystod y flwyddyn beilot wedi canolbwyntio ar gynyddu gweithgareddau diwylliannol presennol i'r eithaf, gall fod yn wir y byddai'r allbynnau a'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg wedi digwydd heb y rhaglen.

### Yr effaith ar unigolion

6.12 Darparodd prosiectau unigol ddata ansoddol a oedd yn awgrymu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth drwy'r rhaglen Ardaloedd Arloesi wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion. Yn benodol, roedd y partneriaid yn teimlo bod cyfranogiad wedi arwain at ddatblygu a gwella sgiliau meddal, fel mwy o hyder a hunan-barch; gwell cyfranogiad cymdeithasol; a mwy o gymhelliant ac ymgysylltu, i'r graddau bod llawer o'r cyfranogwyr yn awr yn fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol eraill - naill ai fel grŵp, gyda'r teulu neu'n annibynnol. Mae yna hefyd dystiolaeth anecdotaidd i awgrymu bod rhai unigolion wedi ymgysylltu'n gymdeithasol i raddau mwy yn eu cymunedau lleol ac yn barod i fynd ati i rannu gwybodaeth a sgiliau gyda'u cymheiriaid, yn ogystal â chyfrannu syniadau a barn ar weithgareddau presennol a gweithgareddau newydd a ddarperir drwy'r rhaglen.

6.13 Mae caffael sgiliau newydd - megis iaith, llythrennedd a rhifedd; a sgiliau crefft, technegol a digidol ymarferol - hefyd wedi cael ei nodi fel un o ganlyniadau allweddol llawer o weithgareddau'r Ardaloedd Arloesi. Mewn rhai ardaloedd, roedd ffocws cryf ar achredu sgiliau. Ar draws yr Ardaloedd Arloesi, mae 130 o bobl wedi derbyn hyfforddiant gyda 26 yn cofrestru ar gyfer achrediadau Agored mewn amrywiaeth o bynciau, yn amrywio o ffilmiau a ffotograffiaeth ddigidol, i wnïo a gwaith coed a sgiliau digidol. Mae'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd ac arddangos yr hyn a ddysgwyd drwy ddigwyddiadau dathlu megis arddangosfeydd, digwyddiadau lansio a gwobrau, er enghraifft, hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion. Dywedodd y partneriaid diwylliannol sut yr oedd y cyfleoedd hyn wedi rhoi ymdeimlad o gyflawniad i unigolion, a allai yn ei dro gael effaith hirdymor ar eu hunangred, eu hyder a'u hunan-barch.

6.14 Drwy weithgareddau cadarnhaol a deinamig, rhoddwyd hefyd brofiad gwahanol a phleserus i lawer o'r cyfranogwyr ac roeddent yn gyfrwng effeithiol i ymgysylltu ag unigolion o gefndiroedd difreintiedig a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'w trefn a'u hamgylcheddau arferol. Ar draws yr Ardaloedd Arloesi, priodolwyd yr effaith gadarnhaol hon i raddau helaeth i'r amgylchedd diogel ac anffurfiol a grëwyd gan y timau Cymunedau yn Gyntaf, gyda chefnogaeth partneriaid diwylliannol. Yn y gwerthusiad, amlygwyd nifer o enghreifftiau o unigolion yn mynegi awydd i

barhau i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.

6.15 Ar y cyfan, mae'r rhaglen yn anochel wedi cael mwy o effaith gadarnhaol ar rai unigolion o'u cymharu ag eraill. Mae'r cyfranogwyr hynny sy'n wynebu materion mwy heriol yn eu bywydau bob dydd, neu'n dioddef o hunan-barch is yn gynnar yn y rhaglen, er enghraifft, yn llai tebygol o weld canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol yn sgil y gweithgareddau. Felly, mae'r gwahaniaeth mewn mannau cychwyn a chyflawniadau unigolion yn ffactor pwysig i'w ystyried, yn ogystal â'r amrywiad ar draws yr Ardaloedd Arloesi, o ran graddfa a natur y gweithgareddau sy'n cael eu rhoi ar waith, ac a ydynt yn seiliedig ar syniadau neu brosiectau newydd neu syniadau neu brosiectau presennol.

6.16 Mae natur barhaus llawer o'r gweithgareddau yn golygu nad oes modd dangos tystiolaeth o'u heffaith hirdymor ar unigolion a chymunedau ar hyn o bryd. Bydd angen gwerthuso strwythurau, prosesau a gweithgareddau'r rhaglen ymhellach i ddarganfod ei heffaith hirdymor dros amser.

### Arferion da

6.17 Mae'n amlwg o'r drafodaeth gyda phartneriaid bod y cyswllt uniongyrchol â thimau Cymunedau yn Gyntaf, a'u gallu i gael mynediad ac ymgysylltu â chymunedau lleol, wedi bod yn hollbwysig wrth hwyluso ymgysylltu'n llwyddiannus â chyfranogwyr. Mae cynnwys cymunedau yn y broses o nodi anghenion a blaenoriaethau hefyd wedi arwain at fwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r gweithgareddau, ac ymrwymiad iddynt.

6.18 Mae'r gwerthusiad yn darparu tystiolaeth o lwyddiant cyffredinol y model partneriaeth Ardaloedd Arloesi. Yn gyffredinol, roedd y partneriaethau yn cael eu gwerthfawrogi gan bartneriaid diwylliannol am fod yn agored iawn, yn ddemocrataidd ac yn organig yn eu dull o ddiffinio diben cyffredin, amcanion clir a phrosesau ac i nodi sut y gallai pob aelod gyfrannu. Mewn llawer o achosion, crëwyd cyfleoedd i bartneriaid gwrdd naill ai cyn neu ar ôl cyfarfodydd partneriaeth i rwydweithio a rhannu syniadau a phrofiadau. Roedd hyn yn eu galluogi i ddod o hyd i sefydliadau a grwpiau y gallent o bosibl weithio â hwy ar brosiectau yn y dyfodol.

6.19 Pwysleisiodd y partneriaid arweiniol hefyd fod llwyddiant eu proses partneriaeth hyd yma wedi cael ei ysgogi gan awydd i gydweithio i sicrhau budd i'r ddwy ochr ar gyfer yr holl bartneriaid, yn hytrach na chan gylch gwaith

ariannu penodol. Roedd hyn yn annog partneriaeth gydweithredol ac anghystadleuol drwy drafodaeth agored.

6.20 Dangosodd y gwerthusiad fod gallu sefydliadau diwylliannol a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i gyfrannu adnoddau ychwanegol, ar ben y cyllid uniongyrchol a roddwyd er mwyn cyflawni'r rhaglen beilot, wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant y gweithgareddau, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau diweddar i wasanaethau craidd a chyllidebau. Dywedodd nifer o ardaloedd eu bod wedi llwyddo i ddenu cyllid ac adnoddau i ddatblygu prosiectau ar y cyd, gan alluogi partneriaid i weithredu ar yr anghenion a nodwyd gan y bartneriaeth. Dywedodd un Ardal Arloesi hefyd ei bod wedi dechrau datblygu gweithgareddau a cheisiadau sy'n cynnwys sefydliadau a oedd heb gydweithio o'r blaen.

6.21 Ceir tystiolaeth bod y rhaglen beilot yn dechrau newid y canfyddiadau o ddiwylliant a stereoteipiau a chamsyniadau penodol o werth gweithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol ar lefel Awdurdod Lleol ac o fewn timau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf.

6.22 Dengys y gwerthusiad fod cael fframwaith canlyniadau penodol, sy'n ymwneud yn benodol â chanlyniadau ehangach Cymunedau yn Gyntaf, wedi helpu i roi ffocws i'r gwaith o ddylunio a chyflawni'r gweithgareddau yn y flwyddyn beilot. Mae'r rhaglen beilot wedi dangos bod y fframwaith hwn ar gyfer mesur canlyniadau ac effeithiau yn gweithio'n llwyddiannus, ar yr amod y caiff ei rannu a bod hyblygrwydd i wneud addasiadau i bob elfen i weddu i anghenion a blaenoriaethau sefydliadau a phartneriaid unigol.

### Yr heriau allweddol

6.23 Roedd amrywiaeth o heriau a chyfyngiadau sydd o bosibl wedi cyfyngu ar allu'r rhaglen i ddangos effaith.

6.24 Mewn llawer o'r Ardaloedd Arloesi, ni ddechreuodd y gwaith o gynllunio a chyflawni prosiectau tan 2-4 mis i mewn ar ôl i'r rhaglen beilot ddechrau; felly, roedd llawer o bartneriaid yn teimlo bod yr amserlen ar gyfer cyflawni eu rhaglen waith a dangos canlyniadau ac effeithiau yn rhy fyr. Mae llawer o bartneriaid yn honni y byddai cynllunio a darparu gweithgareddau ar gyfer y tymor hwy yn hwyluso mwy o gydweithio a dylanwad yn lleol, yn ogystal â darparu darlun cliriach o ganlyniadau ac effeithiau.

6.25 Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod partneriaid yn cydweithio gyda thimau clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol lleol er mwyn cynnwys aelodau'r gymuned eu hunain yn y broses o flaenoriaethu canlyniadau ar gyfer eu hardaloedd lleol a dylunio eu gweithgareddau ar ôl hynny. Ar y cyfan, fodd bynnag, teimlwyd yn gyffredinol nad oedd y rhaglen wedi gallu mabwysiadu dull cwbl gydweithredol ar hyn o bryd oherwydd mai rhaglen beilot ydoedd, ac felly y rheidrwydd i roi'r rhaglen ar waith a darparu gweithgareddau yn gyflym a thros gyfnod byr. Er gwaethaf hyn, roedd nifer o ardaloedd yn rhagweld pwyslais cryfach ar gyd-ddylunio gweithgareddau gydag aelodau o'r gymuned pe bai'r rhaglen yn parhau.

6.26 Amlygodd y gwerthusiad yr anhawster o gael data monitro cadarn a chyson, o fewn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac ar draws y partneriaid diwylliannol a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen beilot. Er bod fframwaith canlyniadau yr Ardaloedd Arloesi a ddatblygwyd ar gyfer y rhaglen yn sicrhau bod gweithgareddau'n uniongyrchol gydnaws â chanlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, roedd yn ymddangos bod llawer iawn o amwysedd ac anghysondeb mewn dulliau monitro a gwerthuso, o ran deall a diffinio canlyniadau ac effeithiau disgwyliedig y gweithgareddau, a sut y caiff y cynnydd yn erbyn y rhain eu mesur a'u hadrodd. Lle y casglwyd tystiolaeth feintiol, nid oedd llawer o'r data yn gadarn yn ystadegol oherwydd maint bach y sampl, gan ei gwneud yn anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch effaith.

6.27 Roedd natur untro llawer o'r gweithgareddau a ddarparwyd fel rhan o'r flwyddyn beilot hefyd yn her, o ran tystiolaeth o ganlyniadau ac effeithiau tymor hwy. Mewn achosion o'r fath, mae diffyg data hydredol o ansawdd uchel ar gyfer olrhain yn ei gwneud yn anodd dweud a fyddai llawer o'r canlyniadau sydd wedi cael eu hadrodd, fel cynnydd mewn hyder, hunan-barch, mwy o ymgysylltiad cymdeithasol, yn parhau.

6.28 Amlygodd canfyddiadau'r gwerthusiad hefyd fod dilysrwydd a dibynadwyedd data yn ddibynnol iawn ar sgiliau a gallu'r unigolion sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso ar lefel y sefydliad, y rhaglen a'r prosiect. Er enghraifft, mynegodd llawer o'r partneriaid diwylliannol, bryderon nad oedd ganddynt yr arbenigedd neu'r wybodaeth angenrheidiol i ddylunio prosesau monitro effeithiol ac arloesol, a chyfrannodd hynny at y dull gweithredu anghyson ar draws yr Ardaloedd Arloesi. Codwyd pryderon penodol hefyd mewn perthynas â chasglu tystiolaeth yn ymwneud â gwelliannau mewn canlyniadau 'meddal' ac er bod llond llaw o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf

wedi cofnodi arferion da mewn perthynas â'r defnydd o astudiaethau achos / ffeiliau achos (fel yr amlygwyd yn y Gwerthusiad o'r Broses Cymunedau yn Gyntaf a gynhaliwyd yn 2011), roedd yn amlwg nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n effeithiol.

6.29 Nid oedd y ffordd y dyluniwyd y gwerthusiad yn ei gwneud yn bosibl amcangyfrif y sefyllfa wrthffeithiol felly mae'n anodd asesu i ba raddau y gellir priodoli newidiadau i'r peilot Ardaloedd Arloesi.

## Argymhellion

6.30 Mae tystiolaeth ar draws yr Ardaloedd Arloesi wedi dangos y gall y dull partneriaeth Ardaloedd Arloesi wella'r ddarpariaeth o weithgareddau diwylliannol ar gyfer grwpiau difreintiedig mewn ardaloedd lleol ac mae'n amlwg bod potensial i ehangu a gwella'r model. Fodd bynnag, er gwaethaf y llwyddiannau hyn, byddai cynnydd a chanlyniadau'r partneriaethau peilot yn elwa ar adolygu arferion effeithiol ac ymchwilio ymhellach iddynt wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.

6.31 Roedd y ffocws ar 'lwybrau dilyniant' a dull integredig a chydweithredol o ddiwallu anghenion unigol cyfranogwyr yn cael ei ystyried gan bartneriaid fel elfennau hollbwysig ac roeddent yn teimlo y dylid adeiladu ar yr arferion da a nodwyd o fewn y rhaglen mewn perthynas â hyn.

6.32 Roedd yn ymddangos bod cynnwys cyfranogwyr yn y gwaith o gydgynllunio gweithgareddau yn gwella eu mwynhad a'u hymdeimlad o berchnogaeth o'r gweithgareddau. Argymhellir felly bod y partneriaid arweiniol yn cynnwys cyfranogwyr mewn penderfyniadau dylunio a chynllunio ar ddechrau gweithgareddau, o ran y cynnwys, ond hefyd o ran penderfyniadau ymarferol, megis pryd a lle y dylid cynnal gweithgareddau.

6.33 Yn gyffredinol, roedd y sefydliadau partner yn barod i gyfrannu adnoddau ychwanegol ar ffurf nwyddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal gweithgareddau fel rhan o'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, oherwydd y gwerth amlwg i'w sefydliad a'i flaenoriaethau strategol. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd ei bod yn bwysig bod y cymorth hwn yn cael ei gydnabod, yn ogystal â'r ffaith na all y rhaglen ddyfnhau ac ehangu ei heffaith heb gyllid ychwanegol i gefnogi gweithgareddau, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau diweddar yn y sector diwylliannol / cyhoeddus yn gyffredinol.

6.34 Pwysleisiodd y partneriaid arweiniol ar draws yr Ardaloedd Arloesi fod y rhaglen wedi cynnwys mwy o gydweithio na'r disgwyl, gan roi pwysau ar eu capasiti i weithredu pob partneriaeth leol, yn ogystal ag ariannu gweithgaredd. Roeddent yn croesawu cymorth canolog ychwanegol i weithredu a rheoli rhwydweithiau'r Ardaloedd Arloesi, yn hwyluso recriwtio partneriaid newydd a gwrthbwyso'r baich ar gyrff diwylliannol a chyllidebau Cymunedau yn Gyntaf.

6.35 Roedd y partneriaid yn teimlo y dylai'r digwyddiadau rhwydweithio a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen beilot barhau gan eu bod yn hanfodol ar gyfer rhannu arferion da a thrafod syniadau. Roedd yr holl bartneriaid arweiniol yn gweld y strwythur ac amserlen y digwyddiadau mewn goleuni cadarnhaol.

6.36 Pwysleisiodd y partneriaid ar draws yr Ardaloedd Arloesi y cysylltiad cryf rhwng y rhaglen Cyfuno a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a theimlwyd bod angen i hyn fod yn fwy eglur mewn unrhyw raglen yn y dyfodol.

6.37 Dylai annog dull mwy ffurfiol a chadarn o fonitro a gwerthuso canlyniadau ac effeithiau parhaus fod yn nod allweddol ar gyfer yr Ardaloedd Arloesi a'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn y dyfodol, ac mae hyn yn gofyn am brosesau cofnodi ac adrodd cyson a pharhaus. Mae angen hyn er mwyn darganfod gwerth llawn y gweithgareddau a'r rhaglen gyffredinol, a gallu cymharu ansawdd y canlyniadau a gofnodwyd ar draws yr Ardaloedd Arloesi. Mae'r gwerthusiad wedi dangos hefyd bod angen hyfforddiant a chymorth ar bartneriaid i wneud y defnydd gorau o'r fframwaith monitro a gwerthuso. Dylid ymgorffori hyn mewn unrhyw raglen a gynhelir yn y dyfodol.

6.38 Mae'r gwerthusiad wedi tynnu sylw at rai arferion da mewn perthynas â chofnodi a mesur canlyniadau meddal ar y lefel leol ac olrhain cynnydd unigol, yn bennaf drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n effeithiol â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner nac yn cael ei gwerthfawrogi'n llawn ar hyn o bryd. Dylid rhoi arweiniad ar sut y gellir ei lledaenu'n fwy effeithiol o fewn y sector, boed yn lleol, yn rhanbarthol a/neu yn genedlaethol.

6.39 Roedd y dull gwerthuso a fabwysiadwyd wedi'i gyfyngu oherwydd yr amserlen a'r gyllideb werthuso a oedd ar gael. O ganlyniad nid oedd modd i'r gwerthusiad fesur effaith neu werth am arian y rhaglen beilot yn effeithiol.

Argymhellir, lle bo modd, y dylid mynd i'r afael â hyn os bydd y rhaglen yn parhau.

6.40 O gofio'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â mesur rhai o'r canlyniadau tymor hwy a ddymunir, dylid ymchwilio ymhellach i'r potensial o ddefnyddio dulliau hydredol; er enghraifft defnyddio setiau data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar lefel genedlaethol, a gwneud y gorau o systemau monitro presennol megis y rhai a ddefnyddir ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer casglu data lleol.

## Llyfryddiaeth


Adran Iechyd y DU (2010) *Confident Communities, Brighter Futures. A framework for developing well-being*. Llundain: Yr Adran Iechyd. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_114774

Adran Iechyd y DU (2011) *Start Active, Stay Active: A report on physical activity from the four home countries,* Chief Medical Officers, Llundain: Adran Iechyd y DU. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/start-active-stay-active-a-report-on-physical-activity-from-the-four-home-countries-chief-medical-officers

Angus, J. (2002) *A review of evaluation in community based arts for health activity in the UK*. Llundain: Health Development Agency.

Arrivo Consulting (2015) *Cashback for Creativity. Evaluation of Phase 2 of the Programme*. Glasgow: Arrivo Consulting Ltd. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.creativescotland.com/__data/assets/pdf_file/0012/32502/Cashback-Phase-2-EvaluationFINAL-11_09-LB.pdf

Arts Council England (2014) *The Value of Arts and Culture to People and Society. An Evidence Review*. Llundain: Arts Council England. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/The-value-of-arts-and-culture-to-people-and-society-An-evidence-review-TWO.pdf

Atkinson, R. a Mason, C. (2014) *Review of literature around engagement with young people from disadvantaged background*. Llundain: Wellcome Trust.

Belfiore, E. a Firth, C. (2014) *The Future of Cultural Value*. Coventry: University of Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/resources/research/commissioner_day_2_briefing_document.pdf

Belfiore, E., Firth, C. a Holdaway, D. (2014) *How do we value (and undervalue) culture?* Coventry: University of Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/resources/research/commissioner_day_2_briefing_document.pdf

Belfiore, E., Hart, N. a Neelands, J. (2014). *The Future of Cultural Value. Education and Training*. Coventry: University of Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/resources/commission/cd3_education_and_training_brief_final.pdf

Bennett, M. a Parameshwaran, M. (2013) Briefing Paper 102: What factors predict volunteering among youths in the UK? Southampton: Third Sector Research Centre, University of Southampton. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.birmingham.ac.uk/generic/tsrc/documents/tsrc/working-papers/briefing-paper-102.pdf

Bragg, S. a Manchester, H. (2011) *Creativity, School Ethos and the Creative Partnerships programme: Final Report of the project: Evaluation of the nature and impact of the Creative Partnerships programme on school ethos, 2009-10*. [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.creativitycultureeducation.org/wp-content/uploads/may-2011-final-report-ou-creativity-school-ethos-and-creative-partnerships-282.pdf

Brandling J. a House, W. (2009) 'Social prescribing in general practice; adding meaning to medicine', *British Journal of General Practice*, Cyfrol 59, Rhifyn 563, Tudalennau 454-456.

Butzlaff, R. (2000) 'Can music be used to teach reading?' *Journal of Aesthetic Education*, Cyfrol 3, Rhifyn 4, Tudalennau 167-178. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artsedsearch.org/summaries/can-music-be-used-to-teach-reading#sthash.RFE4IHCv.dpuf

BusinessLab (2015) *The Family Learning Signature: An Introduction*. Aberdeen: BusinessLab.

Bygren, L., Johansson, S., Konlaan, B., Grjibovski, A., Wilkinson, A. a Sjöström, M. (2009) Attending cultural events and cancer mortality: A Swedish cohort study. *Arts and Health*, Cyfrol 1, Tudalennau 64-73.

Catterall, J., Dumals, S. a Hampden-Thompson, G. (2012) *The arts and achievement in at-risk youth: Findings from four longitudinal studies. Washington: National Endowment for the Arts*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.arts.gov/sites/default/files/Arts-At-Risk-Youth.pdf

Charlton. A., Potter, M., McGinigal, S., Romanou, E., Slade, Z. a Hewitson, B. (2010) *Barriers to participation. Analysis to inform the development of the 2010/11 Taking Part Survey*. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/137997/TP_Barriersrreport.pdf

Cooper, L., Benton, T. a Sharp, C. (2011) *The Impact of Creative Partnerships on Attainment and Attendance in 2008-9 and 2009-10*. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.nfer.ac.uk/publications/CPAB01/CPAB01.pdf

Cuypers, K., Krokstad, S., Holmen, T. L., Bygren, L. O. a Holmen, J. (2011) Patterns of receptive and creative cultural activities and their association with perceived health, anxiety, depression and satisfaction with life among adults: the HUNT study. *Journal of Epidemiology and Community Health*, Norway: pp.jech-2010.

Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (2013) *Arts, Health and Wellbeing Beyond the Millennium: how far have we come and where do we want to go?* Llundain: Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.rsph.org.uk/en/policy-and-projects/areas-of-work/arts-and-health.cfm

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2014) *Culture Group Meeting: The impact of reduced support by local authorities for cultural and art service provisions*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.wlga.gov.uk/download.php?id=5987&l=1

Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (2015) *Cultural Value Project*. Swindon: Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Ar gael yn: http://www.ahrc.ac.uk/research/fundedthemesandprogrammes/culturalvalueproject/ [Fel ar: 30 November 2015]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cymunedau yn Gyntaf.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Datganiad Cyllideb, adran 14.48*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.assembly.wales/en/bushome/pages/rop.aspx?meetingid=3492&language=en&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=08/12/2015&endDt=08/12/2015&keyword=protect

Dahlgren G. a Whitehead M. (1991) *Policies and Strategies to Promote Social Equity in Health*. Stockholm: Institute for Futures Studies.

Deasy, R. (Gol.) (2002) *Critical Links: Learning in the Arts and Student Academic and Social Achievement*. Washington, DC: Arts Education Partnership. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://files.eric.ed.gov/fulltext/ED466413.pdf

Desforges, C. a Abouchaar, A. (2003) *The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment: A review of literature*. Llundain: Cyhoeddiadau yr Adran Addysg a Sgiliau.

Dodd, J. a Jones, C. (2014) *Mind, body, spirit: How museum impact health and wellbeing*, Leicester: University of Leicester. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.le.ac.uk/departments/museumstudies/rcmg/publications/mind-body-spirit-report

Fiske, E. (1999) *Champions of Change: The Impact of the Arts on Learning*. Washington, DC: Arts Education Partnership / President's Committee on the Arts and the Humanities. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://files.eric.ed.gov/fulltext/ED435581.pdf

Fujiwara, D. (2013) *Museums and happiness: The value of participating in museums and the arts.* Arts Council and Museum of East Anglian Life. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://happymuseumproject.org/wp-content/uploads/2013/04/Museums_and_happiness_DFujiwara_April2013.pdf

Gregg, P. a Goodman, A. (2010) *Children's Educational Outcomes: the role of attitudes and behaviours, from early childhood to late adolescence*, Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Gutman, L. a Feinstein, L. (2007) *Parenting behaviours and children's development from infancy to early childhood: Changes, continuities, and contributions* [Wider Benefits of Learning Research Report No. 22], Llundain: Sefydliad Addysg.

House of Commons (2009) *Health Inequalities: Third Report of Session 2008-2009. Cyfrol 1.* Llundain: Y Llyfrfa.

Ipsos MORI / Wavehill Consulting (2015) *Communities First: A Process Evaluation*. Cardiff: Welsh Government. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-en.pdf

Johansson, S., Konlaan, B. a Bygren, L. (2001) 'Sustaining habits of attending cultural events and maintenance of health: a longitudinal study'. *Health Promotion International*. Cyfrol 16, Tudalennau 229-34. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.gensstudy.org/dati/pag/4.7/doc/140.pdf

Johnson, H., Keen, S. a Pritchard, D. (2011) *Unlocking value. The economic benefit of the arts in criminal justice*. Llundain: New Philanthropy Capital. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artsalliance.org.uk/sites/default/files/UnlockingValue_0.pdf

Kendall, L., Morrison, J., Sharp, C. a Yeshanew, T. (2008) *The Impact of Creative Partnerships on Pupil Behaviour*. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.nfer.ac.uk/publications/CPW01/CPW01.pdf

Langen, F. a Garcia, B. (2009) *Measuring the Impacts of Large Scale Cultural Events: A Literature Review*. Liverpool: University of Liverpool and Liverpool John Moores University. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.liverpool.ac.uk/media/livacuk/impacts08/pdf/pdf/Impacts08-FLangen_and_BGarcia_May_2009_Events_Review.pdf

Ledwick, M. (2005) *Community Development: A Critical Approach*. Llundain: Routledge.

Le Roux, B., Rouanet, H., Savage, M. a Warde, A. (2008). Class and Cultural Division in the UK. *Sociology*, Cyfrol 42, Rhifyn 6, Tudalennau 1049–1071.

Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Cardiff: Welsh Government. Ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en [Fel ar: 4 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru (2015) *Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: http://gov.wales/docs/drah/publications/150825-museums-review-en.pdf [Fel ar: 18 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-2017.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217en.pdf

Llywodraeth yr Alban (2013) *Healthy Attendance: The Impact of Cultural Engagement and Sports Participation on Health and Satisfaction with Life in Scotland.* Caeredin: Llywodraeth yr Alban. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.gov.scot/Resource/0043/00430649.pdf

Markusen, A. a Gadwa, A. (2010) *Creative Placemaking*. Washington DC: National Endowment for the Arts. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.arts.gov/sites/default/files/CreativePlacemaking-Paper.pdf

Mental Health Foundation (2013) *Mental Health Statistics*. http://www .mentalhealth.org.uk [Fel ar: 15 Ionawr 2016]; The Prince's Trust (2012) The Prince's Trust Youth Index 2012, Llundain: The Prince's Trust.

Merli, P. (2002) 'Evaluating the social impact of participation in arts activities', *International Journal of Cultural Policy*, Cyfrol 8, Rhifyn 1, Tudalennau 107-118.

Moody, E. a Phinney, A. (2012) 'A community-engaged art program for older people: fostering social inclusion'. *Canadian Journal on Aging,* Cyfrol 31, Rhifyn 1, Tudalennau 55-64.

Neelands, J., Belfiore, E., Firth, C., Hart, N., Perrin, L., Brock, S., Holdaway, D. a Woddis, J. (2015) *Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth. The 2015 Report by the Warwick Commission on the Future of Cultural Value*. Coventry: University of Warwick. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/finalreport/

Newman, M., Bird, K., Tripney, J., Kalra, N., Kwan, I., Bangpan, M. a Vigurs, C. (2010) *Understanding the impact of engagement in culture and sport: A systematic review of the learning impacts for young people*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/case_systematic_review_arts_participation.pdf

O'Neill, M. (2010) 'Cultural attendance and public mental health - from research to practice', *Journal of Public Mental Health*, Cyfrol 9, Rhifyn 4, Tudalennau 22-29.

Oskala, A., Keaney, E., Chan, T.W. a Bunting, C. (2009) *Encourage children today to build audience for tomorrow: Evidence from the Taking Part survey on how childhood involvement in the arts affects arts engagement in adulthood*. London: Arts Council England. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/publication_archive/encourage-children-today-to-build-audiences-for-tomorrow/

Partneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal (2009) *Social Prescribing for Mental Health: A guide to commissioning and delivery*. Manceinion: CSIP North West.

Pinnock, K., Lloyd, R. a Craig, P. (2011) *Evaluation of the youth sector development fund: Early findings. DFR-RR081.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-the-youth-sector-development-fund-early-findings

Rahim, N. a Mavra, L. (2009) *Barriers to Engagement in Heritage by Currently Under-Represented Groups. An Inclusion Report to the National Audit Office*. London: National Audit Office. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2009/07/0809881_barriers.pdf

Sefydliad Joseph Rowntree (2000) *Neighbourhood Regeneration: Resourcing Community Involvement*, Bryste: The Policy Press.

Scherger, S. a Savage, M. (2010) Cultural transmission, educational attainment and social mobility. *The Sociological Review*, Cyfrol 58, Rhifyn 3, Tudalennau 406-428.

Schopen, K., Rammer, C. a Trüby, J. (2008) *The role of creative industries in industrial innovation.* Centre For European Economic Research (ZEW) Discussion Papers No. 08-109.

Sgiliau Gofal (2013) *What do we know about the role of arts in the delivery of social care?* Leeds: Sgiliau Gofal. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.skillsforcare.org.uk/Document-library/NMDS-SC,-workforce-intelligence-and-innovation/Research/Arts-and-social-care/Briefing-Paper-FINAL-010713.pdf

Sharp, C., Pye, D., Blackmore, J., Brown, E., Eames, A., Easton, C., Filmer-Sankey, C., Tabary. A., Whitby, K., Wilson, R. a Benton, T. (2006) *National Evaluation of Creative Partnerships*. Slough: NFER. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.creativitycultureeducation.org/wp-content/uploads/national-evaluation-of-creative-partnerships-nfer-2006-95.pdf

Smith, D. (2013) *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-en.pdf

Stickley, T. a Eades, M. (2013) 'Arts on Prescription: a qualitative outcomes study', *Public Health*, Cyfrol 127, Rhifyn 8, Tudalennau 727–734.

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., Taggart, B., Smees, R., Dobson, A., Jeavons, M., Lewis, K., Morahan, M. a Sadler, S. (2004) *The Effective Provision of Pre-school Education (EPPE) project: A longitudinal study funded by the DfEE (1997-2003).* Llundain: Sefydliad Addysg.

Taylor, P., Davies, L., Wells, P., Gilbertson, J. a Tayleur, W. (2015) A review of the Social Impacts of Culture and Sport. Sheffield: Sheffield Hallam University. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/416279/A_review_of_the_Social_Impacts_of_Culture_and_Sport.pdf

TNS UK (2011) *Encouraging involvement in Big Society. Cultural and sporting perspective*. Llundain: TNS UK. [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/77434/Taking_Part_Big_Society_Report_NOV2011_update.pdf

Tom Fleming Creative Consultancy (2015) *Cultural and Creative Spillovers in Europe: Report on a Preliminary Evidence Review*. TFCC. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/Cultural_creative_spillovers_in_Europe_full_report.pdf

Waldfogel, J. a Washbrook, E. (2010) *Low income and early cognitive development in the UK: A report for the Sutton Trust,* Llundain: Sutton Trust.

Walker, A.; Sinfield, A. a Walker, C. (2011) *Fighting Poverty, Inequalities and Injustices: A manifesto inspired by Peter Townsend,* Bryste: The Policy Press.

Llywodraeth Cymru (2014) *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/det/publications/141111responseen.pdf

Llywodraeth Cymru (2015) *Y Rhaglen Ardaloedd Arloesi – Blwyddyn Beilot 2015-16. Dogfen Cychwyn y Rhaglen*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015) *Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant. Blwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015) *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/130703takeforpovactplanen.pdf

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2014) *Culture, Sport and Wellbeing: An Analysis of the Taking Part Survey*. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476322/Culture_Sport_and_Wellbeing_-_An__analysis_of_the__Taking_Part__Survey.pdf

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2015) *Creative Industries Economic Estimates, January 2015, Statistical Release*. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/394668/Creative_Industries_Economic_Estimates_-_January_2015.pdf.


Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2015) *Taking Part 2015/16 Quarter 2. Statistical Release*. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/495586/Taking_Part_2015-16_Quarter_2_Report_2.pdf

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (1999) *Creating Opportunities Guidance for Local Authorities in England on Local Cultural Strategie*s. Llundain: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (1998) *Creative Industries Mapping Documents 1998*. Diweddarwyd ar 9 Ebrill 1998. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/creative-industries-mapping-documents-1998 [Fel ar: 5 Ionawr 2016].

# Merthyr Tudful a Chaerdydd

## Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf





### Merthyr Tudful
**Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf**


- Canol Merthyr Tudful
- Gogledd Merthyr Tudful
- De Merthyr Tudful


### Caerdydd
**Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf**


- Gorllewin Caerdydd
- Butetown, Glan yr Afon a Grangetown
- STAR (Sblot, Tremorfa, Adamsdown a'r Rhath)
- Dwyrain Caerdydd





Gwynedd
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Gwynedd
Rhosneigr
Aberffraw
Porthaethwy
Bangor
Llanfairfechan
Y Felinheli
Bethesda
Dolgarrog
Caernarfon
Llanrug
Trefriw
Llanrwst
Bontnewydd
Llanberis
Betws-y-coed
Betws Garmon
Pen-y-groes
Penmachno
Pentrefoelas
Clynnog Fawr
Beddgelert
Cerrigydrudion
Blaenau Ffestiniog
Llanaelhaearn
Nefyn
Llanffestiniog
Corwen
Llangollen
Porthmadog
Cricieth
Penrhyndeudraeth
Boduan
Y Bala
Trawsfynydd
Pwllheli
Llanbedrog
Harlech
Llanuwchllyn
Aber-soch
Aberdaron
Llanbedr
Llangynog
Dyffryn Ardudwy
Llanelltud
Llanfyllin
Abermo
Dolgellau
Fairbourne
Mallwyd
Meifod
Llangadfan
Corris
Cemais
Llanfair Caereinion
Tywyn
Machynlleth
Aberriw
Aberdyfi
Carno
Cartograffeg ML/149/15.16 Pioneer Areas


Casnewydd
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Cwmbrân
Tredynog
Pont-hir
Llanfair Isgoed
Crosskeys
Y Betws
Malpas
Parc Seymour
Llanfaches
Caerllion
Langstone
Pen-hw
Rhisga
Machen
Machen Isaf
Tŷ du
Allt-yr-ynn
Sain Silian
Y Coldra
Underwood
Llan-wern
Casnewydd
Rhiwderyn
Gaer
Basaleg
Pilgwenlli
Llysweri
Trefesgob
Magwyr
Gwndy
Dyffryn
Llanfihangel-y-fedw
Redwick
Whitson
Goldcliff
Cas-bach
Maerun
Llansanffraid Gwynllŵg
Llaneirwg
Llanbedr Gwynllŵg
Tredelerch
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Gogledd Casnewydd
Gorllewin Casnewydd
Canol Casnewydd
Dwyrain Casnewydd
Cartograffeg ML/149/15.16 Pioneer Areas


Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Gogledd Orllewin Abertawe
Gorllewin Abertawe
Gogledd Ddwyrain Abertawe
De Abertawe
Dwyrain Abertawe
Pontyberem
Rhydaman
Ystradgynlais
Ystalyfera
Pontarddulais
Pontardawe
Clydach
Pen-bre
Porth Tywyn
Llanelli
Y Glais
Gorseinon
Penlle'r-gaer
Mynachlog Nedd
Tonna
Castell-nedd
Tre-gŵyr
Crofty
Cimla
Llandarcy
Llansawel
Dynfant
Sgeti
Llanmadog
Llanrhidian
Llangynydd
Abertawe
Baglan
Cwmafan
Port Talbot
Rhosili
Penmaen
Llandeilo Ferwallt
Y Mwmbwls
Oxwich
Port Einon
Abertawe
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Cartograffeg ML/149/15.16 Pioneer Areas


Torfaen
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Brynmawr
Nant-y-glo
Blaenafon
Blaenau
Llanofer
Cwmafon
Y Farteg
Penperllenni
Abertyleri
Tal-y-waun
Abersychan
Little Mill
Trefddyn
Coed-y-mynach
Aber-big
Waunfelin
Llanhiledd
Pont-y-pŵl
New Inn
Griffithstown
Crymlyn
Sebastopol
Trecelyn
Pontnewydd
Croesyceiliog
Cwmbrân
Llanyrafon
Fairwater
Henllys
Llantarnam
Pont-hir
Crosskeys
Malpas
Caerllion
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Gogledd Torfaen
De Torfaen
Tŷ-du
Casnewydd
Cartographics ML/149/15.16 Pioneer Areas



Wrecsam
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Pentrefi Trefol, Wrecsam
Parc Caia a Hightown
Llanbedr Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Treuddyn
Yr Hob
Caergwrle
Llai
Yr Orsedd
Gresffordd
Brymbo
Gwersyllt
Wrecsam
Rhostyllen
Rhosllanerchrugog
Bangor Is-coed
Malpas
Rhiwabon
Corwen
Llangollen
Eglwys Wen
Llannerch Banna
Y Waun
Glyn Ceiriog
Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Ellesmere
Gobowen
Croesoswallt
Wem
Cartographics ML/149/15.16 Pioneer Areas

**Atodiad Dau - Fframwaith Canlyniadau ar gyfer yr Ardaloedd Arloesi**

**Diwylliant yn cefnogi cyflawniad canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf – i'w gwerthuso gan yr Ardaloedd Arloesi gyda chefnogaeth y cydlynydd ymchwil cenedlaethol**

| Canlyniad Cymunedau yn Gyntaf | Cyfraniad i Ganlyniad Cymunedau yn Gyntaf | Cysylltiadau â fframweithiau eraill |
|---|---|---|
| **CI2 Hybu Lles Corfforol**<br><br>**CI3 Hybu Lles Meddyliol** | Hyrwyddo lles, iechyd emosiynol a dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw drwy weithgarwch diwylliannol. Gweithgareddau diwylliannol yn cael eu defnyddio i annog unigolion i wella eu hiechyd. | • Teuluoedd yn Gyntaf Canlyniad 3<br>• Dechrau'n Deg: Plant (Corfforol) a Rhieni (Iechyd Meddwl)<br>• Dylai cyrff hefyd ystyried integreiddio tybiaethau 'Pum Ffordd at Les' i weithgareddau a chysylltu â rhwydweithiau Celfyddydol ac Iechyd a sefydlwyd gan Amgueddfa Cymru. |
| **CI6 Cefnogi pobl i fyw yn y gymuned** | Annog cymunedau i weithio gyda'i gilydd i fwynhau eu cymunedau ac i gefnogi cynhwysedd drwy annog dealltwriaeth o ymdeimlad o le, hunaniaeth a hanes lleol, a gwella rhwydweithiau cymdeithasol. | • Argymhellion Kay Andrews 4, 5, 22, 23 a 27<br>• Dechrau'n Deg: Plant (Cymdeithasol) a Rhieni (Canfyddiadau o'r Ardal Leol a Chymorth Cymdeithasol)<br>• Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Pobl (Wedi dysgu am Dreftadaeth a Newid agweddau / ymddygiad) |
| **CD1 Hybu Dysgu fel Teulu yn y Blynyddoedd Cynnar** | Gweithgareddau diwylliannol yn hyrwyddo dysgu a datblygu, o enedigaeth hyd at oed ysgol. | • Argymhellion Kay Andrews 1 a 12<br>• Dechrau'n Deg: Plant (Iaith a Gwybyddol) |
| **CD2 Cynorthwyo pobl ifanc i wneud yn** | Gweithgareddau diwylliannol yn cael eu | • Argymhellion Kay Andrews 10, 16, |

| | | |
|---|---|---|
| **dda yn yr ysgol** | defnyddio i gynyddu mwynhad y plant o ddysgu a'r ysgol, i hyrwyddo mwynhad o ddysgu, ac i gefnogi cyrhaeddiad mewn meysydd fel llythrennedd a rhifedd. | 17 a 21<br>• Teuluoedd yn Gyntaf: Canlyniad 2 (gweler L2)<br>• Dechrau'n Deg: Plant (Iaith a Gwybyddol)<br>• Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Pobl (Wedi dysgu am Dreftadaeth ac Wedi cael profiad pleserus) |
| **CD3 Cynorthwyo teuluoedd i gymryd rhan yn addysg eu plant** | Dysgu plant yn cael ei gefnogi a'i gyfoethogi drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, a rhieni yn cymryd rhan yn addysg eu plant trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol addysgol y tu allan i'r Ysgol. | • Argymhellion Kay Andrews 1, 12, 16<br>• Teuluoedd yn Gyntaf: Canlyniad 2 a Canlyniad 4<br>• Dechrau'n Deg: Plant (Iaith); Rhiant (Sgiliau Rhieni / Hyder)<br>• Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Pobl (Wedi dysgu am Dreftadaeth) |
| **CD4 Dysgu Gydol Oes mewn cymunedau**<br><br>**CD5 Gwella Sgiliau Bywyd Oedolion** | Cefnogi dysgu gydol oes mewn cymunedau a gwella sgiliau bywyd oedolion trwy weithgareddau diwylliannol a chynlluniau gwirfoddoli. | • Argymhellion Kay Andrews 10 a 21<br>• Teuluoedd yn Gyntaf: Canlyniad 1<br>• Dechrau'n Deg: Rhiant (Ymddygiad / Sgiliau / Hyder Rhiant)<br>• Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Pobl (Wedi Datblygu Sgiliau) |
| **CFf1 Helpu Pobl i Ddatblygu Sgiliau Cyflogaeth a Dod o hyd i Waith** | Cyrff diwylliannol yn hwyluso'r broses o chwilio am gyflogaeth, yn hyrwyddo profiad gwaith gweithredol, ac yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd mewn oedolion. | • Argymhelliad Kay Andrews 25<br>• Teuluoedd yn Gyntaf: Canlyniad 1<br>• Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Pobl (Wedi Datblygu Sgiliau) |
| **CFf1 Lleihau Diweithdra ac Ymddieithrio Ymysg Pobl Ifanc** | Cyfranogiad diwylliannol yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i helpu pobl ifanc ymgysylltu'n well â byd gwaith, i ddysgu | • Argymhelliad Kay Andrews 25<br>• Teuluoedd yn Gyntaf: Canlyniad 2 |

| | | |
|---|---|---|
| | sgiliau newydd ac i ddarparu cyfleoedd am hunan ddatblygiad. | • Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Cymunedau (Bydd ardaloedd lleol / cymunedau yn llefydd gwell i fyw / gweithio / ymweld â) |
| **CFf3 Hybu Cynhwysiant Digidol** | Darparwyr diwylliannol yn ceisio sicrhau mynediad i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, yn cefnogi caffael sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu sylfaenol a gwella hyder pobl wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. | • Argymhelliad Kay Andrews 26<br>• Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Pobl (Wedi Datblygu Sgiliau) |

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Seilwaith – i'w gwerthuso gan y cydlynydd ymchwil cenedlaethol gyda chefnogaeth yr Ardaloedd Arloesi

| Canlyniad Cymunedau yn Gyntaf | Cyfraniad i Ganlyniad Cymunedau yn Gyntaf | Cysylltiadau â fframweithiau eraill |
|---|---|---|
| Hyrwyddo gweithio ar y cyd rhwng sefydliadau diwylliannol, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a sectorau / asiantaethau eraill, a chymunedau lleol | Canolfannau diwylliannol yn cryfhau cydweithrediad cynaliadwy gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o weithio gyda sefydliadau eraill, fel Awdurdodau Lleol, cymdeithasau tai, elusennau, grwpiau cymunedol, ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch ac eraill, i rannu adnoddau a gwybodaeth ac i gynyddu cyfranogiad diwylliannol o fewn cymunedau. | • Argymhellion Kay Andrews 3, 6, 7, 8, 9, 10, 31 and 32 |

# Atodiad Tri: Astudiaethau Achos y Rhaglen Ardaloedd Arloesi

**Y pedwar prosiect a ddewiswyd ar gyfer astudiaethau achos yw:**

No table of contents entries found.**1. Prosiect Gwneud Ffilm LOCWS International**, **Ardal Arloesi Abertawe**

| | |
|---|---|
| **Partneriaid Allweddol** | Cymunedau yn Gyntaf<br>Locws International<br>Awdurdod Addysg y Gweithwyr (WEA) |
| **Grwpiau Targed** | Plant oedran ysgol<br>Oedolion di-waith<br>Unigolion sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol |
| **Canlyniadau Trechu Tlodi** | PC1: Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith<br>PC2: Hybu profiad gwaith gweithredol a sgiliau cyflogadwyedd ymysg oedolion<br>LC2: Hybu dysgu fel teulu ac ymgysylltu ag addysg eu plant |

*Cefndir y prosiect*

1.1 Mae'r prosiect hwn yn enghraifft o weithgarwch newydd sydd wedi'i ddatblygu o waith Partneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe (PDC) a'i ddarparu mewn cydweithrediad â Cymunedau yn Gyntaf, Locws Rhyngwladol[1] a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru (WEA Cymru)[2] yn ystod y flwyddyn beilot. Y nod yw

[1] Elusen a gaiff ei harwain gan artistiad, yn Ninas Abertawe yw Locws International ac mae'n comisiynu artistiaid rhyngwladol ac artistiaid o'r DU i greu gwaith celf newydd ar gyfer mannau cyhoeddus hygyrch ar draws y ddinas. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan: http://www.locwsinternational.com/?langswitch_lang=cy.

[2] Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru yn darparu addysg gymunedol, gan gynnwys datblygiad cymunedol a dysgu ar-lein, mewn cymunedau ac addysg yn y gweithle. Mae'n darparu ei waith drwy strwythur canghennau lleol a thrwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol a gwirfoddol; sefydliadau cynrychioliadol yn y gweithle; a darparwyr eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a phrifysgolion. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar ei gwefan: http://www.weacymru.org.uk/cym.

cefnogi unigolion sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas i lunio llwybrau unigol i ddysgu ffurfiol a/neu gyflogaeth drwy feithrin a gwella eu sgiliau rhyngbersonol a chyflogadwyedd. Cyflwynwyd y prosiect dros gyfnod o 4 diwrnod yn ystod hydref 2015, gan roi cyfle i'r cyfranogwyr ddysgu am greu ffilmiau digidol a gweithio fel rhan o dîm bach i greu ffilm fer drwy ddefnyddio treftadaeth a diwylliant amrywiol eu cymunedau lleol.

1.2 Datblygwyd y prosiect i ymateb yn uniongyrchol i bryderon a godwyd gan gyflogwyr lleol yn y sectorau diwylliannol a chreadigol eu bod yn wynebu anawsterau wrth recriwtio staff medrus ar bob lefel, p'un a oeddent yn weithwyr profiadol, yn raddedigion neu'n dechnegwyr. Pwysleisiwyd potensial y sector diwylliannol a chreadigol o ran cyfrannu at gryfhau twf economaidd yn yr ardal ac ar draws Cymru yn barhaus gan y partneriaid diwylliannol; ond nodwyd bod y prinder sgiliau yn y diwydiant yn cael effaith andwyol ar dwf. Canfuwyd bod diwydiannau, o'r cyfryngau ffilm a digidol, yn berthnasol iawn i greadigrwydd unigolion yn y gymuned leol, a bod angen mynediad, felly, at gronfa o dalent sy'n meddu ar y sgiliau cywir.

1.3 Pwysleisiodd un o'r partneriaid allweddol a oedd yn arwain y prosiect pa mor hanfodol yw sgiliau sylfaenol, fel llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd, yn arbennig mewn swyddi yn y sector creadigol, lle mae elfen dechnegol neu artistig gref. Yn ogystal, pwysleisiwyd bod angen, hefyd, am lwybrau galwedigaethol cryf i'r sector creadigol. I ymateb i'r ffactorau hyn, roedd Locws Rhyngwladol wedi creu partneriaeth waith yn ddiweddar gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Bay Studios[3], er mwyn cynorthwyo i gynllunio a darparu ei raglen allgymorth a, thrwy hyn, ymchwilio i gyfleoedd posibl ar gyfer darparu hyfforddiant arbenigol i gymunedau mewn ardaloedd difreintiedig yn y ddinas.

*Cynnyrch y prosiect*

1.4 Llwyddodd y prosiect i gynnwys 25 o unigolion rhwng 10 a 50 oed (o dri Chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf) mewn cyfres o weithdai gwneud ffilmiau a gyflwynwyd gan artist lleol dros gyfnod o bedwar diwrnod. Drwy gydweithredu â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), cafodd y cyfranogwyr gyfle i ennill achrediad Proffesiynol Lefel Mynediad Agored Cymru ar sail credyd ochr yn ochr â'r cwrs.

*Prosesau monitro a gwerthuso*

1.5 Cafodd cynnyrch y prosiect eu nodi gan arweinwyr y prosiect, mewn cydweithrediad agos â staff Cymunedau yn Gyntaf ym mhob Clwstwr, i adlewyrchu anghenion a

[3] Bay Studios, yn Abertawe, yw stiwdios ffilm dan do mwyaf Ewrop, ac mae'n cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant ffilm a theledu, yn ogystal â nifer o grefftau gwahanol

blaenoriaethau penodol y cyfranogwyr, a chawsant eu cysoni'n uniongyrchol â'r Fframwaith Canlyniadau Ardaloedd Arloesi. O ganlyniad, ni chyflwynodd y clystyrau adroddiad ar yr un canlyniadau o reidrwydd: er enghraifft, roedd un clwstwr wedi cynnwys cyfranogwyr o gategori oedran iau; ac roedd lefel yr hyfforddiant a gynigiwyd yn amrywio ym mhob cymuned, yn dibynnu ar ba gam o gynnydd yr unigolyn yr oedd yn cael ei gynnig.

1.6 Fel rhan o'r broses fonitro a gwerthuso, cafodd ffilm ddogfen ei chynhyrchu, gyda chyfraniad gan y cyfranogwyr, i roi trosolwg o'r prosiect a chyfleu canfyddiadau a phrofiadau'r cyfranogwyr o'r prosiect a'i effaith ar eu bywydau[4].

*Canlyniadau ac effeithiau allweddol*

1.7 Dengys tystiolaeth o'r gwerthusiad fod y gweithgareddau a ddarparwyd fel rhan o'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y cyfranogwyr. Mae tystiolaeth anecdotaidd o gyfweliadau â'r rhanddeiliaid a'r data monitro a gwerthuso a gasglwyd fel rhan o'r prosiect yn awgrymu bod y prosiect wedi chwarae rhan bwysig o ran cefnogi cynnydd y cyfranogwyr drwy alluogi unigolion i wella eu cyflogadwyedd a meithrin sgiliau ymarferol a thechnegol newydd. Er enghraifft, yn ystod y prosiect, cyflwynwyd y cyfranogwyr i fformatau digidol sy'n datblygu'n gyflym, a chawsant eu harwain drwy'r prosesau allweddol o wneud ffilm fer, gan gynnwys y cyfnod cyn-gynhyrchu (datblygu'r syniad, cynllunio ac ymchwilio), cynhyrchu (gweithredu camerâu, goleuadau, a sain) ac ôl-gynhyrchu (dylunio gwaith celf a golygu terfynol).

1.8 Mae canlyniadau 'meddal', megis hyder a hunan-barch ymysg y cyfranogwyr hefyd yn amlwg. Pwysleisiodd un o gynrychiolwyr Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn rhan o'r prosiect mai'r elfen bwysicaf oedd effaith cymryd rhan mewn profiad cadarnhaol a oedd yn gwella hyder rhywun, gan ysbrydoli'r cyfranogwyr i ddysgu rhagor a datblygu dyheadau. Mae'r ffilm ddogfen a gynhyrchwyd gan gyfranogwyr y prosiect hefyd yn dangos tystiolaeth o effaith y prosiect ar ddyheadau dysgu'r cyfranogwyr ar gyfer y dyfodol - er enghraifft, soniodd llawer o'r cyfranogwyr am eu bwriad i gael hyfforddiant pellach:

> "*It's definitely something I've really enjoyed. In the future I'd like to do something like this again, do another course and see where it goes. I really enjoyed the acting part of it and would like to carry on with it*." (Cyfranogwr D)

> "*I wanted to learn about the software and all about making a film, and I'm now looking for some advanced course in media to learn more about it*." (Cyfranogwr E)

[4] The documentary film can be viewed at: https://www.youtube.com/watch?v=ZngpGfflFgU.

"*I'd definitely like to do it again in the future, so hopefully something pops up again soon*." (Cyfranogwr F)

1.9 Roedd tystiolaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid hefyd yn dangos bod y gwaith o lunio a gweithredu'r prosiect wedi bod yn brofiad dysgu gwerthfawr i'r partneriaid diwylliannol. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o Locws pa mor werthfawr yw cysylltu'n uniongyrchol â thimau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal. Nodwyd bod ganddynt, bellach, drwy'r berthynas waith newydd hon, well ymwybyddiaeth o anghenion a blaenoriaethau cymunedau lleol a gwell gwybodaeth am yr anghenion a'r blaenoriaethau hynny, a dulliau o ddylunio a darparu prosiectau gyda ffocws penodol ar dargedu unigolion mewn cymunedau difreintiedig. Nodwyd bod LOCWS yn gweithio'n agos gyda WEA Cymru i ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu a chynnig achrediadau a chyrsiau newydd.

1.10 O ganlyniad i lwyddiant y rhaglen, mae'r darparwyr diwylliannol yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno ail gyfres o weithdai rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2016, a fydd yn ailadrodd ac yn adeiladu ar y gweithgareddau gwneud ffilm yn y gyfres gyntaf o weithdai. Caiff y gweithdai eu cyflwyno mewn partneriaeth â WEA Cymru a byddant yn gyfle i ennill achrediad ar Lefel Mynediad a Lefel 1. Nod yr ail gam yw:

- ailgysylltu â'r cyfranogwyr o gam cyntaf y prosiect, gan ganolbwyntio ar sut yr hoffent symud ymlaen o ran eu dysgu;
- cynnig cyfleoedd i gyfranogwyr blaenorol gymryd rhan mewn gweithgareddau mentora a chynorthwyo cyfoedion i rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dysgu;
- cynnwys cyfranogwyr newydd o'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y cyfranogwyr sy'n cofrestru ar gyfer y gweithdai.

1.14 Nododd y partner diwylliannol a oedd yn arwain y gweithdai fod saith o'r cyfranogwyr o'r gyfres gyntaf o weithdai wedi cofrestru i gymryd rhan yn y cwrs lefel uwch.

1.15 Caiff effaith gadarnhaol y prosiect ar unigolion sy'n byw yn y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd ag ymrwymiad y partneriaid diwylliannol i adeiladu ar y gwaith a gafodd ei wneud yn ystod y flwyddyn beilot, ei bwysleisio gan un o'r partneriaid arweiniol o'r Ardal Arloesi:

"*The success of this film-making project can itself be seen as evidence that the Swansea Creative Learning Partnership's approach has been successful. As the partnership continues to develop and partner relationships and understanding grow, so will the mechanisms around measuring success*."

## 2. Prosiect Llofnod Dysgu Teulu, Ardal Arloesi Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Partneriaid Allweddol** | Cymunedau yn Gyntaf<br>Cyngor Gwynedd<br>Sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol amrywiol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol |
| **Grwpiau Targed** | Plant oed ysgol<br>Teuluoedd |
| **Canlyniadau Trechu Tlodi** | LC1 Hyrwyddo dysgu fel teulu yn y blynyddoedd cynnar<br>LC2 Cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol<br>LC3 Cefnogi teuluoedd i ymgysylltu ag addysg eu plant |

*Cefndir y prosiect*

2.1 Proses ymgysylltu a chasglu data sy'n canolbwyntio ar allu teulu i gefnogi dysgu eu plentyn yw'r Llofnod Dysgu Teulu. Un o egwyddorion sylfaenol y broses yw bod y teulu'n gweithio gyda'i gilydd i greu ei Lofnod ei hun a chymryd rhan, drwy'r broses hon, mewn trafodaeth onest am ei gryfderau a'i wendidau, a'r hyn y gall ei wneud - naill ai fel unigolion, neu gyda chymorth gan eraill - i wella ei gapasiti i gefnogi dysgu. Caiff y data a gesglir eu defnyddio gan yr ysgol, wedyn, i lunio a darparu cymorth wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

2.2 Yn gryno, mae'r broses Llofnod Dysgu Teulu yn cynnwys 36 o 'Elfennau', wedi'u grwpio'n bedwar 'Amod' (diwylliant, amgylchedd, ymrwymiad a sgiliau), sy'n cynrychioli capasiti dysgu'r teulu. Gwahoddir teuluoedd sy'n cymryd rhan i weithdy lle y gofynnir iddynt ymateb i 36 o ddatganiadau ac asesu eu hunain yn erbyn yr 'Elfennau' sy'n effeithio ar eu gallu i gefnogi dysgu.[5]

[5] Gellir cael rhagor o wybodaeth am y broses Llofnod Dysgu Teulu ar wefan BusinessLab: http://www.businesslab.co.uk/.

2.3 Cafodd y Llofnod Dysgu Teulu ei weithredu yng Ngwynedd am y tro cyntaf yn 2004 fel rhan o 'Brosiect Cydweithio Ysgol i Ysgol ar Draws y Sir', gan baru ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghlwstwr Cymunedau yn Gyntaf Gwynedd. Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan GwE[6], gyda chymorth gan Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y prosiect yn cynnwys saith ysgol: Ysgol Friars, Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Maesincla, Ysgol yr Hendre, ac Ysgol Talysarn, ac yn cael ei arwain gan Ysgol Glancegin ym Mangor. Yn yr ysgol arweiniol, aeth 30 o deuluoedd, a oedd yn cynnwys pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6, ati i lunio llofnod personol fel rhan o'r broses. Cafodd dros 80% o'r llofnodion eu cwblhau yn ystod gweithdai a hysbysebwyd ymlaen llaw yn yr ysgol, a chafodd y gweddill eu cynnal mewn grwpiau llai yn ddiweddarach. Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd fel rhan o'r broses, tynnodd yr ysgol sylw at feysydd allweddol a gafodd eu hamlygu fel rhai arbennig o heriol. Yna, dewiswyd grŵp o deuluoedd a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol wedi'i dargedu i oresgyn yr heriau hyn. Gweithiodd, wedyn, ochr yn ochr â'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a phartner allanol – Canolfan Ddringo Beacon yng Nghaernarfon – i lunio sesiwn wedi'i theilwra ar gyfer y teuluoedd. Mae cynrychiolydd o'r ysgol arweiniol yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod y sesiwn ac yn myfyrio ar eu llwyddiant:

> '*The session started with them having to plan what equipment they were going to use, who was going to do what during the session and which member of that family was playing which role. So they had to create their own session plan. Then they had to communicate and talk to one another whilst they were climbing. The sessions allowed us to test the waters and see if we could offer something which could help families to change their signature - to turn the red into yellow and the yellow into green. The response from the families and the schools about the activity was very positive*.'

2.4 Mae tystiolaeth sydd wedi'i chasglu gan glystyrau'r ysgolion hyd yn hyn, sydd wedi'i hategu gan ymchwil a waned gan Brifysgol Bangor, yn awgrymu bod y Llofnod Dysgu Teulu wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan.

2.5 Dangosir bod y broses wedi ennyn ymddiriedaeth, ymgysylltiad a hyder ymysg teuluoedd a disgyblion yr ysgol, a gwella'r berthynas rhwng yr ysgol a theuluoedd a gofalwyr. Mae wedi bod yn llwyddiannus, hefyd, o ran ymgysylltu â theuluoedd anodd eu cyrraedd;

[6] GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sy'n gweithio'n gwbl ddwyieithog ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn, ac ar ran yr awdurdodau hynny, i ddatblygu ysgolion rhagorol ar hyd a lled y rhanbarth. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar ei wefan: http://www.gwegogledd.cymru/cy.

2.6 Ceir tystiolaeth bod y rhaglen Llofnod Dysgu Teulu wedi gwella cydweithredu; o fewn yr ysgolion eu hunain, ac yn allanol rhwng yr ysgolion a sefydliadau partner sy'n datblygu ymyriadau dysgu wedi'u teilwra, yn seiliedig ar yr hyn a gynhyrchwyd gan bob Llofnod;

2.7 Mae'r gweithdai a'r sesiynau a gaiff eu cynnal yn yr ysgolion wedi helpu ysgolion a sefydliadau partner i gysylltu â theuluoedd mewn ffordd nad yw'n fygythiol ac annog cyfranogiad gweithgar mewn amgylchedd 'diogel' a chyfarwydd;

2.8 Mae tystiolaeth ychwanegol gan ddefnyddwyr hirdymor y Llofnod Dysgu Teulu wedi dangos sut mae'r Llofnod wedi arwain at welliannau mewn capasiti dysgu disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, o ran presenoldeb a chyrhaeddiad, gan arwain at arbedion costau sylweddol drwy osgoi ymyriadau aciwt costus yn ddiweddarach (BusinessLab, 2015[7])

2.9 Yn dilyn llwyddiant gweithredu'r cam cyntaf hwn, cafodd cwmpas y prosiect ei ymestyn yn 2015 i gynnwys pum ysgol ychwanegol o Wynedd, Môn, Conwy a Sir y Fflint. Mae'r cydweithredu hwn ar draws awdurdodau wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar gonsortiwm sy'n galluogi ysgolion sy'n rhan o'r prosiect i gyfuno Grant Amddifadedd Disgyblion a chyllid Cymunedau yn Gyntaf i dalu costau trwyddedu'r Llofnod Dysgu Teulu, ac unrhyw hyfforddiant a chymorth ychwanegol i gefnogi'r broses.

2.10 Fel rhan o'r Rhaglen Beilot Ardaloedd Arloesi, mae Ysgol Glancegin a'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gyda'r ysgolion yng Ngwynedd a gymerodd ran yng ngham cyntaf y Llofnod Dysgu Teulu i ddarparu ail brosiect a fydd yn ymgysylltu â grŵp newydd o gyfranogwyr o ardal Cymunedau yn Gyntaf. Cafodd Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chyrff sy'n gweithredu o fewn y sir, ei sefydlu ym mis Ebrill 2015 i gefnogi'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ac aelodau partneriaeth Cyfuno Gwynedd i greu, gweithredu a gwerthuso cyfres o ymyriadau lefel uwch a ddarperir yn allanol ar gyfer teuluoedd sy'n cwblhau'r Llofnod Dysgu Teulu yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16. Yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd y gwerthusiad, roedd y llofnodion yn y broses o gael eu cwblhau a chafodd cyfres o weithdai hyfforddi a rhannu gwybodaeth eu cynnal gydag aelodau'r Rhwydwaith Cyfuno a'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan i ddylunio rhaglen o ymyriadau teuluol i gael eu darparu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016, fel rhan o broses y Llofnod Dysgu Teulu.

*Amserlen y gweithgareddau (Ionawr - Mawrth 2016)*

[7] BusinessLab (2015) *The Family Learning Signature: An Introduction*, Aberdeen: BusinessLab.

2.11 Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016, bydd y 10 partner yn cynnal dros 30 o sesiynau wedi'u targedu at deuluoedd o'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Bydd y rhan fwyaf o'r sesiynau'n cael eu cynnal gan y sefydliadau partner ac yn gyfle i'r teuluoedd ymweld ag amrywiol leoliadau a safleoedd diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol yn eu hardal leol.

*Prosesau monitro a gwerthuso*

2.12 Gofynnir i bob teulu sy'n cymryd rhan yn y broses Llofnod Dysgu Teulu gwblhau ffurflen fonitro amgaeedig, a hynny ar ddechrau'r broses, ac ar ei diwedd. Bydd angen i'r ysgol hefyd gwblhau cyfres o gwestiynau yn seiliedig ar eu canfyddiadau o effaith y gweithgareddau ar bob teulu. Bydd pob partner yn cyfrannu at ddylunio'r ffurflenni monitro a byddant yn ymgorffori'r elfennau penodol y bydd eu sesiynau unigol hwy yn anelu at eu trafod; er enghraifft, cyfleoedd i gynllunio neu gyfleoedd i gyfathrebu ac ati.

2.13 Caiff tystiolaeth feintiol ac ansoddol a gesglir yn ystod y broses Llofnod Dysgu Teulu ei choladu a'i dadansoddi ym mis Mawrth 2016, a chaiff prif ganfyddiadau'r prosiect eu cyflwyno mewn adroddiad cryno.

2.14 Mae'r Rhwydwaith Cyfuno hefyd yn gobeithio dylunio system fonitro a gwerthuso i fesur effaith y prosiect Llofnod Dysgu Teulu yn y tymor hwy, yn arbennig o ran teuluoedd a fydd yn ailymweld â'r lleoliadau a safleoedd diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol sy'n cymryd rhan, gyda'r bwriad o lunio adroddiad ar y canlyniadau ym mis Medi 2016.

## 3. Prosiect 'Positive Identity - A Journey of self-discovery and awareness', Ardal Arloesi Casnewydd

| | |
|---|---|
| **Partneriaid Allweddol** | Urban Circle Productions<br>Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, Canol Casnewydd<br>YMCA Casnewydd<br>Prifysgol De Cymru<br>Mis Hanes Pobl Dduon Cymru<br>Amgueddfa Casnewydd<br>Black Nine Films |
| **Grwpiau Targed** | Pobl ifanc rhwng 10 a 17 oed o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig |
| **Canlyniadau Trechu Tlodi** | PC1 Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith<br>PC2 Hyrwyddo cynhwysiant digidol<br>LC2 Cynorthwyo pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol |

*Cefndir y Prosiect*

3.1 Roedd y prosiect yn cynnig cyfleoedd i grŵp o bobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig mewn tair cymuned canol dinas i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai treftadaeth a gwneud ffilmiau. Roedd y gweithdai yn edrych yn fanwl ar ddylanwadau diwylliant Affricanaidd hynafol ar ddatblygiad cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig cyfoes yn yr ardal, a sut yr oeddent yn integreiddio i gymdeithas yng Nghymru. Cafodd y prosiect ei arwain gan Urban Circle, sef sefydliad ieuenctid lleol, mewn partneriaeth â Cymunedau yn Gyntaf, amrywiol sefydliadau lleol a diwylliannol a threftadaeth; Black Nine Films, sef cwmni cynhyrchu ffilmiau yn y DU; a Phrifysgol De Cymru. Fel rhan o'r gweithdy, cafodd y cyfranogwyr gyfle i ymchwilio i ddylanwad hanes a diwylliant Affro-Caribïaidd ar eu cymunedau, gan ddefnyddio cofnodion hanesyddol a ffilmiau dogfen, a chynnal cyfweliadau ag amrywiaeth o drigolion lleol. Cawsant gyfle hefyd i ddysgu am wneud ffilmiau digidol

drwy gymryd rhan yn y broses o wneud ffilm fer, a oedd yn dathlu treftadaeth a diwylliant amrywiol eu cymunedau lleol.

*Cynnyrch y prosiect*

3.2 Roedd prif gynnyrch y prosiect yn cynnwys:

- cyfres o weithdai gwneud ffilmiau a gyflwynwyd gan Black Nine Films dros gyfnod o wythnos ym mis Mai 2015;
- dau weithdy ar Ddulliau Ymchwilio a gyflwynwyd gan staff Prifysgol De Cymru, Campws Caerllion a Champws y Ddinas yng Nghasnewydd;
- gweithdy treftadaeth a gyflwynwyd gan y Rheolwr Dysgu Agored a Threftadaeth yn Amgueddfa Casnewydd;
- trip gwersylla yn yr awyr agored i staff a chyfranogwyr y prosiect.

*Canlyniadau ac effeithiau*

3.3 Roedd y gweithdai gwneud ffilmiau yn cynnwys darlithoedd a sesiynau rhyngweithiol a oedd yn cwmpasu themâu fel hanes ffilm, pŵer y cyfryngau, cyflwyniad i ffilm ddogfen, a phwysigrwydd hanes pobl dduon, yn ogystal â sesiynau ymarferol a oedd yn rhoi cyflwyniad i'r cyfranogwyr i elfennau sylfaenol gwneud ffilmiau. Yn y sesiynau hyn, ychwanegodd y cyfranogwyr at eu gwybodaeth am wahanol ddulliau ffilmio a golygu; technegau ar gyfer sicrhau cyfansoddiad effeithiol; a pha mor bwysig yw elfennau sain ac archif, a phrofiad ymarferol o ddefnyddio offer camera modern, digidol. Ar ôl cwblhau'r gweithdai, bu staff a gwirfoddolwyr Urban Circle yn gweithio gyda'r cyfranogwyr mewn sesiynau wythnosol i drafod yr hyn a ddysgwyd ac er mwyn cynllunio, ymchwilio a pharatoi ar gyfer y ffilm.

3.4 Nod y gweithdai Dulliau Ymchwilio oedd cael y cyfranogwyr i werthfawrogi a deall ymchwil, gan gynnwys elfennau fel cynllun ymchwil, dulliau ansoddol a meintiol o gasglu data; a thechnegau dadansoddi data. Roedd tystiolaeth anecdotaidd a gafwyd gan y partner arweiniol yn dangos bod y gweithdai wedi cynyddu dealltwriaeth cyfranogwyr o'r broses ymchwil, ac wedi rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gynllunio a chyflawni prosiect ymchwil manwl. Roedd hefyd yn darparu profiad cyntaf gwerthfawr o addysg bellach i'r cyfranogwyr gan nad oeddent erioed wedi ymweld â champysau'r prifysgolion o'r blaen.

3.5 Roedd y gweithdy treftadaeth a gynhaliwyd yn Amgueddfa Casnewydd yn galluogi cyfranogwyr i wella eu hymwybyddiaeth o hanes lleol ac ardaloedd treftadaeth pwysig yn eu hardaloedd hwy a gwella eu dealltwriaeth ohonynt. Roedd y themâu yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y gweithdai yn cynnwys hanes y Rhufeiniaid; patrymau

mudo poblogaethau lleol; hanes gweithfeydd glo Cymoedd y De; a newidiadau yn yr economi leol.

3.6 Mae tystiolaeth anecdotaidd gan y partner diwylliannol sy'n arwain y prosiect yn dangos bod y cyfranogwyr wedi cael hyfforddiant a phrofiad ymarferol o ddefnyddio offer arbenigol i wneud ffilmiau, gan gynnwys camera digidol proffesiynol a meddalwedd golygu ffilm, a'u bod hefyd wedi meithrin sgiliau cyfathrebu gwerthfawr, gweithio fel rhan o dîm a rheoli prosiectau, ynghyd â gwella eu gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o'u treftadaeth.

3.7 Drwy ymgynghori â'r grŵp llywio ieuenctid, cafodd y cyfranogwyr gyfle i gymryd rhan mewn trip gwersylla yn yr awyr agored er mwyn cael egwyl o ddwyster gweithgareddau'r prosiect. Yn ystod y trip, cymerodd y cyfranogwyr ran mewn cyfres o weithgareddau adeiladu tîm, wedi'u hanelu at eu hannog i weithio fel tîm a magu hyder. Roedd tystiolaeth anecdotaidd a roddwyd gan arweinwyr y prosiect yn dweud bod y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r profiad o fod allan yn yr awyr agored a rhyngweithio â'i gilydd mewn lle mwy anffurfiol, hwyliog a chymdeithasol a bod y gweithgareddau wedi eu galluogi i feithrin sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr, gan gynnwys datrys problemau'n annibynnol, cyfathrebu a gwrando; a gwneud penderfyniadau, arwain a hunanreoli. Drwy hyn, gwelwyd bod egni a syniadau newydd yn cael eu cyfrannu at y prosiect.

3.8 Dros gyfnod y prosiect, cyfarfu grŵp llywio, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith y cyfranogwyr, 16 o weithiau gan alluogi'r bobl ifanc i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau am y prosiect, a chyfrannu at y broses honno. Un enghraifft oedd y ddau ddangosiad o'r ffilm ddogfen a drefnwyd ac a gydgysylltwyd gan y cyfranogwyr a gynrychiolwyd ar y grŵp llywio.

3.9 Cafodd y prosiect ei reoli a'i gyflawni gan bedwar aelod o staff cyflogedig (tri gweithiwr ieuenctid a chynorthwyydd gweinyddol) a benodwyd am gyfnod o chwe mis, gyda chymorth dau weithiwr ieuenctid gwirfoddol.

3.10 Mae'r ffilm ddogfen fer, 'Positive Identity - A Journey of Self-Discovery and Positive Awareness', a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect yn cael ei defnyddio fel cymorth addysgol gan y gymuned a'r sefydliadau partner i fynd i'r afael â rhai o'r mythau a'r camddealltwriaeth ynghylch hanes pobl dduon. Dangoswyd y ffilm am y tro cyntaf yn sinema Cineworld, Casnewydd ym mis Hydref 2015 i gyd-fynd â Mis Hanes Pobl Dduon. Cafodd pob tocyn ar gyfer y 120 o seddi eu gwerthu, a bwriedir cynnal taith o ddangosiadau ledled Casnewydd a Chaerdydd ar ddechrau 2016.

## 4. Ardal Arloesi Wrecsam: Oriel Crafters / Prosiect 'Make Trips'

| | |
|---|---|
| **Partneriaid Allweddol** | Oriel Wrecsam<br>Cymunedau yn Gyntaf<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Castell y Waun ac Ystâd Erddig)<br>Cyngor Sir Ddinbych (Plas Newydd, Llangollen) |
| **Grwpiau Targed** | Oedolion di-waith<br>Unigolion sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol |
| **Canlyniadau Trechu Tlodi** | PC1 Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith<br>PC2 Hyrwyddo cynhwysiant digidol<br>LC2 Cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol |

*Cefndir y prosiect*

4.1 Mae Oriel Crafters a'r prosiect 'Make Trips' yn enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi'u hwyluso a'u darparu drwy waith partneriaeth Ardal Arloesi Wrecsam. Ym mis Mehefin 2015, cafodd cyfres o gyrsiau arlunio, o dan arweiniad Oriel Wrecsam (oriel gelf a gaiff ei hariannu gan yr Awdurdod Lleol) mewn partneriaeth â thîm Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, eu darparu ar gyfer saith o drigolion lleol yng nghymuned Parc Caia yn Wrecsam i annog hygyrchedd i ddigwyddiadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ymysg oedolion lleol di-waith ac sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, mynegodd y cyfranogwyr awydd i barhau i gwrdd ac archwilio a datblygu eu diddordebau ymhellach, a chyda chefnogaeth Oriel Wrecsam, cafodd grŵp arlunio anffurfiol o dan arweiniad cyfoedion ei sefydlu o dan yr enw Oriel Crafters. Mae sefydlu'r grŵp hwn yn cynnig model cynaliadwy lle y gall cyfranogwyr barhau â'u gwaith; maent yn cwrdd yn wythnosol; i gydweithio ar weithgareddau crefft, rhannu sgiliau, syniadau a gwybodaeth, a'r cyfranogwyr sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r prosiectau a chydgysylltu ac arwain pob sesiwn.

4.2 Yn dilyn ymlaen o'r gwaith hwn, ac mewn ymateb i gais gan y grŵp Oriel Crafters i ehangu cwmpas ei weithgareddau er mwyn manteisio ar y cyfleoedd yn y sector

diwylliannol a threftadaeth ehangach yn Wrecsam, cafodd rhaglen newydd o gyrsiau eu cyflwyno gan Oriel Wrecsam yn ystod hydref 2015 '(Make Trips') wedi'i hanelu at aelodau presennol y grŵp Oriel Crafters a chyfranogwyr newydd o gymuned Parc Caia. Mae'r partner diwylliannol sy'n arwain y prosiect yn pwysleisio bod Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o hwyluso ac annog cyfranogiad drwy gysylltiadau uniongyrchol ag unigolion a grwpiau yn y gymuned, negeseuon e-bost, e-fwletinau a newyddlenni. Roedd cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chyfranogwyr oedd â diddordeb, yn ystod yr wythnosau yn arwain at y gweithdai, hefyd wedi sicrhau cyfranogiad:

> "*CF have supported all the activities that we've done, particularly in terms of recruiting participants because they're there on the ground, they know the community and they've got those links that we haven't got. So it was about us not re-developing the wheel and making these links separately when they already existed, so that's worked really well*." (Cyfweliad â phartner diwylliannol)

4.3 Dilynodd y prosiect strwythur tebyg i'r cwrs arlunio cyntaf, ond cafodd y cyfranogwyr gyfle i gwblhau pedwar gweithdy undydd a gafodd eu cynnal mewn safleoedd diwylliannol a threftadaeth gwahanol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Y cyrchfannau a ddewiswyd fel rhan o'r prosiect oedd Castell y Waun ac Ystâd Erddig (y ddau yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Plas Newydd yn Llangollen a thaith ar gwch camlas ar hyd pum milltir o safle Treftadaeth y Byd Camlas Llangollen yn Nyffryn Dyfrdwy, a oedd yn cynnwys croesi Dyfrbont Pontcysyllte.

4.4 Un o brif nodau'r ymweliadau hyn oedd rhoi cyfle i gyfranogwyr ddefnyddio a meithrin eu sgiliau mewn lleoliad diwylliannol newydd y tu hwnt i'w hamgylchoedd cymunedol arferol ym Mharc Caia. Yn wir, dyma'r tro cyntaf i lawer o'r cyfranogwyr ymweld â'r safleoedd hyn ac roeddent yn gwerthfawrogi'r profiadau newydd a gawsant:

> "*It's been a delight to go to all these different places, and it's introduced us to new environments ... I think I'll be quite sad that this is the last one. We'll remember these experiences … and hopefully we'll have more opportunities as well*." (Cyfranogwr ym mhrosiect yr Ardal Arloesi)

4.5 Gwnaeth y grŵp Oriel Crafters gais am arian i dalu costau cludiant a chawsant gyfraniadau gan Cymunedau yn Gyntaf a'r tîm Rheoli Cyrchfannau yng Nghyngor Wrecsam.

4.6 Fel rhan o raglen waith Ardal Arloesi Wrecsam, cyflwynodd Oriel Wrecsam gwrs pedair wythnos: *'Introduction to Creative Floristry'*, mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf. Cafodd y cwrs ei gynnig mewn ymateb i ddiddordeb gan aelodau Oriel Crafters a chyfranogwyr y gweithdai arlunio a gynhaliwyd fel rhan o'r

prosiect Make Trips. Mae'r cwrs yn cynnwys dau gam, a phob un yn cael ei gynnal dros 4 sesiwn. Cafodd y cam cyntaf ei gwblhau yn ystod hydref 2015, a chaiff yr ail ei gyflwyno rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2016. Y gobaith yw y bydd y cyfranogwyr sy'n cofrestru ar gyfer ail gam y cwrs yn gallu ennill achrediad proffesiynol mewn trin blodau ochr yn ochr â'r cwrs felly bydd yn bosibl dangos sut y gall y cwrs fod o fantais amlwg i unigolion Parc Caia.

*Dulliau monitro a gwerthuso*

4.7 Roedd y prosesau monitro a gwerthuso a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect yn cynnwys:

- dosbarthu a chwblhau ffurflenni cofrestru ar ddechrau'r prosiect er mwyn casglu gwybodaeth am gefndir y cyfranogwyr, gan gynnwys oedran, statws cyflogaeth a chod post;
- gofyn am adborth anffurfiol yn ystod y gweithdai er mwyn casglu gwybodaeth am farn a phrofiadau'r cyfranogwyr;
- defnyddio ffurflenni gwerthuso ar ddiwedd y prosiect i gasglu gwybodaeth am brofiad y cyfranogwyr a'u cynnydd;
- gwneuthurwr ffilmiau yn mynd gyda'r cyfranogwyr ar bob ymweliad i gofnodi'r gweithgareddau a chasglu adborth gan y cyfranogwyr am eu profiadau yn y gweithdai.

*Canlyniadau ac effeithiau*

4.8 Roedd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod y prosiect a'i weithgareddau cysylltiedig wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys:

- mwy o ymgysylltiad â lleoliadau a safleoedd diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth;
- cymryd rhan weithredol a mwy o gysylltiad cymdeithasol;
- mwy o hunanhyder a gwella lles;
- gwell cysondeb rhwng blaenoriaethau iechyd, diwylliant a Chymunedau yn Gyntaf.